# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 18/06/2013

Cynnwys Contents


Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Datganiad: Darparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol
Statement: Future Delivery of Education Services in Wales

Datganiad: Strategaeth Pysgodfeydd a Morol Cymru
Statement: The Wales Marine and Fisheries Strategy

Dadl Cyfnod 3 ar Fil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) o dan Reol Sefydlog Rhif 26.44
Stage 3 Standing Order No. 26.44 Debate on the Local Government (Democracy) (Wales) Bill

Cynnig Cyfnod 4 i Gymeradwyo Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) o dan Reol Sefydlog Rhif 26.47
Stage 4 Standing Order No. 26.47 Motion to Approve the Local Government (Democracy) (Wales) Bill

Cynnig i Ethol Aelod i Bwyllgor
Motion to Elect a Member to a Committee


*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Datganiad gan y Llywydd

## Statement by the Presiding OfficerY

Senedd.tv Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Good afternoon, everyone. The National Assembly for Wales is now in session. Before we start, I would like to take the opportunity to congratulate Kirsty Williams on her being appointed a Commander of the Order of the British Empire in the Queen's birthday honours list. [Applause.] Many congratulations, Kirsty. There will be no special favours, though. [Laughter.]

Prynhawn da, bawb. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyn i ni ddechrau, hoffwn fanteisio ar y cyfle i longyfarch Kirsty Williams ar gael ei phenodi'n Gadlywydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig yn rhestr anrhydeddau pen-blwydd y Frenhines. [Cymeradwyaeth.] Llongyfarchiadau mawr, Kirsty. Ni fydd unrhyw ffafrau arbennig, serch hynny. [Chwerthin.]

13:31

### Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

I would not expect any. [Laughter.]

Ni fyddwn yn disgwyl unrhyw ffafrau. [Chwerthin.]

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Nodau Datblygu'r Mileniwm y Cenhedloedd Unedig

### United Nations' Millennium Development Goals

13:31

### Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd i gefnogi Nodau Datblygu'r Mileniwm y Cenhedloedd Unedig? OAQ(4)1132(FM)*

*1. What action has the Welsh Government taken to help support the United Nations' Millennium Development Goals? OAQ(4)1132(FM)*

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Since 2006, our innovative Wales for Africa programme has supported many thousands of people across Wales to work together through hundreds of community and hospital projects to make a real difference to the lives of a great number of people in sub-Saharan Africa.

Ers 2006, mae ein rhaglen arloesol, Cymru o Blaid Affrica, wedi cefnogi miloedd lawer o bobl ledled Cymru i weithio gyda'i gilydd trwy gannoedd o brosiectau cymunedol ac ysbyty i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau nifer fawr o bobl yn Affrica is-Sahara.

Senedd.tv Fideo Video

13:31 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister. I am particularly proud that Wales is leading the way in terms of our fair-trade programmes. You mentioned the Wales for Africa scheme, so will you explore how we can also lead the way in terms of enabling disabled people, both here and in the developing world, to benefit from these international links?

Diolch, Brif Weinidog. Rwy'n arbennig o falch bod Cymru yn arwain y ffordd o ran ein rhaglenni masnach deg. Soniasoch am y cynllun Cymru o Blaid Affrica, a wnewch chi felly ystyried sut y gallwn hefyd arwain y ffordd o ran galluogi pobl anabl, yma ac mewn gwledydd datblygol, i elwa o'r cysylltiadau rhyngwladol hyn?

Senedd.tv Fideo Video

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We will indeed look at that. I can say that it has been a great benefit to schools, Welsh managers and leaders—just over 100 have been involved in projects, and I have met many of them over the years, particularly medics of various different professions. We want to ensure that the links are as strong as possible and involve as many people as possible, so we will certainly look at that.

Byddwn yn sicr yn ystyried hynny. Gallaf ddweud ei fod wedi bod o fudd mawr i ysgolion, rheolwyr ac arweinyddion Cymru—mae ychydig dros 100 wedi cymryd rhan mewn prosiectau, ac rwyf wedi cyfarfod â llawer ohonyn nhw dros y blynyddoedd, yn enwedig meddygon o amryw o wahanol broffesiynau. Rydym yn awyddus i sicrhau bod y cysylltiadau cyn gryfed â phosibl ac yn cynnwys cymaint o bobl â phosibl, felly byddwn yn sicr yn ystyried hynny.

Senedd.tv Fideo Video

13:32 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

First Minister, one of the United Nations' millennium development goals is the promotion of gender equality and the empowerment of women. Violence against women continues to undermine efforts to reach this and other goals. Rape Crisis has said that many women in Wales have to deal with the legacy of sexual violence without any support due to huge inconsistencies in the standard and availability of services. Will the First Minister address this by ensuring that consistent specialist sexual violence support services across Wales will be a priority in the forthcoming Bill?

Brif Weinidog, un o nodau datblygu'r mileniwm y Cenhedloedd Unedig yw hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol ac ymrymuso menywod. Mae trais yn erbyn menywod yn parhau i danseilio ymdrechion i gyrraedd y nod hwn a nodau eraill. Mae Argyfwng Trais wedi dweud bod yn rhaid i lawer o fenywod yng Nghymru ymdopi â sgil-effeithiau trais rhywiol heb unrhyw gymorth oherwydd anghysonderau anferth o ran y gwasanaethau sydd ar gael a'u safon. A wnaiff y Prif Weinidog fynd i'r afael â hyn trwy sicrhau y bydd gwasanaethau cymorth trais rhywiol arbenigol cyson ledled Cymru yn flaenoriaeth yn y Bil arfaethedig?

Senedd.tv Fideo Video

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The violence against women and domestic abuse Bill is coming through the Assembly itself. One of the greatest barriers that will be erected in terms of women getting justice will be the lack of access they will have to legal aid in years to come, either because they are not eligible as individuals or because they are not able to get advice because of the fairly ludicrous contracting system that has been put in place. The Member is shouting that that is not true; I can assure him it is. I worked in this field for 10 years and I suspect that I know more about legal aid than he does. Many people will not get justice in the future because they will not get access to legal aid.

Mae'r Bil trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig yn dod drwy'r Cynulliad ei hun. Un o'r rhwystrau mwyaf a fydd yn cael ei godi o ran menywod yn cael cyfiawnder fydd y diffyg mynediad fydd ganddyn nhw at gymorth cyfreithiol yn y blynyddoedd i ddod, naill ai gan nad ydynt yn gymwys fel unigolion neu gan nad ydynt yn gallu cael cyngor oherwydd y system gontractio eithaf chwerthinllyd sydd wedi ei rhoi ar waith. Mae'r Aelod yn gweiddi nad yw hynny'n wir; gallaf ei sicrhau ei fod yn wir. Bûm yn gweithio yn y maes hwn am 10 mlynedd ac rwy'n amau fy mod yn gwybod mwy am gymorth cyfreithiol nag y mae ef. Bydd llawer o bobl na fyddant yn cael cyfiawnder yn y dyfodol gan na fydd ganddynt fynediad at gymorth cyfreithiol.

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Un o'r gwledydd yn Affrica sy'n dioddef llawer iawn o dlodi ac amddifadedd yw Lesotho. Mae corff wedi cael ei sefydlu, sef Dolen Cymru, i gysylltu Cymru â'r wlad honno, sy'n druenus mewn llawer ffordd. Pa gefnogaeth y mae'r Llywodraeth yn ei rhoi i Dolen Cymru, a sut mae'n cydweithio er mwyn ceisio hyrwyddo arferion da a gwella sefyllfa pobl Lesotho?

Lesotho is an African country that suffers a great deal of poverty and deprivation. An organisation was established, namely Dolen Cymru, or the Wales Lesotho Link, in order to create a link between Wales and this country, which is poor in so many ways. How is the Welsh Government supporting Dolen Cymru, and how is it collaborating with the organisation in order to promote best practice and improve the lives of people in Lesotho?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae llawer o gefnogaeth yn cael ei roi i Ddolen Cymru. Cwrddais â Gweinidog o Lywodraeth Lesotho sawl wythnos yn ôl a buom yn trafod y gwaith da sydd wedi cael ei wneud gan Ddolen Cymru o ran y cysylltiadau rhwng Cymru a Lesotho. Gobeithiaf y bydd y cysylltiadau hynny yn parhau ac yn cryfhau yn y blynyddoedd i ddod.

A great deal of support is given to Dolen Cymru. I met a Minister of the Lesotho Government some weeks ago and discussed the good work being carried out by Dolen Cymru on the links already in place between Wales and Lesotho. We hope that those links will continue and will be strengthened for the future.

## Clefyd Coed Ynn

## Ash Dieback

13:34 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymateb Llywodraeth Cymru i'r clefyd coed ynn? OAQ(4)1138(FM)*

*2. Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's response to ash dieback? OAQ(4)1138(FM)*

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The most recent discovery of ash dieback disease was detected by Natural Resources Wales staff during a routine inspection at Ferryside. Natural Resources Wales is undertaking surveys to observe how far the disease has spread.

Canfuwyd y darganfyddiad diweddaraf o glefyd coed ynn gan aelodau staff Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod archwiliad rheolaidd yng Nglanyfferi. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal arolygon i weld pa mor bell y mae'r clefyd wedi lledaenu.

13:35 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer. The Forestry Commission last week warned that the spread of ash dieback is 'unstoppable'. However, do we have a management plan in place? Can I have an update on how much recently planted infected ash has been removed, and have the proposed protected zones been established yet? Can we have an update also on the situation regarding the embargoes on the import of ash saplings and under-threat trees such as sweet chestnut? Finally, will you consider working with Natural Resources Wales to create an ash dieback app in order to help other people identify and report the disease?

Diolch i chi am yr ateb yna. Rhybuddiodd y Comisiwn Coedwigaeth yr wythnos diwethaf na ellid atal clefyd coed ynn rhag lledaenu. Fodd bynnag, a oes gennym ni gynllun rheoli ar waith? A allaf i gael y wybodaeth ddiweddaraf am faint o goed ynn wedi'u heintio a blannwyd yn ddiweddar y cafwyd gwared arnynt, ac a yw'r ardaloedd diogel arfaethedig wedi cael eu sefydlu eto? A allwn ni gael y wybodaeth ddiweddaraf hefyd am y sefyllfa o ran y gwaharddiadau ar fewnforio glasbrennau ynn a choed dan fygythiad, fel castanwydd melys? Yn olaf, a wnewch chi ystyried gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i greu cymhwysiad clefyd coed ynn er mwyn helpu pobl eraill i nodi a hysbysu am y clefyd?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have the Wales Chalara management plan, which highlights the potential benefits of proactively removing infected and other recently planted ash. The information on the removal of recently planted ash is not collected by the private sector, although we know that removals are taking place. On the sweet chestnut blight, there is no indication that that blight is present in Wales at the moment. However, investigations of the recent findings in southern England are being used to inform decisions about whether there is a need to carry out a survey in Wales.

Mae cynllun rheoli Chalara Cymru gennym, sy'n amlygu manteision posibl cael gwared yn rhagweithiol ar goed ynn wedi'u heintio a rhai eraill a blannwyd yn ddiweddar. Ni chesglir y wybodaeth am gael gwared ar goed ynn a blannwyd yn ddiweddar gan y sector preifat, er ein bod yn gwybod bod coed yn cael eu codi. O ran malltod y castanwydd melys, nid oes unrhyw arwydd bod y malltod hwnnw yn bresennol yng Nghymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae ymchwiliadau i'r canfyddiadau diweddar yn ne Lloegr yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau ynghylch pa un a oes angen cynnal arolwg yng Nghymru.

Regarding an app, I can inform Members that an app, known as Tree Alert, has been developed by Forestry Commission GB on the reporting of tree diseases. That originally included information only on ash dieback symptoms, but has now been expanded to include information on other pests and diseases. There are no plans to produce a separate app for Wales because the app that has been produced by the Forestry Commission is comprehensive enough.

O ran cymhwysiad, gallaf hysbysu'r Aelodau bod cymhwysiad o'r enw Tree Alert, wedi cael ei ddatblygu gan Gomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr ar hysbysu am glefydau coed. Yn wreiddiol, gwybodaeth am symptomau clefyd coed ynn yn unig oedd wedi'i chynnwys ynddo, ond mae wedi ei ehangu bellach i gynnwys gwybodaeth am blâu a chlefydau eraill. Nid oes unrhyw gynlluniau i gynhyrchu cymhwysiad ar wahân i Gymru gan fod y cymhwysiad sydd wedi ei gynhyrchu gan y Comisiwn Coedwigaeth yn ddigon cynhwysfawr.

13:36 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you will know that there are vast sections of this tree to be felled in Wales. Have you made any plans for the use of that timber, which will be extensive?

Brif Weinidog, byddwch yn gwybod bod ardaloedd helaeth o'r goeden hon am gael eu torri i lawr yng Nghymru. A ydych chi wedi gwneud unrhyw gynlluniau ar gyfer defnyddio'r pren hwnnw, a fydd yn helaeth?

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That is a matter for those who are felling the timber. It is not known whether the timber can be used in the normal way. However, if there is a market for that timber, that market will be supplied.

Mae hwnnw'n fater i'r rhai sy'n torri'r coed. Nid ydym yn gwybod a ellir defnyddio'r pren yn y ffordd arferol. Fodd bynnag, os oes marchnad ar gyfer y pren hwnnw, bydd y farchnad honno'n cael ei chyflenwi.

13:37 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Croesawaf eich cyhoeddiad ynglŷn â'r ap, a fydd yn adnodd gwerthfawr. Fodd bynnag, nid pawb sy'n defnyddio aps, er bod nifer o bobl yn gwneud hynny. Pa gynlluniau sydd gan y Llywodraeth yn ehangach i hynny, felly, i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r clefyd hwn yn benodol, drwy ddefnyddio dulliau gwybodaeth gyhoeddus ehangach, efallai?

I welcome your announcement on the app, which will be a valuable resource. However, not everyone uses apps, although many people do, of course. So, what plans does the Government have to raise awareness of this disease more broadly, perhaps by using wider public information methods?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae hwn yn fater i NRW symud ymlaen ag ef, ond mae'r dystiolaeth hyd yma yn dangos bod y cyhoedd yn rhoi tystiolaeth i NRW ynglŷn ag unrhyw arwydd o'r clefyd hwn yng Nghymru. Mae hefyd yn bosibl i bobl fynd i wefan NRW ac i wefan y Comisiwn Coedwigaeth. O ran yr ap, nid oes gan rai pobl fynediad i adnoddau digidol, ond mae'n bosibl iddynt gysylltu â NRW er mwyn dod i wybod beth yw symptomau'r clefyd.

This is a matter for NRW to progress, but there is evidence that members of the public are providing evidence to NRW in relation to any signs of this disease in Wales. It is also possible to visit the NRW and Forestry Commission websites. In terms of the app, there are people who do not have access to digital resources, but it is possible for them to contact NRW in order to find out for themselves what the symptoms of this disease are.

13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party leaders. First this afternoon, we have the Leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinyddion y pleidiau. Yn gyntaf y prynhawn yma, mae gennym ni Arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:38 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Before I ask my questions to the First Minister, I would like to take this opportunity to pay tribute, on behalf of all Plaid Cymru Members, to my predecessor, Ieuan Wyn Jones, for all the work that he has done for this institution, for his determination to tackle the problems in our economy, and for all that he has done to build this country of ours. Diolch yn fawr, Ieuan.

First Minister, wages have fallen in value by 8% in real terms since 2007. I would agree with one of your backbenchers, who said this morning that austerity is not inevitable but a political choice. That is why Plaid Cymru supports the Wales TUC campaign entitled A Future That Works. First Minister, do you back the Wales TUC campaign, and, if you agree that austerity is a political choice, can you explain why your party will stick to Tory spending plans if elected to Westminster in 2015?

Cyn i mi ofyn fy nghwestiynau i'r Prif Weinidog, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i dalu teyrnged, ar ran holl Aelodau Plaid Cymru, i'm rhagflaenydd, Ieuan Wyn Jones, am yr holl waith y mae wedi ei wneud dros y sefydliad hwn, am ei benderfyniad i fynd i'r afael â'r problemau yn ein heconomi, ac am y cwbl y mae wedi ei wneud i adeiladu ein gwlad. Diolch yn fawr, Ieuan.

Brif Weinidog, mae gwerth cyflogau wedi gostwng 8% mewn termau real ers 2007. Byddwn yn cytuno ag un o aelodau eich meinciau cefn, a ddywedodd y bore yma nad yw camau cynilo yn anochel, ond yn ddewis gwleidyddol. Dyna pam mae Plaid Cymru yn cefnogi ymgyrch Dyfodol sy'n Gweithio TUC Cymru. Brif Weinidog, a ydych chi'n cefnogi ymgyrch TUC Cymru, ac, os ydych chi'n cytuno bod camau cynilo yn ddewis gwleidyddol, a allwch chi esbonio pam y bydd eich plaid yn cadw at gynlluniau gwario'r Toriaid os caiff ei hethol i San Steffan yn 2015?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I join the leader of Plaid Cymru and pay my tributes to Ieuan Wyn Jones, as someone who I worked with in Government for four years. He is someone who I have, and had, the utmost respect for, and I wish him well in his future endeavours.

The leader of Plaid Cymru asks about Westminster matters. She will know that, as far as my party is concerned at Westminster, it will have to take some difficult decisions in advance of the 2015 general election. However, we have made it clear in Wales that, as a Welsh Government, we do not agree with the programme of austerity that is being propagated by the Tories and Liberal Democrats in London. We do not see that the evidence is there to show that what they are doing is working. We, of course, have put in place a number of programmes in order to mitigate the effects of what is being presented to us from London.

Rwy'n ymuno ag arweinydd Plaid Cymru ac yn talu fy nheyrnged i Ieuan Wyn Jones, fel rhywun y bûm i'n gweithio gydag ef yn y Llywodraeth am bedair blynedd. Mae'n rhywun y mae gen i, ac y bu gen i, y parch mwyaf ato, a dymunaf yn dda iddo yn ei ymdrechion yn y dyfodol.

Mae arweinydd Plaid Cymru yn gofyn am faterion San Steffan. Bydd yn gwybod, cyn belled ag y mae fy mhlaid i yn y cwestiwn yn San Steffan, y bydd yn rhaid iddi wneud rhai penderfyniadau anodd cyn etholiad cyffredinol 2015. Fodd bynnag, rydym ni wedi ei gwneud yn eglur yng Nghymru nad ydym ni, fel Llywodraeth Cymru, yn cytuno â'r rhaglen o gamau cynilo sy'n cael ei chyflawni gan y Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain. Nid ydym yn gweld bod y dystiolaeth yno i ddangos bod yr hyn y maen nhw'n ei wneud yn gweithio. Rydym ni, wrth gwrs, wedi sefydlu nifer o raglenni er mwyn lliniaru effeithiau'r hyn sy'n cael ei gyflwyno i ni o Lundain.

13:40 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, you and your party cannot have it both ways. Labour cannot oppose austerity here and then support it in London. You warn us about the effects of cuts to the Welsh budget because of next week's comprehensive spending review, and yet Labour will not even commit to scrapping the bedroom tax. Worse, Labour wants to see a regional benefit cap—a cap on social security in Wales. First Minister, why is your party proposing a regional benefit cap that will mean that disabled and unemployed people in Wales will get less money than people in the same circumstances in other parts of the UK?

Brif Weinidog, ni allwch chi na'ch plaid ei chael hi bob ffordd. Ni all y Blaid Lafur wrthwynebu camau cynilo yma ac yna eu cefnogi yn Llundain. Rydych chi'n ein rhybuddio am effeithiau toriadau i gyllideb Cymru oherwydd adolygiad cynhwysfawr o wariant yr wythnos nesaf, ac eto ni wnaiff Llafur ymrwymo i gael gwared ar y dreth ystafell wely hyd yn oed. Yn waeth fyth, mae Llafur eisiau gweld cyfyngiad rhanbarthol ar fudd-daliadau—cyfyngiad ar nawdd cymdeithasol yng Nghymru. Brif Weinidog, pam mae eich plaid yn cynnig cyfyngiad rhanbarthol ar fudd-daliadau a fydd yn golygu y bydd pobl anabl a di-waith yng Nghymru yn cael llai o arian na phobl dan yr un amgylchiadau mewn rhannau eraill o'r DU?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I have seen no evidence to suggest that my party supports a regional benefits cap as a matter of policy.

Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod fy mhlaid yn cefnogi cyfyngiad rhanbarthol ar fudd-daliadau fel mater o bolisi.

13:41 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would suggest that you read your various Ministers' speeches, First Minister. Wales has been described as

Byddwn yn awgrymu eich bod yn darllen areithiau eich amryw Weinidogion, Brif Weinidog. Disgrifiwyd Cymru fel:

'the poor man of Europe. The rest of the world is moving ahead so fast that, if we do not start catching up, the legacy we will leave our children is a hopeless wasteland'.

dyn tlawd Ewrop. Mae gweddill y byd yn symud ymlaen mor gyflym, os na fyddwn yn dechrau dal i fyny, yna tir diffaith anobeithiol fydd yr etifeddiaeth y byddwn yn ei gadael i'n plant.

Those are not my words, but the words of veteran Welsh broadcaster, Vincent Kane. Is he right, and how will you stop his prediction from coming true?

Nid fy ngeiriau i yw'r rhain, ond geiriau'r darlledwr profiadol o Gymru, Vincent Kane. A yw'n iawn, a sut wnewch chi atal ei broffwydoliaeth rhag dod yn wir?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First of all, I can assure the leader of Plaid Cymru that my party does not have any ministers in London. We do have Ministers in Wales and no Ministers have used such words. I do not believe in the gloom-ridden, R. S. Thomas-like description that she has given of the situation in Wales. She will know of the schemes that have been put in place—the huge success of Jobs Growth Wales, the SME growth fund, the Wales economic growth fund, the digital development fund, and the life sciences Wales investment fund, with the appointment only this week of the first professor to be appointed under Sêr Cymru. She will know that levels of employment have increased and that levels of unemployment have decreased. There is, of course, still a long way to go, but it does show that this Government is proactive.

Yn gyntaf oll, gallaf sicrhau arweinydd Plaid Cymru nad oes gan fy mhlaid unrhyw weinidogion yn Llundain. Mae gennym ni Weinidogion yng Nghymru ac nid oes unrhyw Weinidogion wedi defnyddio geiriau o'r fath. Nid wyf yn credu yn y disgrifiad tywyll, yn arddull R.S. Thomas y mae wedi ei roi o'r sefyllfa yng Nghymru. Bydd yn gwybod am y cynlluniau sydd wedi cael eu rhoi ar waith—llwyddiant ysgubol Twf Swyddi Cymru, y gronfa twf BBaChau, cronfa twf economaidd Cymru, y gronfa datblygu digidol, a chronfa fuddsoddi gwyddorau bywyd Cymru, a phenodwyd yr athro cyntaf dan Sêr Cymru dim ond yr wythnos hon. Bydd yn gwybod bod lefelau cyflogaeth wedi cynyddu a bod lefelau diweithdra wedi gostwng. Mae, llawer iawn i'w wneud o hyd, wrth gwrs, ond mae hyn yn dangos bod y Llywodraeth hon yn rhagweithiol.

She also asks why we cannot have it both ways. I do note—and I do not pose this as a question, but rather as an observation—that there are several different views with regard to Wylfa B within Plaid Cymru. It would be useful for us to know whether the party supports, or not, the establishment of the new reactor at Wylfa B.

Mae hi hefyd yn gofyn pam na allwn ni ei chael hi bob ffordd. Rwy'n nodi—ac nid wyf yn gofyn hyn fel cwestiwn, ond yn hytrach fel sylw—bod nifer o safbwyntiau gwahanol ar Wylfa B o fewn Plaid Cymru. Byddai'n ddefnyddiol i ni gael gwybod a yw'r blaid yn cefnogi sefydlu'r adweithydd newydd yn Wylfa B ai peidio.

13:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now move to the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn nawr at arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:42 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I join with the sentiments that have been expressed by the leader of Plaid Cymru about the Member for Anglesey. I have had the pleasure of sitting in this Chamber for five years now with him. I have known him to be a very competent Minister, and a Minister who delivers on what he says. I have also known him as a colleague on committees, always working in the best interests of his constituents and, indeed, Wales. He has had the unique opportunity to sit in both Westminster and the Assembly. I think that the measure of success has been this institution bedding itself in, along with the progress he has made in moving many good causes across Wales and in advancing the cause of Wales in the United Kingdom and Europe. So, I share in the tributes that have been paid to him today.

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n ymuno â'r sylwadau a fynegwyd gan arweinydd Plaid Cymru am yr Aelod dros Ynys Môn. Rwyf wedi cael y pleser o eistedd gydag ef yn y Siambr hon am bum mlynedd bellach. Rwyf wedi ei adnabod fel Gweinidog cymwys iawn, a Gweinidog sy'n cyflawni'r hyn y mae'n ei ddweud. Rwyf wedi ei adnabod hefyd fel cydweithiwr ar bwyllgorau, bob amser yn gweithio er lles ei etholwyr ac, yn wir, er lles Cymru. Mae wedi cael y cyfle unigryw i eistedd yn San Steffan ac yn y Cynulliad. Credaf mai'r mesur o lwyddiant fu ymsefydlu'r sefydliad hwn, ynghyd â'r cynnydd mae wedi ei wneud o ran datblygu llawer o achosion da ledled Cymru, ac wrth hyrwyddo achos Cymru yn y Deyrnas Unedig ac yn Ewrop. Felly, rwyf am fod yn rhan o'r teyrngedau a dalwyd iddo heddiw.

I also join in the congratulations to the leader of the Welsh Liberal Democrats on her honour, rightly given on Saturday in the Queen's birthday honours.

Rwyf hefyd yn ymuno yn y llongyfarchiadau i arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar ei hanrhydedd, a roddwyd yn haeddiannol iddi ddydd Sadwrn yn anrhydeddau pen-blwydd y Frenhines.

First Minister, why is there so much importance attached to the setting of targets in the delivery of public services in Wales by your Government?

Brif Weinidog, pam mae cymaint o bwysigrwydd yn cael ei roi ar osod targedau wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gan eich Llywodraeth?

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

May I echo the comments of the leader of the opposition with regard to the leader of the Welsh Liberal Democrats? I would also echo his comments about Ieuan Wyn Jones. I think that we have to be careful sometimes, when we pay tribute to somebody, to remember that they are still alive. Ieuan is very much in that category, so, even though the political tributes are important, I know that he has much to contribute yet to the public life of Wales.

A gaf i adleisio sylwadau arweinydd yr wrthblaid o ran arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru? Rwyf hefyd yn adleisio ei sylwadau am Ieuan Wyn Jones. Rwy'n credu bod yn rhaid i ni fod yn ofalus weithiau, pan fyddwn yn talu teyrnged i rywun, i gofio eu bod yn dal yn fyw. Mae Ieuan yn sicr yn y categori hwnnw, felly, er bod y teyrngedau gwleidyddol yn bwysig, rwy'n gwybod fod ganddo lawer i'w gyfrannu eto i fywyd cyhoeddus Cymru.

It is important, of course, that we have milestones and targets in order for us to ensure, particularly with regard to health, that progress can be measured.

Mae'n bwysig, wrth gwrs, fod gennym gerrig milltir a thargedau er mwyn i ni sicrhau, yn enwedig o ran iechyd, y gellir mesur cynnydd.

13:44 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome your drawing our attention to health, because in health, for example, cancer waiting time targets have not been met since 2008. We know that accident and emergency response time targets have not been met since 2009. We also know that ambulance response time targets have not been met for 11 months. We learned last week that there are 7,611 people waiting more than 36 weeks for treatment—a massive increase in relation to the target that your Government only recently put much store by. What we do not know about is the success of enterprise zones in Wales. I was interested in the response that you gave to the leader of Plaid Cymru, because, in listing what you saw as the economic achievements of your Government, you did not list enterprise zones as one of those achievements.

Rwy'n croesawu'r ffaith eich bod yn tynnu ein sylw at iechyd, oherwydd ym maes iechyd, er enghraifft, ni chyrhaeddwyd targedau amseroedd aros canser ers 2008. Rydym yn gwybod na chyrhaeddwyd targedau amseroedd ymateb i ddamweiniau ac achosion brys ers 2009. Rydym hefyd yn gwybod na chyrhaeddwyd targedau amseroedd ymateb ambiwlansys ers 11 mis. Clywsom yr wythnos diwethaf fod 7,611 o bobl sy'n aros yn hirach na 36 wythnos am driniaeth— cynnydd enfawr o'i gymharu â'r targed y mae eich Llywodraeth wedi pwysleisio cymaint ar ei bwysigrwydd dim ond yn ddiweddar. Yr hyn nad ydym yn ei wybod amdano yw llwyddiant yr ardaloedd menter yng Nghymru. Roedd gen i ddiddordeb yn yr ymateb a roesoch i arweinydd Plaid Cymru, oherwydd, wrth restru yr hyn yr oeddech chi'n ei ystyried yn llwyddiannau economaidd eich Llywodraeth, ni restrwyd ardaloedd menter gennych fel un o'r llwyddiannau hynny.

We fully support the introduction of enterprise zones and the benefits that they can bring to local economies. However, we have tried, time and again, to find out what jobs and new businesses are being created and, importantly, what investment has gone into enterprise zones in Wales. Will you be setting key targets that we can use to benchmark the success of enterprise zones and, if those figures already exist, will you make them available this week?

Rydym yn llwyr gefnogi cyflwyno ardaloedd menter a'r manteision y gallant eu cynnig i economïau lleol. Fodd bynnag, rydym ni wedi ceisio, dro ar ôl tro, darganfod pa swyddi a busnesau newydd sy'n cael eu creu ac, yn bwysig, pa fuddsoddiad a wnaed yn yr ardaloedd menter yng Nghymru. A fyddwch chi'n gosod targedau allweddol y gallwn ni eu defnyddio i feincnodi llwyddiant ardaloedd menter ac, os yw'r ffigurau hynny'n bodoli eisoes, a wnewch chi sicrhau eu bod ar gael yr wythnos hon?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

What we will not do is set targets that cannot be met, which is what has happened in England, of course, where targets are being reformed downwards. His colleague Alun Cairns said in the last few weeks that those targets were challenging, which, as we know in politics, means 'We cannot reach them'. As far as we are concerned, we are encouraged by the fact that A&E waiting times have decreased and that ambulance response times have increased, while understanding, of course, that there is some way to go yet in meeting our targets.

Yr hyn na fyddwn yn ei wneud yw gosod targedau na ellir eu cyrraedd, sef yr hyn sydd wedi digwydd yn Lloegr, wrth gwrs, lle mae targedau yn cael eu diwygio tuag at i lawr. Dywedodd ei gydweithiwr Alun Cairns yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf fod y targedau hynny yn heriol, sydd, fel y gwyddom ym myd gwleidyddiaeth, yn golygu 'Ni allwn eu cyrraedd'. Cyn belled ag yr ydym ni yn y cwestiwn, mae'r ffaith fod amseroedd aros damweiniau ac achosion brys wedi gostwng a bod amseroedd ymateb ambiwlansys wedi cynyddu yn ein calonogi, gan ddeall, wrth gwrs, bod llawer o waith i'w wneud o hyd i gyrraedd ein targedau.

As far as the Welsh enterprise zones are concerned, jobs have been created in Anglesey and in the Cardiff enterprise zone. There are jobs in the pipeline in Ebbw Vale and Deeside. The enterprise zones are working very well. He will have seen only this week the announcement that was made by Cardiff Aviation Ltd with regard to St Athan.

Cyn belled ag y mae ardaloedd menter Cymru yn y cwestiwn, mae swyddi wedi eu creu ar Ynys Môn ac yn ardal fenter Caerdydd. Mae swyddi ar y gweill yng Nglyn Ebwy a Glannau Dyfrdwy. Mae'r ardaloedd menter yn gweithio'n dda iawn. Bydd wedi gweld dim ond yr wythnos hon y cyhoeddiad a wnaed gan Cardiff Aviation Cyf am Sain Tathan.

13:46 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome that jobs are being created, but I, as a Member, the public and the business community cannot find out how many jobs are being created. If I want to know about the situation in England, for example, I can find out that 3,000 jobs have been created, that £2,229 million of extra private sector investment has been created and that 126 new businesses have been created in enterprise zones. I am saying, from this side of the Chamber, that we support the introduction of enterprise zones—they can be a force for good—but all that we have seen so far, if you take the Cardiff enterprise zone as an example, is the Welsh Government buying up office space; in effect, it is nationalising the office space market in Cardiff. I note that you went through your file but did not come up with any specific examples. I ask you again: will you be bringing forward key targets that civil servants and the business community working in those enterprise zones know that we can use to benchmark whether they have been a success or not, in the same way that we can benchmark the failure in the Welsh NHS with the targets that you have not met?

Rwy'n croesawu'r ffaith fod swyddi'n cael eu creu, ond nid wyf fi, fel Aelod, y cyhoedd na'r gymuned fusnes yn gallu darganfod faint o swyddi sy'n cael eu creu. Os ydw i eisiau gwybod am y sefyllfa yn Lloegr, er enghraifft, gallaf ddarganfod bod 3,000 o swyddi wedi eu creu, bod £2,229 miliwn o fuddsoddiad sector preifat ychwanegol wedi ei greu a bod 126 o fusnesau newydd wedi eu creu mewn ardaloedd menter. Rwy'n dweud, o'r ochr hon i'r Siambr, ein bod yn cefnogi cyflwyno ardaloedd menter—gallant fod yn rym er daioni—ond y cwbl rydym ni wedi ei weld hyd yn hyn, os cymerwch chi ardal fenter Caerdydd fel enghraifft, yw Llywodraeth Cymru yn prynu gofod swyddfa; mae'n gwladoli'r farchnad gofod swyddfa yng Nghaerdydd i bob pwrpas. Sylwais arnoch yn mynd drwy eich ffeil ond ni ddaethoch o hyd i unrhyw enghreifftiau penodol. Gofynnaf i chi eto: a fyddwch chi'n cyflwyno targedau allweddol y bydd gweision sifil a'r gymuned fusnes sy'n gweithio yn yr ardaloedd menter hynny yn gwybod y gallwn eu defnyddio i feincnodi a ydynt wedi bod yn llwyddiannus ai peidio, yn yr un modd ag y gallwn feincnodi'r methiant yn y GIG yng Nghymru gyda'r targedau nad ydych chi wedi eu cyflawni?

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

He mentioned Cardiff, so I can go through a list of what is happening in Cardiff. We know that there was the recent announcement by Serco of 450 jobs. There are now 10 job creation inquiries in the pipeline. There is interest in the city centre and in the enterprise zone locations. We have seen the acquisition of Callaghan Square, which is complete. That was done in order to provide the right level of office support for private enterprise. I see nothing wrong with that. That is Government ensuring that facilities are available for the private sector. We have the acquisition of the building and construction of the Capital Quarter, which will bring forward grade A office space that is desperately needed for business in the city centre. That building is due to be completed by 2014. We have the creation of more than 200 jobs across south Wales by Admiral Group plc, including at its offices in the enterprise zone. We have the report and recommendations of the south-east Wales integrated taskforce—[Interruption.] There is no point shouting me down; you wanted a list of things, so you will get it. That taskforce indicated the profit implications for the Cardiff central enterprise zone. [Interruption.]

Soniodd am Gaerdydd, felly gallaf fynd drwy restr o'r hyn sy'n digwydd yng Nghaerdydd. Rydym yn gwybod y cafwyd y cyhoeddiad diweddar o 450 o swyddi gan Serco. Mae 10 o ymholiadau i greu swyddi yn yr arfaeth erbyn hyn. Ceir diddordeb yng nghanol y ddinas ac yn lleoliadau'r ardal fenter. Rydym ni wedi gweld caffael Sgwâr Callaghan, sydd wedi ei gwblhau. Gwnaed hynny er mwyn darparu'r lefel gywir o gymorth swyddfa i fentrau preifat. Nid wyf yn gweld dim byd o'i le â hynny. Llywodraeth yn sicrhau bod cyfleusterau ar gael ar gyfer y sector preifat yw hynny. Mae gennym gaffaeliad adeilad ac adeiladwaith y Capital Quarter, a fydd yn cyflwyno gofod swyddfa o'r radd flaenaf y mae wir ei angen ar gyfer busnes yng nghanol y ddinas. Disgwylir i'r adeilad hwnnw gael ei gwblhau erbyn 2014. Mae gennym fwy na 200 o swyddi yn cael eu creu ledled de Cymru gan Admiral Group ccc, gan gynnwys yn ei swyddfeydd yn yr ardal fenter. Mae gennym adroddiad ac argymhellion tasglu integredig de-ddwyrain Cymru—[Torri ar draws.] Nid oes pwynt torri ar fy nhraws; roeddech chi eisiau rhestr o bethau, felly dyna gewch chi. Nododd y tasglu hwnnw'r goblygiadau elw i ardal fenter canol Caerdydd. [Torri ar draws.]

Senedd.tv
Fideo Video

13:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order.

Trefn.

Senedd.tv
Fideo Video

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Cardiff and Vale College has unveiled plans to build a new £45 million campus in the zone. Further sites are being assessed to ensure that the potential of investment in the zone is maximised. That, I think, is enough for now.

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi cyhoeddi cynlluniau i adeiladu campws newydd gwerth £45 miliwn yn yr ardal. Mae rhagor o safleoedd yn cael eu hasesu i sicrhau y gwneir cymaint â phosibl o'r potensial o ran buddsoddiad yn yr ardal fenter. Dyna ddigon am y tro, rwy'n credu.

Senedd.tv
Fideo Video

13:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Senedd.tv
Fideo Video

13:48 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you Presiding Officer, and thank you for your kind comments and for the messages that I received over the weekend from colleagues in the Chamber. May I take this opportunity to thank Ieuan Wyn Jones for the personal kindness and courtesy that he has always shown to me while we have served here as Assembly Members? He has been a true and faithful servant to his party and to the people of Anglesey. I wish him well in his future endeavours.

Diolch Lywydd, a diolch i chi am eich sylwadau caredig ac am y negeseuon a dderbyniais dros y penwythnos gan gydweithwyr yn y Siambr. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Ieuan Wyn Jones am y caredigrwydd a'r cwrteisi personol y mae bob amser wedi ei ddangos i mi tra buom yn gwasanaethu yma fel Aelodau Cynulliad? Mae wedi bod yn weithiwr teyrngar a ffyddlon i'w blaid ac i bobl Ynys Môn. Dymunaf yn dda iddo yn ei ymdrechion yn y dyfodol.

First Minister, Governments in Scotland, England and Northern Ireland all have specific schemes to support farmers operating in hills and upland areas. Why is Wales the only home nation where no such support is available?

Brif Weinidog, mae gan Lywodraethau yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon i gyd gynlluniau penodol i gefnogi ffermwyr sy'n gweithredu ar y bryniau ac mewn ardaloedd ucheldir. Pam mai Cymru yw'r unig wlad gartref lle nad oes cymorth o'r fath ar gael?

Senedd.tv
Fideo Video

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We believe that we have in place a package of support for farmers amounting to £350 million a year that is very attractive. I know that farmers would not swap their position in Wales to move to England in that regard. It is also the case that we have, for many years, paid farmers their money as quickly as possible, which is in stark contrast to elsewhere in the UK.

Rydym ni'n credu ein bod wedi sefydlu pecyn cymorth i ffermwyr sy'n dod i gyfanswm o £350 miliwn y flwyddyn ac mae hynny'n ddeniadol iawn. Rwy'n gwybod na fyddai ffermwyr yn cyfnewid eu sefyllfa yng Nghymru i symud i Loegr yn hynny o beth. Mae hefyd yn wir ein bod, ers blynyddoedd lawer, wedi talu eu harian i ffermwyr cyn gynted â phosibl, sydd mewn gwrthgyferbyniad llwyr â mannau eraill yn y DU.

13:49 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, last week, you said that the Department for Envrionment, Food and Rural Affairs did not care about English hill farmers. You said that it only cared about large arable farms. Why then does DEFRA think that English upland farmers deserve extra support, while you have decided to put Welsh farmers at a competitive disadvantage to the rest of the EU?

Brif Weinidog, nodwyd gennych yr wythnos diwethaf nad oedd ots gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig am ffermwyr mynydd Lloegr. Dywedasoch mai dim ond am ffermydd âr mawr y maent yn poeni amdanynt. Pam felly mae DEFRA o'r farn bod ffermwyr ucheldir Lloegr yn haeddu cymorth ychwanegol, tra eich bod chi wedi penderfynu rhoi ffermwyr Cymru dan anfantais gystadleuol o'i chymharu â gweddill yr UE?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I do not believe that Welsh farmers are at a competitive disadvantage at all in terms of the support that we provide. Welsh farming has, for many years, enjoyed a very high level of support from Government—whether through subsidy or from the Government in terms of promoting Welsh produce. I remind the leader of the Welsh Liberal Democrats that we were the first country to be able to ensure that Welsh lamb arrived in Dubai. No other country in Europe managed to do that. It is simply a question of being proactive, at a time when other Governments in the UK were not being as proactive as they might have been.

Nid wyf yn credu bod ffermwyr Cymru dan anfantais gystadleuol o gwbl o ran y cymorth rydym ni'n ei ddarparu. Mae ffermio Cymru wedi mwynhau, ers blynyddoedd lawer, lefel uchel iawn o gymorth gan y Llywodraeth—boed hynny trwy gymhorthdal neu gan y Llywodraeth o ran hyrwyddo cynnyrch o Gymru. Hoffwn atgoffa arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru mai ni oedd y wlad gyntaf i allu sicrhau bod cig oen Cymru yn cyrraedd Dubai. Ni lwyddodd unrhyw wlad arall yn Ewrop i wneud hynny. Mae'n gwestiwn syml o fod yn rhagweithiol, ar adeg pan nad oedd Llywodraethau eraill yn y DU yn bod mor rhagweithiol ag y gallent.

13:50 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Proactive—really? Your food strategy was published in 2010. It is now 2013 and you still have not decided what your delivery plan is. The Minister confirmed that last week and it says so on your Government's website. You blamed the weather for your Government's poor performance in providing healthcare to people in Wales, and for your ability to promote tourism. Farming is one area that is really affected by the severe weather. There is no reason at all why a scheme to support hill farmers cannot be implemented in Wales. Will you commit today, First Minister, to implementing a scheme to support a stronger rural economy and end Wales's unenviable position as the only nation in the United Kingdom not to support hill and upland farmers?

Rhagweithiol—yn wir? Cyhoeddwyd eich strategaeth fwyd yn 2010. Mae hi bellach yn 2013 ac nid ydych eto wedi penderfynu beth yw eich cynllun cyflawni. Cadarnhaodd y Gweinidog hynny yr wythnos diwethaf ac mae'n dweud hynny ar wefan eich Llywodraeth. Rhoddwyd y bai ar y tywydd gennych am berfformiad gwael eich Llywodraeth o ran darparu gofal iechyd i bobl yng Nghymru, ac am eich gallu i hyrwyddo twristiaeth. Mae ffermio yn un maes sydd wir yn cael ei effeithio gan y tywydd garw. Nid oes unrhyw reswm o gwbl pam na ellir rhoi cynllun i gynorthwyo ffermwyr mynydd ar waith yng Nghymru. A wnewch chi ymrwymo heddiw, Brif Weinidog, i sefydlu cynllun i gynorthwyo economi wledig gryfach ac i roi terfyn ar y sefyllfa annymunol i Gymru o fod yr unig wlad yn y Deyrnas Unedig nad yw'n cynorthwyo ffermwyr mynydd ac ucheldir?

13:51 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I do not accept that we do not support hill and upland farmers. I remind the leader of the Liberal Democrats that the one year in which farmers did not receive their payments and suffered real hardship was the year when there was a Liberal Democrat Minister in charge of farming in Wales. Whenever there was a Labour Minister in charge—or, indeed, a Plaid Cymru Minister—those farmers were paid on time. However, when the Liberal Democrats had their hands on the levers of payment, they did not pay farmers in plenty of time. Therefore, the evidence is there to show that successive Governments, with Labour Ministers or, indeed, Plaid Cymru Ministers, have delivered for Welsh farmers in a way that I am afraid the track record of the Liberal Democrats suggests the Liberal Democrats have not.

Nid wyf yn derbyn nad ydym yn cefnogi ffermwyr mynydd ac ucheldir. Hoffwn atgoffa arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol mai'r un flwyddyn na dderbyniodd ffermwyr eu taliadau gan ddioddef caledi go iawn oedd y flwyddyn pan oedd Gweinidog y Democratiaid Rhyddfrydol yn gyfrifol am ffermio yng Nghymru. Pryd bynnag yr oedd Gweinidog Llafur yn gyfrifol—neu Weinidog Plaid Cymru, o ran hynny—cafodd y ffermwyr hynny eu talu ar amser. Fodd bynnag, pan roedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn gyfrifol am y taliadau, ni wnaethant dalu ffermwyr mewn da bryd. Felly, mae'r dystiolaeth ar gael i ddangos bod Llywodraethau olynol, â Gweinidogion Llafur neu, yn wir, Gweinidogion Plaid Cymru, wedi cyflawni ar ran ffermwyr Cymru mewn modd, o ystyried eu hanes, rwy'n ofni nad yw'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi llwyddo i'w wneud

13:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

We now move back to the questions on the agenda.

Rydym yn symud yn ôl nawr at y cwestiynau ar yr agenda.

## Amseroedd Aros ar gyfer Triniaeth mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys

## Waiting Times for Treatment in Accident and Emergency Departments

13:52 **Peter Black** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr amseroedd aros ar gyfer triniaeth mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys? OAQ(4)1123(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on waiting times for treatment in Accident & Emergency departments? OAQ(4)1123(FM)*

13:52 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I am encouraged to see the improvement in performance that has taken place recently. We have seen an improvement of some 5.4% in the number of people waiting less than four hours at A&E. That shows that things are moving in the right direction, although we accept, of course, that there is some way to go yet.

Mae'n galonogol gweld y gwelliant i berfformiad sydd wedi digwydd yn ddiweddar. Rydym ni wedi gweld gwelliant o tua 5.4% o ran nifer y bobl sy'n aros llai na phedair awr mewn adrannau damweiniau ac achosion bryd. Mae hynny'n dangos bod pethau yn symud i'r cyfeiriad cywir, er ein bod yn derbyn, wrth gwrs, bod llawer iawn i'w wneud eto.

13:52 **Peter Black** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you for that answer, First Minister. At the various meetings in relation to the south Wales programme, a number of concerns have been raised about ambulance waiting times, which are, of course, directly related to waiting times at accident and emergency departments—that has been admitted by the people on the panels. Given the way in which accident and emergency departments are being changed and the reliance on the ambulance service in relation to that programme, are you confident that, if those proposals are brought forward—I am not asking you to say 'yes' or 'no' on that—accident and emergency departments around south Wales will be able to cope with the extra demands put on them?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Yn y cyfarfodydd amrywiol yn ymwneud â rhaglen de Cymru, codwyd nifer o bryderon am amseroedd aros ambiwlansys, sydd, wrth gwrs, yn gysylltiedig yn uniongyrchol ag amseroedd aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys—cyfaddefwyd hynny gan y bobl ar y paneli. O ystyried y ffordd mae adrannau damweiniau ac achosion brys yn cael eu newid a'r ddibyniaeth ar y gwasanaeth ambiwlans o ran y rhaglen honno, a ydych chi'n hyderus, os caiff y cynigion hynny eu cyflwyno—nid wyf yn gofyn i chi i ddweud 'ydw' neu 'nac ydw' i hynny—y bydd adrannau damweiniau ac achosion brys ledled de Cymru yn gallu ymdopi â'r gofynion ychwanegol a osodir arnynt?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is self-evident that that should be the case. I do not want to coment on the actual proposals as they are a matter, still, for consultation and, ultimately, might be decided by the Minister for Health and Social Services, acting alone in that regard. However, clearly, with regard to any changes to the health service, there are a number of factors that need to be taken in to account, and ambulance responses will be one of them.

Mae'n amlwg mai dyna ddylai ddigwydd. Nid wyf eisiau cynnig sylwadau ar y cynigion eu hunain gan eu bod yn dal i fod yn destun ymgynghori ac, yn y pen draw, efallai y cânt eu penderfynu gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn gweithredu ar ei ben ei hun yn hynny o beth. Fodd bynnag, yn amlwg, o ran unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth iechyd, ceir nifer o ffactorau y mae angen eu cymryd i ystyriaeth, a bydd ymatebion ambiwlans yn un ohonynt.

13:53 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, do you recognise that one of the reasons that accident and emergency departments are finding it difficult to hit their targets—and let us bear in mind that they have been finding it difficult not just recently, but for the past four years in terms of the waiting time target that you have given of four hours—are your record-breaking cuts of over, according to the Research Service, £812 million by the end of the next financial year, which will make it even more difficult for those departments to hit your targets, which have not been met for four years?

Brif Weinidog, a ydych chi'n cydnabod mai un o'r rhesymau pam mae adrannau damweiniau ac achosion brys yn ei chael hi'n anodd cyrraedd eu targedau—a gadewch i ni gadw mewn cof eu bod wedi bod yn ei chael hi'n anodd nid yn unig yn ddiweddar, ond ers y pedair blynedd diwethaf o ran y targed amseroedd aros o bedair awr yr ydych chi wedi ei bennu—yw eich toriadau uchaf erioed o fwy na £812 miliwn, yn ôl y Gwasanaeth Ymchwil, erbyn diwedd y flwyddyn ariannol nesaf, a fydd yn ei gwneud hyd yn oed yn anoddach i'r adrannau hynny gyrraedd eich targedau, nas cyrhaeddwyd ers pedair blynedd?

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There is another figure today. We went from £500 million before Whitsun, which apparently was wrong, to £800 million, which then was wrong, to £814 million, which today is wrong; now it is £812 million. Last week, Byron Davies, in my local paper, the 'Glamorgan Gazette' was saying that it was £534 million. How can we believe what the Conservatives are saying when they have just plucked these figures out of thin air? He wrote to the paper with that figure. He did not tell the rest of his party, clearly; that was the figure that he plucked out of thin air. The reality is that health spending in Wales is staying constant. The party opposite plucks these figures out of the air, but it never tells you where the money is coming from. It does not say that it would cut 20% of teachers, 20% of schools and see council tax going up by 12%. These are the things that it never wants to say to people. It always plucks these figures out of thin air but never justifies the figures. The Conservatives never tell the people of Wales how they will pay for it. That is why they will never be in Government. [Interruption.]

Dyma ffigur arall heddiw. Aethom ni o £500 miliwn cyn y Sulgwyn, a oedd yn anghywir mae'n debyg, i £800 miliwn, a oedd wedyn yn anghywir, i £814 miliwn, sy'n anghywir heddiw; mae'n £812 miliwn bellach. Yr wythnos diwethaf, roedd Byron Davies yn dweud, yn fy mhapur lleol, y 'Glamorgan Gazette', mai £534 miliwn oedd y ffigur. Sut allwn ni gredu'r hyn y mae'r Ceidwadwyr yn ei ddweud pan maen nhw wedi tynnu'r ffigurau hyn o'r awyr? Ysgrifennodd at y papur â'r ffigur hwnnw. Ni ddywedodd hynny wrth weddill ei blaid, yn amlwg; dyna'r ffigur a dynnwyd ganddo o'r awyr. Y gwir amdani yw bod gwariant ar iechyd yng Nghymru yn aros yn gyson. Mae'r blaid gyferbyn yn tynnu'r ffigurau hyn o'r awyr, ond nid ydynt byth yn dweud wrthych o ble mae'r arian yn mynd i ddod. Nid ydynt yn dweud y byddent yn torri 20% o athrawon, 20% o ysgolion ac yn cynyddu'r dreth gyngor o 12%. Dyma'r pethau nad ydynt byth eisiau eu dweud wrth bobl. Maent yn tynnu'r ffigurau hyn o'r awyr bob amser ond byth yn cyfiawnhau'r ffigurau. Nid yw'r Ceidwadwyr byth yn dweud wrth bobl Cymru sut y byddant yn talu amdano. Dyna pam na fyddant byth mewn Llywodraeth. [Torri ar draws.]

13:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I hope that Members were able to hear the First Minister's reply. I found it a little difficult.

Rwy'n gobeithio bod yr Aelodau wedi gallu clywed ateb y Prif Weinidog. Roeddwn i'n ei chael hi braidd yn anodd.

13:55 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, y llynedd cymerodd 11,000 o alwadau brys 999 dros ddwywaith yr amser targed i'w hateb—cymerodd 11,000 o alwadau fwy nag 20 munud i ambiwlansys gyrraedd. Gyda niferoedd mor uchel, a ydych yn meddwl ei bod yn bosibl i'r gwasanaeth ambiwlans wella ei berfformiad drwy newidiadau strwythurol neu newidiadau yn y targedau hyd yn oed, ynteu a yw'n bryd i'r Llywodraeth edrych ar gynyddu buddsoddiad yn y gwasanaeth ambiwlans a chynyddu buddsoddiad yn benodol iawn yn nifer y parafeddygon yng Nghymru?

First Minister, last year, 11,000 999 emergency calls took more than twice the target time to answer—ambulances took more than 20 minutes to reply to 11,000 calls. Given that the numbers are so high, do you think that it is possible for the ambulance service to improve its performance through structural changes or even changes in the targets, or is it time for the Government to look at investing more in the ambulance service, specifically by increasing investment in the number or paramedics in Wales?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae hynny'n rhywbeth sy'n cael ei ystyried gan y Gweinidog. Bydd yr Aelod yn gwybod am adroddiad McClelland, ac mae'r Gweinidog wedi gwneud datganiad ynglŷn â hwnnw. Rydym yn deall bod yn rhaid gwella perfformiad y gwasanaeth ambiwlansys yng Nghymru. Mae hynny wedi digwydd yn y mis diwethaf. Yr her yn awr yw sicrhau bod hynny'n parhau yn y misoedd i ddod.

That is something that the Minister is considering. The Member will know of the McClelland report, on which the Minister has made a statement. We understand that the performance of the ambulance service in Wales must improve. That has happened in the last month. The challenge now is to ensure that that continues in the coming months.

### Lefelau Dechrau Adeiladu Tai

### Level of House Building Starts

13:56 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lefelau dechrau adeiladu tai yng Nghymru? OAQ(4)1124(FM)*

*4. Will the First Minister make a statement on the level of house building starts in Wales? OAQ(4)1124(FM)*

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

They were up 6% in the last financial year.

Fe wnaethant gynyddu 6% yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

13:56 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for the short answer, First Minister. In your programme for government, you are committed to increasing the number of houses built. However, according to the latest figures, the number of new dwellings started in 2011-12 was less than half that achieved in 2007-08. Does the First Minister accept the concern expressed by the industry that his Government is increasing the burden of regulation on the Welsh housing market by putting Wales at a competitive disadvantage compared with England?

Diolch i chi am yr ateb cryno, Brif Weinidog. Yn eich rhaglen ar gyfer llywodraethu, rydych chi wedi ymrwymo i gynyddu nifer y tai sy'n cael eu hadeiladu. Fodd bynnag, yn ôl y ffigurau diweddaraf, roedd nifer yr anheddau newydd a gychwynnwyd yn 2011-12 yn llai na hanner yr hyn a gyflawnwyd yn 2007-08. A yw'r Prif Weinidog yn derbyn y pryder a fynegwyd gan y diwydiant fod ei Lywodraeth yn cynyddu baich rheoleiddio ar farchnad tai Cymru trwy roi Cymru dan anfantais gystadleuol o'i chymharu â Lloegr?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First of all, it is not surprising that the number of starts is lower than it was in 2007-08, because that was before the crash. It is inevitable that the number is going to be lower—it is going to be the case everywhere in Europe, not just in Wales. He quotes figures from 2011-12, but let me give him some updated figures. In 2012-13, the total starts were 5,291, compared with 4,971 in the previous year. So, he is using out-of-date figures. If he is referring to the sprinkler legislation, I remind him that he voted for it. His party stood up in the Chamber and applauded the legislation. Nick Ramsay, if I remember, stood up and welcomed it profusely. He cannot have it both ways. You cannot argue on the basis of an unproven suggestion that the regulationary burden is more, when the main piece of evidence used to support that is evidence that his party supported. They cannot get away with that. They may try to pull the wool over people's eyes with figures on health, but I will remind them time and again that they rightly supported this legislation, and they cannot resile from it now.

Yn gyntaf oll, nid yw'n syndod bod nifer y tai y dechreuwyd eu hadeiladu yn is nag yr oedd yn 2007-08, gan fod hynny cyn yr argyfwng ariannol. Mae'n anochel y bydd y nifer yn is—mae hynny'n mynd i fod yn wir ym mhob man yn Ewrop, nid dim ond yng Nghymru. Mae'n dyfynnu ffigurau o 2011-12, ond gadewch i mi roi rhai ffigurau wedi'u diweddaru iddo. Yn 2012-13, 5,29 oedd cyfanswm y tai y dechreuwyd eu hadeiladu, o'i gymharu â 4,971 y flwyddyn cynt. Felly, mae'n defnyddio ffigurau nad ydynt yn gyfredol. Os yw'n cyfeirio at y ddeddfwriaeth systemau chwistrellu, rwy'n ei atgoffa ei fod wedi pleidleisio drosti. Safodd ei blaid i fyny yn y Siambr a chymeradwyo'r ddeddfwriaeth. Safodd Nick Ramsay, os wyf yn cofio, ar ei draed a'i chroesawu o waelod calon. Ni all ei chael hi bob ffordd. Ni allwch ddadlau ar sail awgrym nad yw wedi ei brofi bod y baich rheoleiddio yn fwy, pan mai'r prif ddarn o dystiolaeth a ddefnyddir i gefnogi hynny yw tystiolaeth a gefnogwyd gan ei blaid. Ni chânt wneud hynny. Efallai y byddant yn ceisio taflu llwch i lygaid pobl gyda ffigurau ar iechyd, ond byddaf yn eu hatgoffa dro ar ôl tro eu bod, yn gywir, wedi cefnogi'r ddeddfwriaeth hon, ac ni allant newid eu meddyliau nawr.

Senedd.tv Fideo Video

13:58 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

First Minister, you will be aware of the new high demand for one and two bedroomed properties following the introduction of the bedroom tax. How many properties does your Government estimate are needed, and how many does your Government plan to create through grant aid and other interventions?

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r galw mawr newydd am gartrefi un a dwy ystafell wely ar ôl cyflwyno'r dreth ystafell wely. Faint o gartrefi mae eich Llywodraeth yn amcangyfrif y bydd eu hangen, a faint mae eich Llywodraeth yn bwriadu eu creu trwy gymorth grant ac ymyriadau eraill?

Senedd.tv Fideo Video

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

As a rough estimate, it will be somewhere along the lines of 20,000 to 25,000 across Wales. That is based on evidence that I know of in Bridgend. That cannot be done overnight. This is not a situation of our own creation—this is a situation created by the UK Government. Nevertheless, the challenge in the future will be to ensure that there are sufficient properties of that size being built. We have ensured that 2,489 social houses are being built in Wales in the lifetime of this Government, but I am afraid that there cannot be a sudden way of coping with the demand that has been imposed on the people of Wales by the UK Government.

Fel amcangyfrif bras, bydd rhywle rhwng tua 20,000 a 25,000 ledled Cymru. Mae hynny'n seiliedig ar dystiolaeth y gwn i amdani ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Ni ellir gwneud hynny dros nos. Nid yw hon yn sefyllfa a grëwyd gennym ni ein hunain—sefyllfa a grëwyd gan Lywodraeth y DU yw hon. Serch hynny, yr her yn y dyfodol fydd sicrhau bod digon o gartrefi o'r maint yna'n cael eu hadeiladu. Rydym ni wedi sicrhau bod 2,489 o dai cymdeithasol yn cael eu hadeiladu yng Nghymru yn ystod oes y Llywodraeth hon, ond mae arnaf ofn nad oes modd cyflym o ymdopi â'r galw sydd wedi ei orfodi ar bobl Cymru gan Lywodraeth y DU.

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

First Minister, I am sure that you will agree that it is important for communities in rural Wales that housing developments are organic in nature, and that smaller developments are more appropriate in smaller communities. While those smaller developments can help young people to stay in their local communities, the high cost of introducing infrastructure such as utilities to those developments can mean that they are not cost-effective. A cost of £100,000 for a development of a dozen houses is pushing the price beyond the reach of the young people that we want to help. Will your Government look at ways in which we can help to tackle those infrastructure costs, so that smaller developers and smaller developments can go ahead?

Brif Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno ei bod yn bwysig i gymunedau yng nghefn gwlad Cymru bod datblygiadau tai yn organig eu natur, a bod datblygiadau llai yn fwy priodol mewn cymunedau llai. Er y gall y datblygiadau llai hynny helpu pobl ifanc i aros yn eu cymunedau lleol, gall y gost uchel o gyflwyno seilwaith fel cyfleustodau i'r datblygiadau hynny olygu nad ydynt yn gost-effeithiol. Mae cost o £100,000 am ddatblygiad o ddwsin o dai yn gwthio'r pris y tu hwnt i gyrraedd y bobl ifanc yr ydym ni eisiau eu helpu. A wnaiff eich Llywodraeth ystyried ffyrdd y gallwn eu defnyddio i helpu i fynd i'r afael â'r costau seilwaith hynny, fel y gall datblygwyr llai a datblygiadau llai fynd yn eu blaenau?

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There are ways of doing that indirectly. We are still looking at NewBuy Cymru and ways to help young people to buy houses in that way. We are also looking at how stamp duty could be used in the future to encourage more building and to encourage young people. We await the devolution of stamp duty by the UK Government, as recommended by the Silk commission. We have said to the construction industry that we want to use stamp duty constructively—if you pardon the pun—in order to help the industry to provide more houses for people and more opportunities for young people to get on the housing ladder.

Ceir ffyrdd o wneud hynny yn anuniongyrchol. Rydym ni'n dal i edrych ar NewBuy Cymru a ffyrdd o helpu pobl ifanc i brynu tai yn y ffordd honno. Rydym ni hefyd yn ystyried sut y gellid defnyddio treth stamp yn y dyfodol i annog mwy o adeiladu ac i annog pobl ifanc. Rydym yn aros i dreth stamp gael ei datganoli gan Lywodraeth y DU, fel yr argymhellwyd gan gomisiwn Silk. Rydym ni wedi dweud wrth y diwydiant adeiladu ein bod eisiau defnyddio treth stamp yn adeiladol—os gwnewch chi faddau'r mwysair—er mwyn helpu'r diwydiant i ddarparu mwy o dai i bobl a mwy o gyfleoedd i bobl ifanc ymuno â'r ysgol dai.

Senedd.tv Fideo Video

### Awtistiaeth

### Autism

14:00 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi pobl gydag awtistiaeth yng Nghymru? OAQ(4)1127(FM)*

*5. Will the First Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to support people with autism in Wales? OAQ(4)1127(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rydym yn parhau i ariannu prosiectau sy'n helpu i wella bywydau pobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd. Ar hyn o bryd rydym yn llunio cynllun gweithredu anhwylderau'r sbectrwm awtistig sy'n cymryd safbwyntiau rhanddeiliaid i ystyriaeth. Bydd hwnnw mas ar gyfer ymgynghoriad yn nes ymlaen y flwyddyn hon.

We are continuing to fund projects that are helping to improve the lives of people with autism and their families. We are presently drawing up a revised autism spectrum disorder action plan, which takes into account the views of stakeholders. That will go out to consultation later this year.

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Rwy'n ddiolchgar i'r Prif Weinidog am yr ymateb hwnnw. Efallai y byddwch yn ymwybodol fod ymgyrchwyr wedi bod y tu allan i'r Senedd heddiw, yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i fynd i'r afael â'r ffaith bod rhai plant yn fy etholaeth yn gorfod aros hyd at saith mlynedd ar gyfer diagnosis o awtistiaeth. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod aros saith mlynedd yn gwbl annerbyniol. Brif Weinidog, mae eich Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i gwneud yn hollol glir bod ymyrraeth gynnar yn hanfodol o ran datblygiad addysgol a chymdeithasol plant. Felly, a allwch chi gadarnhau heddiw y bydd y Llywodraeth yn gwneud yn siŵr bod pob bwrdd iechyd yng Nghymru yn cydymffurfio â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal ac na fydd y sefyllfa annerbyniol hon o aros blynyddoedd am ddiagnosis yn parhau?

I am grateful to the First Minister for that response. You might be aware that there have been campaigners outside the Senedd today, calling on the Welsh Government to do more to deal with the fact that some children in my constituency have to wait up to seven years for an autism diagnosis. I am sure that you will agree that waiting seven years is completely unacceptable. First Minister, your Deputy Minister for Social Services has made it clear that early intervention is vital in terms of children's educational and social development. Therefore, can you confirm today that the Government will ensure that all health boards in Wales comply with the guidance of the National Institute for Health and Care Excellence and that this unacceptable situation of people having to wait years for a diagnosis will cease?

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae saith mlynedd yn rhy hir—gallaf ddweud hynny. Ar hyn o bryd, nid yw Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn meddwl taw saith mlynedd yw'r amser aros. Gwnaf ysgrifennu at yr Aelod er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth ynghylch y sefyllfa ar hyn o bryd. Rydym yn erfyn bod pobl yn gallu cael diagnosis o awtistiaeth cyn gynted ag sy'n bosibl—nid yw'n rhwydd i wneud hynny, wrth gwrs—er mwyn bod cefnogaeth ar gael i'r teuluoedd o fewn amser priodol.

Seven years is too long—I can tell you that. At present, Hywel Dda Local Health Board does not think that the waiting time is seven years. I will write to the Member in order to secure an understanding of the current position. We want people to be able to get an autism diagnosis as soon as is possible—that is not easy, of course—so that support is available for the families in a timely fashion.

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Would the First Minister agree that adults with Asperger's syndrome have great difficulty in accessing welfare benefits because of their communication problems, and that it is particularly difficult in the present climate because of the difficulty of getting advocates to work with them to get those benefits?

A yw'r Prif Weinidog yn cytuno bod oedolion â syndrom Asperger yn cael llawer o drafferth i gael gafael ar fudd-daliadau lles oherwydd eu problemau cyfathrebu, a'i bod yn arbennig o anodd yn yr hinsawdd bresennol oherwydd yr anhawster o gael eiriolwyr i weithio gyda nhw i gael y budd-daliadau hynny?

Senedd.tv Fideo Video

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, I would. Asperger's sits at one end of the autistic spectrum, but nevertheless experience teaches that it is particularly difficult for many people with Asperger's to be able to interrelate with others and to explain their position to get themselves justice. That is why it is important that there are advice and advocacy services available to them and that is why we have made commitments over the years to making sure that that level of advice is available at an appropriate level.

Ydw, mi ydwyf. Mae syndrom Asperger ar un pen i'r sbectrwm awtistig, ond, serch hynny, mae profiad yn dangos ei bod yn arbennig o anodd i lawer o bobl â syndrom Asperger allu cynnal cydberthynas ag eraill ac egluro eu sefyllfa i gael cyfiawnder iddynt eu hunain. Dyna pam mae'n bwysig bod gwasanaethau cyngor ac eiriolaeth ar gael iddyn nhw a dyna pam yr ydym ni wedi gwneud ymrwymiadau dros y blynyddoedd i wneud yn siŵr bod y lefel honno o gyngor ar gael ar lefel briodol.

Senedd.tv Fideo Video

14:03 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Rwyf am droi nôl at y sefyllfa yn sir Benfro, fel yr amlinellodd Paul Davies. Roedd un plentyn y tu fas i'r Senedd heddiw yn dweud ei fod wedi aros am chwe blynedd am ddiagnosis o awtistiaeth. Felly, mae'n digwydd yn fwy aml yn y rhan honno o'r wlad, yn anffodus. Un o'r pethau mwy positif rwyf wedi'i glywed, drwy lythyru gyda'r cyngor sir ynglŷn â hyn, yw bod y cyngor wedi cydnabod bod modd rhoi rhyw fath o gymorth yn ei le cyn bod diagnosis terfynol. Mae'n cydnabod hynny oherwydd mae ymyrraeth gynnar, fel y dywedodd Paul Davies, yn hollbwysig. A allwch edrych ar hynny ar lefel Cymru gyfan, fel bod canllawiau cenedlaethol ynglŷn â sut mae'r fath honno o ymyrraeth yn cael ei gwneud yn ein system addysg ni?

I will return to the issue of the situation in Pembrokeshire, as outlined by Paul Davies. One child outside the Senedd today said that he had had to wait six years for an autism diagnosis. Therefore, it happens more often in that part of the country, unfortunately. One of the more positive things that I have heard, from correspondence with the county council, is that the council has acknowledged that it is possible to put some support in place before a final diagnosis is made. It acknowledges that because, as Paul Davies said, early intervention is vital. Can you look at that on an all-Wales basis, so that there is national guidance on how such intervention is done in our education system?

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wrth gwrs, mae'n bwysig dros ben bod lefel deg o ymyrraeth a chefnogaeth ar gael i deuluoedd dros Gymru. Pan fyddaf yn ysgrifennu at Paul Davies, byddaf yn gwneud yn siŵr bod y mater hwn yn rhan o'r llythyr a byddaf yn eich copïo chi mewn fel Aelod hefyd.

Of course, it is exceptionally important that a fair level of intervention and support is available for families across Wales. When I write to Paul Davies, I will ensure that this issue is covered and I will copy you in, as a Member.

Senedd.tv Fideo Video

## Amseroedd Aros i Gleifion Canser

## Cancer Waiting Times

14:04 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

*6. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a yw Uned Gyflawni'r Prif Weinidog yn adolygu'r cynnydd a fu o ran cyflawni yng nghyswllt amseroedd aros i gleifion canser? OAQ(4)1130(FM)*

*6. Will the First Minister provide an update as to whether the First Minister's Delivery Unit is reviewing progress on the delivery of cancer waiting times? OAQ(4)1130(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The delivery unit works alongside departments to monitor the progress of all Government priorities. Ensuring that cancer patients are seen within the target times is one of our key commitments.

Mae'r uned gyflawni yn gweithio ochr yn ochr ag adrannau i fonitro cynnydd holl flaenoriaethau'r Llywodraeth. Mae sicrhau bod cleifion canser yn cael eu gweld o fewn yr amserau targed yn un o'n hymrwymiadau allweddol.

Senedd.tv Fideo Video

14:05 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, in January, I asked you about the cancer waiting times and you gave me a very brief answer here in the Assembly—an annoying question from, no doubt, an annoying Assembly Member—in which you said that you anticipated that the waiting times would be met by March. Of course, they have not been met; they have been more than unmet. Your Minister for health has now gone on to say that he would hope that people waiting for a diagnosis of cancer, or being looked at for cancer, would see a consultant within 10 days, which would help to speed up the meeting of these important targets. We are talking about people whose lives have been utterly blighted by our inability to deliver cancer services on time.

Brif Weinidog, ym mis Ionawr, gofynnais i chi am yr amseroedd aros canser a chefais ateb cryno iawn gennych yma yn y Cynulliad—cwestiwn plagus gan, heb amheuaeth, Aelod Cynulliad plagus—pan nodwyd gennych eich bod yn rhagweld y byddai'r targedau amseroedd aros yn cael eu cyrraedd erbyn mis Mawrth. Nid ydynt wedi eu cyrraedd, wrth gwrs; maen nhw wedi bod ymhell iawn o'r targed. Mae eich Gweinidog iechyd wedi mynd yn ei flaen erbyn hyn i ddweud ei fod yn gobeithio y byddai pobl sy'n aros am ddiagnosis o ganser, neu'n cael eu harchwilio ar gyfer canser, yn gweld ymgynghorydd o fewn 10 diwrnod, a fyddai'n helpu i gyflymu'r broses o gyrraedd y targedau pwysig hyn. Rydym ni'n sôn am bobl y mae eu bywydau wedi eu difetha'n llwyr gan ein hanallu i ddarparu gwasanaethau canser ar amser.

Rather than give me the glib answer, I would very much like it if your delivery unit would look at how we can bring the local health boards to heel and get the waiting times target, to which your Government and your manifesto cleave, delivered on time for the sake of all of us who have constituents who have been waiting for too long, tragically, for diagnoses that, in the end, do not end up helping them.

Yn hytrach na rhoi'r ateb llithrig i mi, byddwn yn hapus iawn pe gallai eich uned gyflawni ystyried sut y gallwn sicrhau bod y byrddau iechyd lleol yn cydymffurfio sicrhau bod y targedau ar gyfer amseroedd aros, y mae eich Llywodraeth a'ch maniffesto yn ymroddedig iddynt, yn cael eu cyflawni ar amser, er lles pob un ohonom ni sydd ag etholwyr sydd wedi bod yn aros yn rhy hir, yn drasig, am ddiagnosis nad yw, yn y pen draw, yn eu helpu.

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The Member does herself a disservice when she describes herself as 'annoying', because the questions that she asks are always important and deserve an answer. The answer that I can give to her is, 'Yes, there needs to be more work done with cancer waiting times'. The Minister has made his position very clear and we understand that there is a need to make sure that targets are met. It has not been easy, given the financial situation that has been imposed on us by UK Government, and it has not been easy generally in the health service given the great pressures that have been experienced over the winter, but as the Minister for health has said, he is committed, as I am, to making sure that waiting times with regard to cancer improve. The delivery plans are now, in the main, in place and, also, the commitment has been made to key workers. These are all things that will assist people on their journeys in coping with cancer.

Mae'r Aelod yn gwneud cam â'i hun wrth ddisgrifio ei hun fel bod yn 'plagus', oherwydd mae'r cwestiynau y mae'n eu gofyn bob amser yn bwysig ac yn haeddu ateb. Yr ateb rwy'n gallu ei roi iddi yw, 'Oes, mae angen gwneud mwy o waith gydag amseroedd amser canser'. Mae'r Gweinidog wedi gwneud ei safbwynt yn eglur iawn ac rydym yn deall bod angen gwneud yn siŵr bod targedau yn cael eu cyrraedd. Nid yw wedi bod yn hawdd, o ystyried y sefyllfa ariannol a orfodwyd arnom ni gan Lywodraeth y DU, ac nid yw wedi bod yn hawdd yn gyffredinol yn y gwasanaeth iechyd o ystyried y pwysau mawr a welwyd dros y gaeaf, ond fel y mae'r Gweinidog iechyd wedi ei ddweud, mae wedi ymrwymo, fel yr wyf innau, i sicrhau bod amseroedd aros o ran canser yn gwella. Yn gyffredinol, mae'r cynlluniau cyflawni wedi'u sefydlu bellach ac, hefyd, gwnaed yr ymrwymiad i weithwyr allweddol. Mae'r rhain oll yn bethau a fydd yn helpu pobl ar eu taith i ymdopi â chanser.

14:07 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, in the debate last week, it was clear that the Minister for health was not satisfied with aspects of the cancer delivery plans published by LHBs, and he said that he would be attempting to ensure greater consistency and quality in the plans, and I believe him.

Brif Weinidog, yn y drafodaeth yr wythnos diwethaf, roedd yn amlwg nad oedd y Gweinidog iechyd yn fodlon ag agweddau ar y cynlluniau cyflawni canser a gyhoeddwyd gan BILlau, a dywedodd y byddai'n ceisio sicrhau mwy o gysondeb ac ansawdd yn y cynlluniau, ac rwy'n ei gredu.

We are all aware that performance on other aspects of the health service is variable between health boards, even if we account for the different demographics. Do you think that there is a need, therefore, for the Welsh Government to establish mechanisms to ensure that the performance of health boards is raised, and that the patient experience is consistent across Wales?

Rydym ni i gyd yn ymwybodol bod perfformiad o ran agweddau eraill ar y gwasanaeth iechyd yn amrywio rhwng byrddau iechyd, hyd yn oed os ydym yn cymryd y gwahanol ddemograffeg i ystyriaeth. A ydych chi'n credu bod angen, felly, i Lywodraeth Cymru sefydlu dulliau o sicrhau bod perfformiad y byrddau iechyd yn gwella, a bod profiad y claf yn gyson ledled Cymru?

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. That is why health boards have been tasked with producing recovery plans that indicate that improvements will be made over the summer, the 31-day target will be met across Wales from this month, and the 62-day target will be achieved from October. Officials are currently scrutinising those plans and will provide an assessment of the position after the chief executives' meeting on 18 June—today, in fact. That is how we as a Government ensure that LHBs, when tasked with plans, are held to those plans.

Ydw. Dyna pam mae byrddau iechyd wedi cael y dasg o gynhyrchu cynlluniau adfer sy'n dangos y bydd gwelliannau'n cael eu gwneud dros yr haf, y bydd y targed 31 diwrnod yn cael ei gyrraedd ledled Cymru o'r mis yma ymlaen, ac y bydd y targed 62 diwrnod yn cael ei gyrraedd o fis Hydref ymlaen. Mae swyddogion wrthi'n craffu ar y cynlluniau hynny ar hyn o bryd a byddant yn rhoi asesiad o'r sefyllfa ar ôl cyfarfod y prif weithredwyr ar 18 Mehefin—heddiw, mewn gwirionedd. Dyna sut yr ydym ni fel Llywodraeth yn sicrhau bod BILlau, pan fo cynlluniau wedi eu gosod ar eu cyfer, yn cadw at y cynlluniau hynny.

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

First Minister, one of the ways in which we could improve cancer services for my constituents would be to allow more people to have chemotherapy closer to their homes in our network of community hospitals, thereby taking pressure off some of the regional centres in treating Powys patients. Powys Teaching Local Health Board and I are very keen to see chemo sessions at Llandrindod Wells County War Memorial Hospital, but to do that we need capital investment from the Welsh Government. The Minister for health and the Minister for Finance have said that they would be happy to come to Llandrindod Wells to look at the exciting plans to develop services there. Perhaps you would like to join them so that we can get a decision on whether the bid for £5 million-worth of capital funding for Powys local health board for Llandrindod Wells hospital will be successful.

Brif Weinidog, un o'r ffyrdd y gallem ni wella gwasanaethau canser ar gyfer fy etholwyr fyddai caniatáu i fwy o bobl gael cemotherapi yn nes at eu cartrefi yn ein rhwydwaith o ysbytai cymunedol, gan leddfu'r pwysau ar rai o'r canolfannau rhanbarthol wrth drin cleifion Powys. Mae Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys a minnau yn awyddus iawn i weld sesiynau cemotherapi yn Ysbyty Coffa Rhyfel Sirol Llandrindod, ond mae angen buddsoddiad cyfalaf arnom gan Lywodraeth Cymru i wneud hynny. Mae'r Gweinidog iechyd a'r Gweinidog Cyllid wedi dweud y byddent yn hapus i ddod i Landrindod i edrych ar y cynlluniau cyffrous i ddatblygu gwasanaethau yno. Efallai yr hoffech chi ymuno â nhw er mwyn i ni allu cael penderfyniad ynghylch a fydd y cais am werth £5 miliwn o gyllid cyfalaf i fwrdd iechyd lleol Powys ar gyfer Ysbyty Llandrindod yn llwyddiannus.

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I understand the point that the Member is making and if the Minister is looking to attend, that will be a matter for him to observe what is happening at Llandrindod. We have moved away, over the past 10 or 20 years, from a system of chemotherapy based at exceptionally large hospitals, when, for understandable reasons, it was felt that chemotherapy had to take place in a hospital where the expertise was available to cope with any issues that might arise from it. However, issues that arise from chemotherapy tend to arise further down the line, not when it is actually being administered. So, I am sure that the Minister for health will look with great interest at the proposals for Llandrindod.

Rwy'n deall y pwynt y mae'r Aelod yn ei wneud ac os yw'r Gweinidog yn bwriadu dod, bydd hynny'n fater iddo ef arsylwi'r hyn sy'n digwydd yn Llandrindod. Rydym ni wedi symud i ffwrdd, dros y 10 neu 20 mlynedd diwethaf, o system o leoli cemotherapi mewn ysbytai eithriadol o fawr, pryd y teimlwyd, am resymau dealladwy, bod yn rhaid i gemotherapi gael ei ddarparu mewn ysbyty lle'r oedd yr arbenigedd ar gael i ymdopi ag unrhyw broblemau a allai ddeillio ohono. Fodd bynnag, mae problemau sy'n codi oherwydd cemotherapi yn tueddu i godi yn ddiweddarach, nid ar adeg ei ddarparu. Felly, rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog iechyd yn edrych â diddordeb mawr ar y cynigion ar gyfer Llandrindod.

Senedd.tv Fideo Video

## Lles Anifeiliaid

## Animal Welfare

14:09 **William Powell** Bywgraffiad Biography

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella lles anifeiliaid yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)1133(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's commitment to improving animal welfare in Mid and West Wales? OAQ(4)1133(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Our animal health and welfare strategy is working and moving forward across Wales, and work on animal welfare programmes for companion and farm animals is also continuing as part of that programme.

Mae ein strategaeth iechyd a lles anifeiliaid yn gweithio ac yn symud ymlaen ledled Cymru, ac mae gwaith ar raglenni lles anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid anwes ac anifeiliaid fferm hefyd yn parhau yn rhan o'r rhaglen honno.

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that answer, First Minister. The ministerial statement last week that accompanied the publication of the Animal Welfare (Breeding of Dogs) Regulations 2013 stated that it would include a ratio of one full-time staff member to 20 dogs, excluding puppies. However, the regulations did not make a specific exemption for puppies. Will you please clarify this inconsistency, because, were a puppy exemption to be put in place, it could lead to a situation in which one staff member could legally be left in charge of 20 breeding bitches, each of which could have potentially up to a dozen puppies, which, I suggest, would be an unacceptable situation to us and to the Welsh Government?

Diolch yn fawr iawn i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Roedd y datganiad gweinidogol yr wythnos diwethaf a oedd yn cyd-fynd â chyhoeddiad Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) 2013 yn dweud y byddai'n cynnwys cymhareb o un aelod staff llawn amser i 20 o gŵn, ac eithrio cŵn bach. Fodd bynnag, nid yw'r rheoliadau yn gwneud eithriad penodol ar gyfer cŵn bach. A wnewch chi egluro'r anghysondeb hwn os gwelwch yn dda, oherwydd, pe byddai eithriad yn cael ei roi ar waith ar gyfer cŵn bach, gallai arwain at sefyllfa lle gallai un aelod o staff gael ei adael, yn gyfreithlon, yn gyfrifol am 20 o eist bridio, y mae'n bosibl y gallai fod gan bob un ohonynt hyd at ddwsin o gŵn bach, a fyddai, rwy'n awgrymu, yn sefyllfa annerbyniol i ni ac i Lywodraeth Cymru?

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There have been issues surrounding this, regarding the definition of a dog, if I can put it that way, as opposed to a puppy. Some legal issues have arisen as a result of that, and the regulations have had to reflect those issues that have arisen.

Bu problemau yn gysylltiedig â hyn, ynghylch y diffiniad o gi, os caf ei roi felly, yn hytrach na chi bach. Mae rhai materion cyfreithiol wedi codi o ganlyniad i hynny, ac mae'r rheoliadau wedi gorfod adlewyrchu'r materion hynny sydd wedi codi.

14:11 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can the First Minister tell me whether the three charities identified to receive Welsh Government support following the severe weather conditions in mid and north Wales in April have all received their allocation of money?

A all y Prif Weinidog ddweud wrthyf a yw'r tair elusen a nodwyd i dderbyn cymorth gan Lywodraeth Cymru yn dilyn y tywydd garw yng nghanolbarth a gogledd Cymru ym mis Ebrill i gyd wedi derbyn eu dyraniad o arian?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

This is the £500,000 that has been set aside. My understanding is that they will have received that money by now; I have no evidence to the contrary.

Y £500,000 a roddwyd o'r neilltu yw hyn. Fy nealltwriaeth i yw y byddant wedi derbyn yr arian hwnnw erbyn hyn; nid oes gennyf unrhyw dystiolaeth i'r gwrthwyneb.

14:11 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Gan droi at anifail arall, Brif Weinidog, mae'n agos at 10,000 o wartheg wedi cael eu lladd yn ystod y flwyddyn lawn ddiwethaf oherwydd y dicáu mewn gwartheg. Mae gennych raglen yn fy ardal i sydd i fod yn rhaglen ddwys i ddifa'r dicáu yn ôl y rheolau Ewropeaidd, ond mae cynnydd wedi bod mewn achosion newydd. A ydych dal o'r farn bod gennych y rhaglen gywir i gael gwared â'r clefyd hwn sydd yn achosi cymaint o loes i gymaint o ffermwyr a chymaint o wartheg yng Nghymru?

To turn to another animal, First Minister, almost 10,000 cattle have been slaughtered over the past full year because of bovine TB. You have a programme in my area that is supposed to be an intensive programme to eradicate TB according to European rules, but there has been an increase in new cases. Are you still of the opinion that you have the correct programme in place to eradicate this disease, which is causing so much pain to so many farmers and so many cattle in Wales?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Ni fyddech yn erfyn gweld newid dros nos. Ni fyddai hynny'n digwydd gydag unrhyw system arall. Mae'n cymryd amser i unrhyw glefyd i weithio drwy anifeiliaid cyn bo lleihad yn y nifer sydd â'r clefyd hwnnw. Mae 1,424 o foch daear wedi cael eu dal a'u brechu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cyhoeddwyd adroddiad ar flwyddyn gyntaf y prosiect ym mis Ionawr ar safle we'r Llywodraeth ac mae rhaglen y flwyddyn hon yn mynd ymlaen fel y dylai.

You would not expect to see an overnight change. That would not happen with any system. It takes time for any disease to work its way through stock before there is a reduction in the number with that disease. Some 1,424 badgers have been caught and vaccinated over the past year. A report on the first year of the project was published in January on the Government's website and this year's programme is progressing as it should.

## Y Polisi Amaethyddol Cyffredin

## The Common Agricultural Policy

14:12 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin? OAQ(4)1131(FM)*

*8. What discussions has the Welsh Government had with the UK Government regarding reforming the Common Agricultural Policy? OAQ(4)1131(FM)*

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'r Gweinidog yn cael trafodaethau parhaus, sydd wedi dechrau ers tro, ar y polisi amaethyddol cyffredin, ac mae dal yn cael y trafodaethau hynny.

The Minister has an ongoing and long-established dialogue on the common agricultural policy, and he continues to have those discussions.

14:13 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n derbyn eich bod wedi ymateb i gwestiwn gan Kirsty Williams ar hyn, ond mae'n debyg, ar ddiwedd y mis, y bydd cytundeb ar lefel Ewropeaidd ynghylch ardaloedd â chyfyngiadau naturiol. Mae'r ymgynghoriad newydd orffen ar y cynllun datblygu gwledig newydd. A ydych yn barod, fel Llywodraeth, i ystyried a oes modd rhoi mwy o gefnogaeth i ardaloedd yr ucheldir fel rhan o'r system ar ôl 2015?

I accept that you have responded to a question from Kirsty Williams on this, but it appears that, at the end of this month, there will be a European-level agreement on areas facing natural constraint. The consultation on the new rural development plan has just finished. Are you willing, as a Government, to consider whether there is a way to give more support to upland areas as part of the system after 2015?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Bydd datganiad yn cael ei wneud ynglŷn â'r RDP fis nesaf a bydd mwy o fanylion yn cael eu rhoi i Aelodau bryd hynny.

A statement will be made next month on the RDP and more details will be provided to Members at that time.

14:13 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, as well as the CAP negotiations, there have been negotiations on the common fisheries policy. Will you join me in congratulating Richard Benyon, the UK Government Minister responsible for leading on those negotiations, because he has secured real reform of the common fisheries policy, ending the discard policy on fish that upset so many people in the UK who saw good food being thrown back into the sea? It will put small regional fisheries such as those in Wales on a sustainable footing for the future. Given that the Irish presidency of the European Council is rapidly drawing to a close without full political agreement on CAP, can you confirm what contingency preparations your Government is making should there be any partial agreement before Lithuania takes the presidency next month?

Brif Weinidog, yn ogystal â'r trafodaethau PAC, cafwyd trafodaethau ar y polisi pysgodfeydd cyffredin. A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch Richard Benyon, Gweinidog Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am arwain y trafodaethau hynny, gan ei fod wedi sicrhau gwir ddiwygiad i'r polisi pysgodfeydd cyffredin, gan roi terfyn ar y polisi taflu pysgod sydd wedi siomi cymaint o bobl yn y DU a welodd fwyd da yn cael e daflu yn ôl i'r môr? Bydd yn rhoi pysgodfeydd rhanbarthol bach fel y rhai yng Nghymru ar sail gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. O ystyried bod llywyddiaeth Iwerddon o'r Cyngor Ewropeaidd yn dod i ben yn fuan, heb gytundeb gwleidyddol llawn ar PAC, a allwch chi gadarnhau pa baratoadau wrth gefn mae eich Llywodraeth yn eu gwneud pe byddai unrhyw gytundeb rhannol cyn i Lithwania gymryd y llywyddiaeth fis nesaf?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I can inform the Member that the Minister will be making a statement on this issue a little later this afternoon, and the opportunity will be there for him to provide further information on this.

Gallaf hysbysu'r Aelod y bydd y Gweinidog yn gwneud datganiad ar y mater hwn ychydig yn ddiweddarach y prynhawn yma, a bydd cyfle iddo ddarparu rhagor o wybodaeth am hyn.

14:15 **Llyr Huws Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Brif Weinidiog, a ydych yn rhannu fy siom nad yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi llwyddo i negodi cyfran tecach o arian y gyllideb datblygu gwledig ar gyfer Prydain? Yn wir, mae wedi llwyddo gweld gostyngiad yn yr hyn mae'n debyg y byddem yn ei dderbyn, ac, ar yr un pryd, mae gwledydd eraill, megis y Ffindir, Slofacia ac Iwerddon, sydd wedi llwyddo gweld cynydd sylweddol yn y swm y byddant yn ei dderbyn. Onid ydych yn meddwl bod hyn yn dangos byddai llais mwy uniongyrchol i Gymru yn y trafodaeth hyn efallai'n well o safbwynt cynrycholi ein buddiannau?

First Minister, do you share my disappointment that the UK Government has not succeeded in negotiating a fairer proportion of the rural development budget for Britain? Indeed, it has succeeded in seeing a reduction in what we are likely to receive and, at the same time, there are other countries, such as Finland, Slovakia and Ireland, that have succeeded in seeing a considerable increase in the sum that they will receive. Do you not think that that demonstrates that a more direct voice for Wales in these negotiations would perhaps be better in terms of representing our interests?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Nac ydw. Rwyf yn credu mai y gallu yw'r peth. Mae'n od dros ben bod y Deyrnas Unedig, sydd mor fawr o ran y cefndir Ewropeaidd, wedi ffaelu cael mwy o arian er mwyn helpu pobl sydd yn byw yng ngefn gwlad ym Mhrydain. Felly, nid wyf yn credu mai rhywbeth yn ymwneud â maint yw hyn, ond rhywbeth yn ymwneud â'r gallu i gael yr arian yn y lle cyntaf.

No. I believe that the ability is the important thing. It is extremely odd that the United Kingdom, which is so big in the European context, has failed to secure additional funding to assist people who live in rural areas in Britain. So, I do not think that it is anything to do with size, but is something to do with the ability to get the funding in the first place.

14:16

# Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

# Business Statement and Announcement

Senedd.tv
Fideo Video

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have four changes to report to this week's business. I have re-ordered and extended the time allocated to the statement on the future delivery of education services in Wales. The statement on the independent review of the availability of funding for small and medium-sized enterprises in Wales has been postponed until next week. The Business Committee has agreed to schedule a motion to elect a Member to a committee as the last item of business today, and, finally, I have reduced the time allocated to questions to the Counsel General tomorrow to 15 minutes. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers, which are available to Members electronically.

Mae gennyf bedwar newid i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Rwyf wedi ad-drefnu ac ymestyn yr amser a neilltuwyd i'r datganiad ar ddarparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r datganiad ar yr adolygiad annibynnol o'r cyllid sydd ar gael i fentrau bach a chanolig eu maint yng Nghymru wedi cael ei ohirio tan yr wythnos nesaf. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i drefnu cynnig i ethol Aelod i bwyllgor fel yr eitem olaf o fusnes heddiw, ac, yn olaf, rwyf wedi lleihau'r amser a neilltuwyd ar gyfer cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol yfory i 15 munud. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd i'w gweld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.

14:16 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, could we have two statements? The first is on the use of the Welsh Government logo. It seems that the logo can appear on anything from the weather to smoking cessation to new school buildings. For anything that is positive, it can be stuck on to that. However, when you look at the south Wales programme and the closure of units and hospital facilities, it is nowhere to be seen. As you are a key partner in this discussion, and as you promote the weather—as you promote so many other good things around Wales—surely, your logo should also be on these types of projects. What is the guidance given on the use of the Welsh Government logo?

Weinidog, a allwn ni gael dau ddatganiad? Y cyntaf ar y defnydd o logo Llywodraeth Cymru. Mae'n ymddangos y gall y logo ymddangos ar unrhyw beth o'r tywydd i roi'r gorau i ysmygu i adeiladau ysgol newydd. Gellir ei roi ar unrhyw beth sy'n gadarnhaol. Fodd bynnag, pan edrychwch chi ar raglen de Cymru a chau unedau a chyfleusterau ysbyty, ni ellir ei weld yn unman. Gan eich bod chi yn bartner allweddol yn y drafodaeth hon, a chan eich bod yn hyrwyddo'r tywydd—fel rydych chi'n hyrwyddo cymaint o bethau da eraill ledled Cymru—does bosib y dylai eich logo hefyd fod ar y mathau hyn o brosiectau. Beth yw'r canllawiau a roddir ar y defnydd o logo Llywodraeth Cymru?

Secondly, could we have a statement on buses from the Minister for Economy, Science and Transport with regard to local government support for bus routes? Given the previous Minister's 25% reduction in the support for bus services and the devastating cuts that the Vale of Glamorgan Council is making to rural bus routes, it is imperative that we understand exactly what the Welsh Government is doing—or not doing, as the case may be—to support people's ability to have reliable and sustainable bus travel in their communities.

Yn ail, a allwn ni gael datganiad ar fysiau gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth o ran cymorth llywodraeth leol i lwybrau bws? O ystyried gostyngiad y Gweinidog blaenorol o 25% i'r cymorth ar gyfer gwasanaethau bysiau a'r toriadau trychinebus y mae Cyngor Bro Morgannwg yn eu gwneud i lwybrau bysiau gwledig, mae'n hanfodol ein bod yn deall yn union yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud—neu nad yw'n ei wneud, yn ôl y digwydd—i gefnogi gallu pobl i gael teithiau bws dibynadwy a chynaliadwy yn eu cymunedau.

14:18

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the leader of the opposition for those questions. The south Wales plan is owned by the local health boards that are part of the south Wales plan. In relation to buses, you talk about the reduction in funding, but you have to recognise that, as the Welsh Government, our budget has been absolutely slashed—over £1.4 billion over two years. We can only give the funding out to local government. Obviously, each local authority then has to decide how it will put that funding to best use in relation to transport. [Interruption.]

Diolchaf i arweinydd yr wrthblaid am y cwestiynau yna. Mae cynllun de Cymru yn eiddo i'r byrddau iechyd lleol sy'n rhan o gynllun de Cymru. O ran bysiau, rydych chi'n sôn am y gostyngiad mewn cyllid, ond mae'n rhaid i chi gydnabod bod ein cyllideb, fel Llywodraeth Cymru, wedi cael ei thorri'n enbyd—mwy na £1.4 biliwn dros ddwy flynedd. Ni chawn ond rhoi'r cyllid i lywodraeth leol. Yn amlwg, mae'n rhaid i bob awdurdod lleol benderfynu wedyn sut y bydd yn defnyddio'r cyllid hwnnw orau o ran trafnidiaeth [Torri ar draws.]

14:18

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Order. It is the Minister for Government business who is answering questions.

Trefn. Gweinidog busnes y Llywodraeth sy'n ateb cwestiynau.

14:18

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, when can we debate the achievements of comprehensive school pupils at university? I am sure that you saw the research from Cardiff University that came out over the weekend, which showed that students from comprehensive schools do much better at university than students from independent schools, even though independent school pupils are over-represented, particularly in the Russell group universities. Does she not agree that this is a really good case for making universities much more accessible?

Weinidog, pryd allwn ni gael trafodaeth ar lwyddiannau disgyblion ysgol gyfun yn y brifysgol? Rwy'n siŵr eich bod wedi gweld y gwaith ymchwil gan Brifysgol Caerdydd a gyhoeddwyd dros y penwythnos, a oedd yn dangos bod myfyrwyr o ysgolion cyfun yn gwneud yn llawer gwell yn y brifysgol na myfyrwyr o ysgolion annibynnol, er bod disgyblion ysgolion annibynnol wedi'u gorgynrychioli, yn enwedig ym mhrifysgolion grŵp Russell. Onid yw hi'n cytuno bod hwn yn rheswm da iawn dros wneud prifysgolion yn llawer mwy hygyrch?

14:19

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, absolutely. I was aware of the research. I think that Welsh universities have led the way in recruiting among groups that traditionally have had less experience of higher education. The Welsh Government and the Minister for Education and Skills absolutely believe that it is important for us to stick up for our students and help them whenever we can. We have provided £3.6 billion in funding to support students.

Ydw, yn sicr. Roeddwn i'n ymwybodol o'r gwaith ymchwil. Rwy'n meddwl bod prifysgolion Cymru wedi arwain y ffordd wrth recriwtio ymhlith grwpiau sydd yn draddodiadol wedi cael llai o brofiad o addysg uwch. Mae Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn sicr o'r farn ei bod yn bwysig i ni sefyll i fyny dros ein myfyrwyr a'u helpu pryd bynnag y gallwn. Rydym ni wedi darparu £3.6 biliwn o gyllid i gefnogi myfyrwyr.

14:19 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

When Tata Steel announced last November that it would have to make redundancies, with some 900 people in Wales losing their jobs, the Welsh Government said that it would be setting up a taskforce to identify what support we could provide for those affected. However, in today's 'South Wales Evening Post', the company says that it potentially has to make 200 compulsory redundancies. Could we have an update, a statement or a debate in Government time to find out what work the taskforce has carried out to date, so that we can go back to the workforce and the trade unions and reassure them that these compulsory redundancies will be the last resort, if they have to happen at all?

Pan gyhoeddodd Tata Steel fis Tachwedd diwethaf y byddai'n rhaid iddo ddiswyddo pobl, a thua 900 o bobl yng Nghymru yn colli eu swyddi, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n sefydlu tasglu i ganfod pa gymorth y gallem ni ei roi i'r rhai yr effeithiwyd arnynt. Fodd bynnag, yn y 'South Wales Evening Post' heddiw, mae'r cwmni'n dweud ei bod o bosibl y bydd yn rhaid iddo wneud 200 o ddiswyddiadau gorfodol. A allem ni gael y wybodaeth ddiweddaraf, datganiad neu drafodaeth yn amser y Llywodraeth i ddarganfod pa waith y mae'r tasglu wedi ei wneud hyd yn hyn, fel y gallwn fynd yn ôl at y gweithlu a'r undebau llafur a'u sicrhau mai'r diswyddiadau gorfodol hyn fydd y dewis olaf, os bydd yn rhaid iddynt ddigwydd o gwbl?

14:20 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very sorry to hear of so many compulsory redundancies at Tata. I know that the Minister for Economy, Science and Transport has worked very closely with companies that have come forward for help, and we try to offer all the assistance that we can.

Mae'n ddrwg iawn gennyf glywed am gymaint o ddiswyddiadau gorfodol yn Tata. Gwn fod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi gweithio'n agos iawn gyda chwmnïau sydd wedi gofyn am gymorth, ac rydym ni'n ceisio cynnig yr holl gymorth y gallwn.

14:20 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, gofynnaf am ddatganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ynghylch beth yw disgwyliadau'r Llywodraeth o ran canlyniadau y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr. Roedd swyddog o'r sefydliad hwnnw yng Nghymru yr wythnos diwethaf, a dywedodd ei fod yn annhebygol y byddai gwelliant ym mis Rhagfyr. Serch hynny, dywedodd y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf ei fod yn parhau i fod yn obeithiol y byddai Cymru yn yr 20 uchaf erbyn 2015. Felly, credaf fod angen cael eglurdeb ynghylch disgwyliadau'r Llywodraeth.

Minister, I ask for a statement from the Minister for Education and Skills on the Government's expectations in terms of the Programme for International Student Assessment results. An officer from that institution was in Wales last week, and said that it is unlikely that there will be an improvement in December. However, the Minister did say last week that he was still hopeful that Wales would be in the top 20 by 2015. So, I think that there is a need for clarity on the Government's expectations.

14:21 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As you say, the Minister for Education and Skills made his views known last week. He is still very hopeful about the results, and I think that we should just wait and see what happens with those results later this year.

Fel y dywedwch, mynegodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ei farn yr wythnos diwethaf. Mae'n dal i fod yn obeithiol iawn am y canlyniadau, a chredaf y dylem aros i weld beth fydd yn digwydd gyda'r canlyniadau hynny yn ddiweddarach eleni.

14:21 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, given the very disturbing reports yesterday regarding the Welsh ambulance service, and the fact that it has missed its target response times for the eleventh month in a row for urgent cases—I think that I am right in saying that—could we have an urgent statement from the Minister for health on what is being put in place to address these problems? I am sure that there is not an AM in here who has not had an issue with ambulance response times over the last few months and, indeed, years. We need to see action to see this issue addressed. I look forward to a statement from the Minister.

Weinidog, o ystyried adroddiadau ddoe, a oedd yn peri pryder mawr, ar wasanaeth ambiwlans Cymru, a'r ffaith ei fod wedi methu â chyrraedd ei darged amseroedd ymateb am yr unfed mis ar ddeg yn olynol ar gyfer achosion brys—rwy'n meddwl fy mod yn iawn wrth ddweud hynny—a allem ni gael datganiad brys gan y Gweinidog iechyd ar yr hyn sy'n cael ei roi ar waith i fynd i'r afael â'r problemau hyn? Rwy'n siŵr nad oes AC yma nad yw wedi cael problem gydag amseroedd ymateb ambiwlansys dros yr ychydig fisoedd ac, yn wir, y blynyddoedd diwethaf. Mae angen i ni weld gweithredu i fynd i'r afael â'r mater hwn. Edrychaf ymlaen at ddatganiad gan y Gweinidog.

Secondly, it is good to see the Minister responsible for business and enterprise back from her trade mission in the far east. I can honestly say that it was not the same without her here, and I hope that some good has been achieved. Could we have a discussion in the Chamber and a statement from the Welsh Government on what has been achieved by the trade mission and on where we believe that Welsh business and industry can improve performance in the future as a result of what the Welsh Government is attempting to do in this area?

Yn ail, mae'n dda gweld y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes a menter yn ôl o'i thaith fasnach yn y dwyrain pell. Gallaf ddweud yn onest nad oedd y lle yr un fath yma hebddi, ac rwy'n gobeithio y cyflawnwyd rhywfaint o ddaioni. A allem ni gael trafodaeth yn y Siambr a datganiad gan Lywodraeth Cymru ar yr hyn a gyflawnwyd gan y daith fasnach ac ar ble yr ydym ni'n credu y gall busnes a diwydiant Cymru wella perfformiad yn y dyfodol o ganlyniad i'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio ei wneud yn y maes hwn?

14:22 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In relation to ambulance performance, it is clear that the Welsh Ambulance Service NHS Trust has recently fallen short of meeting the target. You will be aware that we have had a review of the Welsh ambulance service, and the Minister is working through those recommendations. The Minister for Economy, Science and Transport has today published a written statement following her visit to Japan, and I am sure that the Member will be interested to read that in due course.

O ran perfformiad ambiwlansys, mae'n amlwg bod Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi methu â chyrraedd y targed yn ddiweddar. Byddwch yn ymwybodol ein bod wedi cynnal adolygiad o wasanaeth ambiwlans Cymru, ac mae'r Gweinidog yn gweithio drwy'r argymhellion hynny. Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig heddiw yn dilyn ei hymweliad â Japan, ac rwy'n siŵr y bydd gan yr Aelod ddiddordeb mewn darllen hwnnw maes o law.

14:23 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Next week is deafblind awareness week, so I would welcome a statement from the Government on how deafblind people are enabled to enjoy independent living, and on how the Welsh Government is ensuring that the unique nature of this condition is best recognised by health and social care practitioners, so that the needs of deafblind people and their families are most successfully met.

Cynhelir wythnos ymwybyddiaeth o fod yn ddall ac yn fyddar yr wythnos nesaf, felly byddwn yn croesawu datganiad gan y Llywodraeth ar sut mae pobl fyddar a dall yn cael eu galluogi i fwynhau bywydau annibynnol, ac ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod natur unigryw'r cyflwr hwn yn cael ei gydnabod orau gan ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, fel bod anghenion pobl fyddar a dall a'u teuluoedd yn cael eu diwallu yn y modd mwyaf llwyddiannus.

14:23 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the opportunity to express my support for those organisations and the work that they achieve on behalf of deafblind people in Wales, which is a unique condition, as you say. It has been 12 years since the Welsh Government issued its landmark guidance on social care for deafblind children and adults. That guidance set out the rights of those individuals, and it remains as important and relevant today as it was then. We continue to show our commitment to deafblind people in Wales through the core grant that we give to Sense Cymru. This enables that organisation to work in partnership with other organisations and, indeed, with deafblind people themselves.

Croesawaf y cyfle i fynegi fy nghefnogaeth i'r sefydliadau hynny a'r gwaith maen nhw'n ei wneud ar ran pobl fyddar a dall yng Nghymru, sy'n gyflwr unigryw, fel yr ydych chi'n ei ddweud. Bu 12 mlynedd ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei chanllawiau arloesol ar ofal cymdeithasol i blant ac oedolion byddar a dall. Mae'r canllawiau hynny'n nodi hawliau'r unigolion hynny, ac mae'n dal i fod mor bwysig a pherthnasol heddiw ag yr oedd bryd hynny. Rydym yn parhau i ddangos ein hymrwymiad i bobl fyddar a dall yng Nghymru drwy'r grant craidd yr ydym ni'n ei roi i Sense Cymru. Mae hwn yn galluogi'r sefydliad hwnnw i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill ac, yn wir, gyda phobl fyddar a dall eu hunain.

14:24 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, would you please make space before the summer recess for a statement from the Minister for Natural Resources and Food on the recent outbreaks that have been reported, particularly in north Wales, of the tree pathogen Phytophthora ramorum? I understand that foresters in the north Wales area have been concerned about what is perceived to be a tardy response by Natural Resources Wales.

Weinidog, a fyddech chi cystal â gwneud lle cyn toriad yr haf ar gyfer datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar yr achosion diweddar yr adroddwyd amdanynt, yn enwedig yn y gogledd, o'r pathogen coed Phytophthora ramorum? Rwy'n deall bod coedwigwyr yn ardal gogledd Cymru wedi bod yn pryderu am yr hyn a ystyrir yn ymateb araf gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

14:24 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister has heard your question. I am glad I do not have to repeat it. [Laughter.] I am sure that he will make a statement in due course.

Mae'r Gweinidog wedi clywed eich cwestiwn. Rwy'n falch nad oes rhaid i mi ei ailadrodd. [Chwerthin.] Rwy'n siŵr y bydd yn gwneud datganiad maes o law.

14:25

# Datganiad: Darparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol

# Statement: Future Delivery of Education Services in Wales

Senedd.tv
Fideo Video

**Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills*

On 20 November, I announced that I was bringing forward the in-depth review of the delivery of education services, as recommended by the independent task and finish group on the structure of education services in Wales, chaired by Viv Thomas, in 2011. I gave Members a further update through an oral statement on 22 January as to how Robert Hill was to take this review forward.

Ar 20 Tachwedd, cyhoeddais fy mod yn cyflwyno'r adolygiad manwl o ddarparu gwasanaethau addysg, yn unol ag argymhelliad y grŵp gorchwyl a gorffen annibynnol ar strwythur gwasanaethau addysg yng Nghymru, dan gadeiryddiaeth Viv Thomas, yn 2011. Rhoddais ddiweddariad pellach i'r Aelodau mewn datganiad llafar ar 22 Ionawr ynghylch sut y byddai Robert Hill yn bwrw ymlaen â'r adolygiad hwn.

Robert Hill has now concluded his review. The primary aim of his review was to look at the effectiveness of the current education delivery system at school and local authority level and to consider what should be undertaken at school, local authority, regional and national level, with a focus on improving school performance, raising standards and improving learner outcomes at all ages, offering better support and challenge to schools to improve standards, developing and strengthening the leadership of schools and the quality of teaching and learning, ensuring value for money and effective use of resources, and bringing about coherence, based on clarity of roles and strong links between all areas of the education system, including post-16 provision and the wider children's services agenda.

Mae Robert Hill bellach wedi cwblhau ei adolygiad. Prif nod ei adolygiad oedd edrych ar effeithiolrwydd y system ddarparu addysg bresennol ar lefel ysgolion ac awdurdodau lleol ac ystyried yr hyn y dylid ei wneud ar lefel ysgolion, ar lefel awdurdodau lleol, ar lefel ranbarthol ac ar lefel genedlaethol, gan ganolbwyntio ar wella perfformiad ysgolion, codi safonau a gwella canlyniadau i ddysgwyr o bob oed, gan gynnig gwell cefnogaeth a her i ysgolion i wella safonau, a datblygu a chryfhau arweinyddiaeth ysgolion ac ansawdd addysgu a dysgu, gan sicrhau gwerth am arian a bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol, ac ysgogi cydlyniad, yn seiliedig ar eglurder o ran swyddogaethau a chysylltiadau cryf rhwng pob rhan o'r system addysg, gan gynnwys darpariaeth ôl-16 a'r agenda gwasanaethau i blant ehangach.

In conducting this review, Robert Hill engaged with key stakeholders and invited submissions seeking views. The engagement was wide-ranging and included the opposition parties' education spokespeople, officials from across the Welsh Government, representatives of the teacher and headteacher trade unions, managers in regional consortia, local government officers and members, Estyn, and, importantly, those at the front line, namely school leaders in primary, secondary and special schools. Key questions focused on improving teaching and learning leading to improved outcomes for all children and young people, asking what would contribute most to improving the quality of teaching and learning in every classroom, what would enable, empower and equip school leaders to lead improvement of the school system, and how schools could be held to account and supported in improving outcomes for children and young people.

Wrth gynnal yr adolygiad hwn, ymgysylltodd Robert Hill â rhanddeiliaid allweddol a gwahoddodd gyflwyniadau i geisio barn. Roedd yr ymgysylltiad yn eang ei gwmpas ac yn cynnwys llefarwyr addysg y gwrthbleidiau, swyddogion o bob rhan o Lywodraeth Cymru, cynrychiolwyr undebau llafur athrawon a phenaethiaid, rheolwyr consortia rhanbarthol, swyddogion ac aelodau llywodraeth leol, Estyn, ac, yn bwysig, y rhai ar y rheng flaen, sef arweinyddion ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig. Roedd y cwestiynau allweddol yn canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu i arwain at well canlyniadau i bob plentyn a pherson ifanc, gan ofyn beth fyddai'n cyfrannu fwyaf at wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu ym mhob ystafell ddosbarth, beth fyddai'n galluogi, yn grymuso ac yn arfogi arweinyddion ysgolion i arwain gwelliant y system ysgolion, a sut y gellid dal ysgolion i gyfrif a'u cefnogi i wella canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc.

In his report, Robert Hill has presented 85 delivery options for consideration to improve education services. These are categorised as improving classroom teaching and learning, strengthening school leadership, increasing school partnerships within a context of greater autonomy, improving accountability, and organising school improvement functions. The report builds on our current work, such as our 'Improving Schools' plan, the national literacy and numeracy programme, the Welsh in education plans, the implementation of a digital learning platform, and the introduction of a Master's programme for newly-qualified teachers.

Yn ei adroddiad, mae Robert Hill wedi cyflwyno 85 o opsiynau cyflenwi i'w hystyried i wella gwasanaethau addysg. Caiff y rhain eu categoreiddio fel gwella addysgu a dysgu yn y dosbarth, gan gryfhau arweinyddiaeth yr ysgol, cynyddu partneriaethau ysgol yng nghyd-destun mwy o annibyniaeth, gwella atebolrwydd, a threfnu swyddogaethau gwella ysgolion. Mae'r adroddiad yn adeiladu ar ein gwaith cyfredol, megis ein cynllun 'Gwella Ysgolion', y rhaglen genedlaethol llythrennedd a rhifedd, y cynlluniau Cymraeg mewn addysg, rhoi llwyfan dysgu digidol ar waith, a chyflwyno rhaglen Meistr ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso.

For improving classroom teaching and learning, the options include a focus on using high-quality schemes of work from lead practitioner schools to help weaker schools to plan and implement the literacy and numeracy framework, with a nationally approved list of schools equipped to provide classroom and whole school support, standardised tracking for literacy and numeracy from years 2 to 9, extending the use of immersion groups and secondments to Welsh-medium schools to boost the language skills of teachers teaching Welsh as a second language, and expanded employment and school-based routes into teaching.

Ar gyfer gwella addysgu a dysgu yn y dosbarth, mae'r dewisiadau'n cynnwys pwyslais ar ddefnyddio cynlluniau gwaith o ansawdd uchel o ysgolion sy'n ymarferwyr arweiniol i helpu ysgolion gwannach i gynllunio a gweithredu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd, gyda rhestr a gymeradwywyd yn genedlaethol o ysgolion sydd â'r gallu i ddarparu cefnogaeth i'r ystafell ddosbarth a'r ysgol gyfan, olrhain safonedig ar gyfer llythrennedd a rhifedd o flynyddoedd 2 i 9, defnyddio mwy o grwpiau trochi a secondiadau i ysgolion cyfrwng Cymraeg i hybu sgiliau iaith athrawon sy'n addysgu Cymraeg fel ail iaith, ac ehangu cyflogaeth a llwybrau drwy'r ysgol i addysgu.

In terms of strengthening school leadership, the options include establishing the leadership development boards at regional and national levels, creating a leadership development curriculum and a stepping-stone senior leadership qualification en route to headship, and accrediting national providers to deliver leadership development programmes.

O ran cryfhau arweinyddiaeth ysgolion, mae'r dewisiadau yn cynnwys sefydlu'r byrddau datblygu arweinyddiaeth ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol, creu cwricwlwm datblygu arweinyddiaeth a chymhwyster arweinyddiaeth fel cam ar y ffordd at brifathrawiaeth, ac achredu darparwyr cenedlaethol i gyflenwi rhaglenni datblygu arweinyddiaeth.

In terms of increasing school partnerships within a context of greater autonomy, the options include increasing the number of federations, funding incentives for high-performing schools to assist weaker schools, developing models for hard clusters of schools based on the co-operative trust model, delegating funds to federations and hard clusters of schools, considering giving the right to federations and hard clusters to provide education and welfare and additional learning needs services, and the further delegation of funding to schools aside from school transport.

O ran cynyddu partneriaethau ysgol yng nghyd-destun mwy o annibyniaeth, mae'r dewisiadau'n cynnwys cynyddu nifer y ffederasiynau, ariannu cymhellion i ysgolion uwchradd sy'n perfformio'n dda i gynorthwyo ysgolion gwannach, datblygu modelau clystyrau caled o ysgolion yn seiliedig ar y model ymddiriedaeth gydweithredol, dirprwyo arian i ffederasiynau a chlystyrau caled o ysgolion, gan ystyried rhoi'r hawl i ffederasiynau a chlystyrau caled i ddarparu gwasanaethau addysg a lles ac anghenion dysgu ychwanegol, a dirprwyo mwy o gyllid i ysgolion ar wahân i gyllid cludiant ysgol.

In terms of improving accountability, the options include ensuring that tracking systems are directly linked to the reading and numeracy tests, standardised tasks—not tests—at end of key stage 2 and key stage 3, simplifying and consolidating data sets used across Wales, introducing an annual balanced scorecard report for every primary school, examining the scope for a balanced scorecard for secondary schools following the qualifications review changes, making school inspection less predictable, and reviewing the inspection model in the context of a move to hard clusters and regional consortia.

O ran gwella atebolrwydd, mae'r dewisiadau'n cynnwys sicrhau bod systemau olrhain yn cael eu cysylltu'n uniongyrchol â'r profion darllen a rhifedd, tasgau wedi'u safoni—nid profion—ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3, symleiddio a chyfuno setiau data a ddefnyddir ledled Cymru, cyflwyno adroddiad cerdyn sgorio cytbwys blynyddol i bob ysgol gynradd, archwilio'r cwmpas ar gyfer cerdyn sgorio cytbwys i ysgolion uwchradd yn dilyn y newidiadau i adolygiadau cymwysterau, gwneud arolygon ysgolion yn llai rhagweladwy, ac adolygu'r model arolygu yng nghyd-destun symud at glystyrau caled a chonsortia rhanbarthol.

In terms of organising school improvement functions, the options include cutting the number of local authority education services by a third by April 2014, either by voluntary mergers or by using ministerial intervention powers; local authorities to stop providing school improvement services, with all these functions being provided regionally in partnership with schools; regional consortia and local authorities to have formal agreements regarding the exercise of their respective responsibilities when formal school interventions are deemed necessary; regional consortia to have a standard governance structure involving local authority leaders, school leaders, an education improvement expert and a ministerial nominee; regional consortia to be funded directly by top-slicing the regional support grant; regional consortia arrangements for delivering services and the appointment of their directors to be approved by the Minister; and the further strengthening of the school standards and delivery unit. The report proposes that, in the medium term, education should be retained within new slim-line elected local authorities, but recognises that this will be a matter for the public service commission to consider.

O ran trefnu swyddogaethau gwella ysgolion, mae'r dewisiadau yn cynnwys torri traean y nifer o wasanaethau addysg awdurdodau lleol erbyn Ebrill 2014, naill ai drwy uno gwirfoddol neu drwy ddefnyddio pwerau ymyrryd y Gweinidog; awdurdodau lleol i roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion, gyda'r holl swyddogaethau hyn yn cael eu darparu'n rhanbarthol mewn partneriaeth ag ysgolion; consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i ffurfio cytundebau ffurfiol ynghylch arfer eu priod gyfrifoldebau pan ystyrir bod angen ymyriadau ffurfiol ar ysgolion; consortia rhanbarthol i fod â strwythur llywodraethu safonol sy'n cynnwys arweinwyr awdurdodau lleol, arweinyddion ysgolion, arbenigwr ym maes gwella addysg ac unigolyn wedi'i enwebu gan y Gweinidog; consortia rhanbarthol i gael eu hariannu'n uniongyrchol drwy frigdorri'r grant cymorth rhanbarthol; trefnu consortia rhanbarthol i gyflenwi gwasanaethau gyda'u cyfarwyddwyr i'w cymeradwyo gan y Gweinidog; a gwneud mwy i gryfhau'r uned safonau ysgolion a chyflawni. Mae'r adroddiad yn cynnig, yn y tymor canolig, y dylid cadw addysg o fewn awdurdodau lleol etholedig symlach newydd, ond yn cydnabod mai mater i'r comisiwn gwasanaethau cyhoeddus ei ystyried fydd hyn.

The review has some specific proposals in respect of school governance. Members will be aware that I asked Glyn Mathias to chair a group looking at school governance. Glyn has recently advised me that, for health reasons, he needs to stand down from chairing this group. I am grateful to him for his work so far. I will be amending the terms of reference of the group in the light of Robert Hill's report.

Mae'r adolygiad yn gwneud rhai cynigion penodol o ran llywodraethu ysgolion. Bydd yr Aelodau'n gwybod fy mod wedi gofyn i Glyn Mathias gadeirio grŵp i edrych ar lywodraethu ysgolion. Yn ddiweddar, mae Glyn wedi dweud wrthyf fod angen iddo roi'r gorau i gadeirio'r grŵp hwn am resymau'n ymwneud ag iechyd. Rwyf yn ddiolchgar iddo am ei waith hyd yma. Byddaf yn diwygio cylch gorchwyl y grŵp yng ngoleuni adroddiad Robert Hill.

I am immensely grateful to Robert Hill for his work. He has produced a comprehensive, exacting and exciting report, with a compelling set of options for us to consider, in a very short time frame. I am today publishing the report in its entirety and commencing a 12-week formal consultation on all of the options. It is important that everyone fully engages with this, as it is an excellent opportunity to help us make the improvements we need to become a good education system looking to be great.

Rwyf yn hynod ddiolchgar i Robert Hill am ei waith. Mae wedi cynhyrchu adroddiad cynhwysfawr, manwl a chyffrous, gyda chyfres gymhellol o ddewisiadau i ni eu hystyried, mewn cyfnod byr iawn. Heddiw, rwyf yn cyhoeddi'r adroddiad yn ei gyfanrwydd ac yn dechrau ymgynghoriad ffurfiol 12 wythnos ar bob un o'r dewisiadau. Mae'n bwysig bod pawb yn ymgysylltu'n llawn â hyn, gan ei fod yn gyfle gwych i helpu i wneud y gwelliannau sydd eu hangen arnom i fod yn system addysg dda sy'n gweithio at fod yn wych.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 2.31 p.m.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 2.31 p.m.*

14:32

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, first of all, I thank you for bringing forward this statement today. I also thank Robert Hill for the kindness he showed me by engaging in such a long, open and frank discussion on our various views on education. I was pleased to say that he and I chimed in a great many areas, and I would expect to see that reflected in this report. Forgive me, I have not yet read the entire 130 pages, but I have skimmed through it. It is going out to consultation, but I just want to ask you a couple of quick questions now.

Weinidog, yn gyntaf oll, diolch i chi am gyflwyno'r datganiad hwn heddiw. Hoffwn ddiolch hefyd i Robert Hill am y caredigrwydd a ddangosodd tuag ataf drwy gymryd rhan mewn trafodaeth mor hir, agored a gonest am ein gwahanol safbwyntiau ar addysg. Rwyf yn falch o ddweud ei fod ef a minnau wedi cydgordio mewn llawer iawn o feysydd, a byddwn yn disgwyl gweld bod yr adroddiad hwn yn adlewyrchu hynny. Maddeuwch imi, nid wyf eto wedi darllen y 130 o dudalennau i gyd, ond rwyf wedi ei frasddarllen. Bydd yn destun ymgynghoriad, ond hoffwn ofyn un neu ddau o gwestiynau cyflym i chi nawr.

On improving classroom teaching and learning, one of the things that stand out in the key short-term options, which I do not believe you mentioned in your statement, is that he was suggesting that we should set up a list of nationally approved schools from inside and outside Wales to bring in best practice, which is an excellent idea. I want confirmation that, in that, we might be looking at all sorts of schools, including academies, which, of course, your colleagues in Westminster have endorsed so readily very recently. There are some outstanding academies out there that we could learn lessons from.

O ran gwella addysgu a dysgu yn y dosbarth, un o'r pethau sy'n amlwg yn y dewisiadau tymor byr allweddol, ac nid wyf yn credu eich bod wedi sôn am hyn yn eich datganiad, yw ei fod yn awgrymu y dylem sefydlu rhestr o ysgolion a gymeradwywyd yn genedlaethol o'r tu mewn i Gymru ac o'r tu allan i gyflwyno arfer gorau, sy'n syniad gwych. Hoffwn gael cadarnhad y byddwn, yn hynny o beth, yn edrych ar bob math o ysgolion, gan gynnwys academïau, sydd, wrth gwrs, wedi cael cymeradwyaeth mor barod gan eich cydweithwyr yn San Steffan yn ddiweddar iawn. Mae rhai academïau rhagorol yn bodoli, a gallem ddysgu gwersi oddi wrthynt.

Robert Hill talks about identifying and training lead practitioners and lead practitioner departments to maximise the skills of best teachers. The report in another area talks about how we have a shortage of lead practitioners and a shortage of good headteachers. I wonder how we might be able to square that circle, because we need those people to stay in post and carry on with their very good jobs, as well as being able to push out their undoubted knowledge to the benefit of all.

Mae Robert Hill yn sôn am adnabod a hyfforddi ymarferwyr arweiniol ac adrannau sy'n ymarferwyr arweiniol i gael y gorau o sgiliau'r athrawon gorau. Mae rhan arall o'r adroddiad yn sôn am y prinder ymarferwyr arweiniol a'r prinder o ran penaethiaid da sydd gennym. Tybed sut y gallwn unioni'r sefyllfa honno, oherwydd mae angen i'r bobl hynny aros yn eu swyddi a pharhau â'u gwaith da iawn, yn ogystal â gallu rhannu eu gwybodaeth ddiamheuol er budd pawb.

In terms of strengthening school leadership, that was very interesting. Again, it talks about the regional consortia, but also the leadership development boards. Once again, those two are tied together, in that we have a very small pool of people here who we can lean on and so it is about how we are going to be able to meet those kinds of expectations.

O ran cryfhau arweinyddiaeth ysgolion, roedd hynny'n ddiddorol iawn. Eto, mae'n sôn am y consortia rhanbarthol, ond hefyd am y byrddau datblygu arweinyddiaeth. Unwaith eto, mae'r ddau bwnc hynny wedi'u clymu at ei gilydd, gan mai cronfa fach iawn sydd gennym yma o bobl y gallwn bwyso arnynt ac felly mae'n fater o sut yr ydym yn mynd i allu bodloni'r mathau hynny o ddisgwyliadau.

For me, the main bit was about increasing school partnership within a context of greater autonomy. How will be able to ensure that this is an entirely positive change for looked-after children, for example, or children who have additional learning needs, as my colleague Paul Davies mentioned earlier on in questions? We had the Pembrokeshire branch of the National Autistic Society here today because they have children there who have been waiting for years to be assessed. If that is now being put with a cluster group or a federation, and taken away from the local authorities, which I can tell you—certainly Pembrokeshire—are not handling it at all well, then how can we ensure that we are not stepping from the frying pan into the fire, but into something an awful lot better? These children can so easily get lost. I have run this scenario past some parents who have children with additional learning needs, and their concern is that they would then be left at the mercy of schools, where heads, or teachers, are not au fait with the entire additional learning needs spectrum, and that they would be less well served. Therefore, it is about how we can build in a safety net, if you like, to ensure that those children are not disadvantaged even more than they already are.

I mi, y prif beth oedd cynyddu partneriaeth ysgolion yng nghyd-destun mwy o annibyniaeth. Sut y byddwn ni'n gallu sicrhau bod hwn yn newid cwbl gadarnhaol i blant sy'n derbyn gofal, er enghraifft, neu i blant ag anghenion dysgu ychwanegol, fel y nododd fy nghydweithiwr, Paul Davies, yn gynharach yn ystod y cwestiynau? Cawsom gangen Sir Benfro y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol yma heddiw oherwydd bod ganddynt blant yno sydd wedi bod yn aros ers blynyddoedd i gael eu hasesu. Os yw'r cyfrifoldeb am hynny bellach yn cael ei roi i grŵp clwstwr neu ffederasiwn, a'i gymryd oddi ar yr awdurdodau lleol, a gallaf ddweud wrthych—yn sicr yn Sir Benfro—nad ydynt yn ymdrin â hyn yn dda o gwbl, sut y gallwn sicrhau nad ydym yn neidio o'r badell ffrio i'r tân, ond i rywle llawer iawn gwell? Mae mor hawdd colli'r plant hyn. Rwyf wedi sôn am y darlun hwn wrth rai rhieni sydd â phlant ag anghenion dysgu ychwanegol, a'u pryder yw y byddent wedyn yn cael eu gadael ar drugaredd ysgolion, lle nad yw penaethiaid, neu athrawon, yn gyfarwydd â holl sbectrwm anghenion dysgu ychwanegol, ac na fyddent yn cael cystal gwasanaeth. Felly, mae'n fater o sut y gallwn gynnwys rhwyd ddiogelwch, os mynnwch, i sicrhau nad yw'r plant hynny'n dioddef hyd yn oed mwy o anfantais nag y maent eisoes.

I will make a few other points quickly, because I know that I need to get on. On improving accountability, I was sad to see—and I do not believe that I have spotted it in the report's 130 pages, but I could well be wrong—that Robert Hill does not recommend that Estyn should be a formally constituted body like the Wales Audit Office. I would call once again, Minister, for you to consider that, because it is so important that we have a thoroughly independent body to look at this enormous sea change that we are all trying to effect in education, because education belongs to us all, because our children belong to us all, as does their future.

Gwnaf rai pwyntiau eraill yn gyflym, gan fy mod yn gwybod bod angen imi symud ymlaen. O ran gwella atebolrwydd, roedd yn drist gweld—ac nid wyf yn credu fy mod wedi gweld hyn yn yr adroddiad 130 tudalen, ond mae'n bosibl fy mod yn anghywir—nad yw Robert Hill yn argymell y dylai Estyn fod yn gorff a gyfansoddir yn ffurfiol fel Swyddfa Archwilio Cymru. Byddwn yn galw unwaith eto, Weinidog, arnoch i ystyried hynny, oherwydd mae mor bwysig bod gennym gorff cwbl annibynnol i edrych ar y newid enfawr hwn yr ydym i gyd yn ceisio ei roi ar waith ym maes addysg, gan fod addysg yn perthyn i ni i gyd, gan fod ein plant yn perthyn i ni i gyd, fel y mae eu dyfodol.

In that portion of your statement, Minister, you talk about making school inspections less predictable. Forgive me if I steal some of Simon Thomas's thunder, but I remember a comment that he made in the Children and Young People Committee when he talked about things having changed, and that the framework had changed. Therefore, again, how can we ensure that, whatever goes forward, we have consistency, so that schools feel that they are being judged on a consistent basis, and that they are being made accountable on a consistent basis throughout Wales?

Yn y rhan honno och datganiad, Weinidog, rydych yn siarad am wneud arolygon ysgolion yn llai rhagweladwy. Maddeuwch imi os wyf yn dwyn rhai o glodydd Simon Thomas, ond rwyf yn cofio sylw a wnaeth yn y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wrth sôn bod pethau wedi newid, a bod y fframwaith wedi newid. Felly, unwaith eto, sut y gallwn sicrhau, beth bynnag a wnawn, bod gennym gysondeb, fel bod ysgolion yn teimlo eu bod yn cael eu barnu ar sail gyson, a'u bod yn cael eu gwneud yn atebol ar sail gyson ledled Cymru?

Under 'organising school improvement functions', you mentioned cutting the number of local education services by a third. I would be interested to understand how Robert Hill got to that figure. It ties in quite well with the number of authorities that we currently have in trouble. However, I want to make sure that we are doing this on a basis that reflects the needs of the local population. I have a little map here, Minister, which I prepared earlier, which has come out of Robert's report. It refers to the Welsh Government's public services agenda. There is an arrow that goes from the corner of my patch—and, indeed, Paul's patch—in Pembrokeshire, all the way up almost to the borders at the top here with England; that is a huge patch for one area. If the local education authorities were to be tied in with that whole public services delivery agenda, I wonder how we can ensure that true localism remains, that the voice of the student and the parent is heard, and that people feel that they own their school and their community. Schools are the hearts of so many communities, particularly in rural Wales—indeed, it is practically all that we have left that holds our communities together. We are loath to give them up to consortia, or groups, or federations, which are many steps away from where we are.

O dan 'trefnu swyddogaethau gwella ysgolion', soniasoch am dorri traean nifer y gwasanaethau addysg lleol. Byddai gennyf ddiddordeb mewn deall sut y cyrhaeddodd Robert Hill at y ffigur hwnnw. Mae'n cyd-fynd yn eithaf da â nifer yr awdurdodau sydd mewn trafferth ar hyn o bryd. Fodd bynnag, hoffwn wneud yn siŵr ein bod yn gwneud hyn ar sail sy'n adlewyrchu anghenion y boblogaeth leol. Mae gen i fap bach yma, Weinidog, a baratois yn gynharach, sydd wedi dod allan o adroddiad Robert. Mae'n cyfeirio at agenda gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Mae saeth yn mynd o gornel fy narn i—ac, yn wir, darn Paul—yn Sir Benfro, yr holl ffordd i fyny bron at y ffiniau ar y brig yma â Lloegr; mae hynny'n ddarn enfawr i un ardal. Pe byddai'r awdurdodau addysg lleol wedi'u cysylltu â'r agenda gyfan honno o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, rwyf yn meddwl tybed sut y gallwn sicrhau bod gwir leoliaeth yn parhau, bod llais y myfyriwr a'r rhiant yn cael ei glywed, a bod pobl yn teimlo eu bod yn berchen ar eu hysgol a'u cymuned. Mae ysgolion wrth wraidd cynifer o gymunedau, yn enwedig yng nghefn gwlad Cymru—yn wir, maent bron yr unig beth sydd gennym ar ôl sy'n dal ein cymunedau at ei gilydd. Rydym yn gyndyn i'w hildio i gonsortia, neu grwpiau, neu ffederasiynau, sydd sawl cam i ffwrdd o ble'r ydym ni ar hyn o bryd.

Robert Hill's report also mentions looking at tying schools into city regions, and into their sub-economic hubs. Again, for someone who is in deepest, darkest Pembrokeshire, I am not clear where my city region, or local economic hub, might be, but I would be interested to see how you might take that forward.

Mae adroddiad Robert Hill hefyd yn sôn am edrych ar glymu ysgolion i mewn i ddinas-ranbarthau, ac i'w canolbwynt is-economaidd. Unwaith eto, i rywun ym mherfeddion Sir Benfro, nid wyf yn siŵr ble y byddai fy ninas-ranbarth, na fy nghanolbwynt economaidd lleol, ond byddai gennyf ddiddordeb mewn gweld sut y gallech fwrw ymlaen â hynny.

I have other questions, but I can see that you might be getting slightly tetchy, Minister, and I would very much like to look forward to the next 12 weeks of being able to look at this in great detail. [Interruption.] The Minister was looking at his watch, so I do not want to test him too much. I have further questions, and I will come back to you during the consultation, Minister.

Mae gennyf gwestiynau eraill, ond gallaf weld eich bod o bosibl yn mynd ychydig yn bigog, Weinidog, a hoffwn yn fawr iawn allu edrych ymlaen at y 12 wythnos nesaf o allu edrych yn fanwl iawn ar hyn. [Torri ar draws.] Roedd y Gweinidog yn edrych ar ei oriawr, felly nid wyf am drethu ei amynedd yn ormodol. Mae gennyf fwy o gwestiynau, a dof yn ôl atoch yn ystod yr ymgynghoriad, Weinidog.

14:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister seems a picture of calm and tranquillity to me, and will now answer those very focused questions.

Mae'r Gweinidog yn edrych yn gwbl dawel a hamddenol i mi, a bydd nawr yn ateb y cwestiynau penodol iawn hynny.

14:39 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I believe that the Conservative spokesperson is being a little defensive about herself today. She described herself as an annoying Member when she was questioning the First Minister, and has now suggested that I might be getting tetchy about the length of time that she was taking, which was almost as long as my original statement. However, I very much welcome her contribution, and I am glad that she found her discussions with Robert Hill to be so useful. I am also glad that she felt that she had the opportunity to make a contribution to the exploration of options that he was looking into.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf yn credu bod llefarydd y Ceidwadwyr yn bod ychydig yn amddiffynnol amdani ei hun heddiw. Disgrifiodd ei hun fel Aelod plagus pan oedd hi'n holi'r Prif Weinidog, ac mae hi nawr wedi awgrymu fy mod i'n mynd ychydig yn bigog am faint o amser yr oedd hi'n ei gymryd, a oedd bron mor hir â fy natganiad gwreiddiol. Fodd bynnag, rwyf yn croesawu ei chyfraniad yn fawr iawn, ac rwyf yn falch ei bod wedi gweld ei thrafodaethau gyda Robert Hill mor ddefnyddiol. Rwyf hefyd yn falch ei bod yn teimlo ei bod wedi cael cyfle i gyfrannu at ei waith o archwilio'r dewisiadau yr oedd yn edrych arnynt.

On the specific points that she raised, I will not follow her 'Blue Peter' moment on the item that she had prepared earlier, although it then transpired that she had not prepared it at all because it had come from Robert's report. This is a moment of consultation and it is entirely valid for people to put forward their views as to the overall arrangements for public service delivery in the context of that consultation. As regards teaching and learning, we will happily learn from other systems, whether they are in Northern Ireland, Scotland, Finland or England. I know that there are schools in Wales that are working with academies in England to improve delivery. There is also great expertise within the comprehensive system in England, in those schools that have not been converted to academies. I welcome schools looking at what they see as the best-in-class, wherever they may find that.

O ran y pwyntiau penodol a gododd hi, ni wnaf ddilyn ei heiliad 'Blue Peter' ar yr eitem yr oedd wedi'i baratoi yn gynharach, er ei bod yn amlwg wedyn nad hi oedd wedi'i pharatoi o gwbl gan ei bod wedi dod o adroddiad Robert. Mae hwn yn gyfnod o ymgynghori ac mae'n gwbl ddilys i bobl roi eu barn am y trefniadau cyffredinol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng nghyd-destun yr ymgynghoriad hwnnw. O ran addysgu a dysgu, byddwn yn hapus i ddysgu oddi wrth systemau eraill, pa un a ydynt yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban, Y Ffindir neu yn Lloegr. Rwyf yn gwybod bod rhai ysgolion yng Nghymru'n cydweithio ag academïau yn Lloegr i wella eu darpariaeth. Ceir hefyd arbenigedd mawr o fewn y system ysgolion cyfun yn Lloegr, yn yr ysgolion hynny nad ydynt wedi cael eu trawsnewid i academïau. Mae croeso i ysgolion edrych ar y pethau gorau yn y maes yn eu tyb hwy, lle bynnag y maent yn dod o hyd iddynt.

In terms of the issue of the shortage of lead practitioners, I certainly agree with here. I think that there are proposals here to develop school leadership overall. There are proposals to build on what we have done in relation to lead practitioner schools. I made a speech in March where I touched on work in respect of leadership development boards, which has already been set out by Robert Hill in this report. This is a proposal on which we would want to move forward quickly, and issues are identified in his report around how we take that forward.

O ran y mater o brinder ymarferwyr arweiniol, rwyf yn sicr yn cytuno â hi. Credaf fod cynigion yma i ddatblygu arweinyddiaeth ysgolion yn gyffredinol. Ceir cynigion i adeiladu ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud o ran ysgolion sy'n ymarferwyr arweiniol. Cyflwynais araith ym mis Mawrth a oedd yn sôn am waith ynglŷn â byrddau datblygu arweinyddiaeth, ac mae Robert Hill eisoes wedi amlinellu hyn yn yr adroddiad hwn. Mae hwn yn gynnig yr hoffem symud ymlaen yn gyflym ag ef, ac mae ei adroddiad yn nodi materion ynghylch sut y byddwn yn bwrw ymlaen â hynny.

She asked a series of questions around additional learning needs—an issue for which I have a lot of sympathy. It is important to see Robert Hill's work alongside other work that we are undertaking in the department. She will be aware of our proposals in relation to a move from statementing to individual development plans; we will be legislating on that in due course. It is important that there is integrity in terms of the additional learning services on which people can count, but she is right also to identify some of the problems in the current system, not least in the local authority to which she referred.

Gofynnodd gyfres o gwestiynau am anghenion dysgu ychwanegol—mater y mae gennyf lawer o gydymdeimlad ag ef. Mae'n bwysig gweld gwaith Robert Hill ochr yn ochr â gwaith arall yr ydym yn ei wneud yn yr adran. Bydd hi'n ymwybodol o'n cynigion ynglŷn â symud oddi wrth ddatganiadau at gynlluniau datblygu unigol; byddwn yn deddfu am hynny maes o law. Mae'n bwysig sicrhau gonestrwydd o ran y gwasanaethau dysgu ychwanegol y gall pobl ddibynnu arnynt, ond mae hi'n iawn hefyd i nodi rhai o'r problemau yn y system bresennol, yn enwedig yn yr awdurdod lleol y cyfeiriodd hi ato.

As an inspectorate, Estyn is thoroughly independent. It has a track record in identifying what is needed within the system. Indeed, she and other opposition spokespeople here often rely on Estyn's findings. There has been more consistency in Estyn's reporting since the common inspection framework in 2010. It now relies less, for example, on lay practitioners, and I think that that overall framework has provided a lot more consistency. We are looking at the whole issue of the predictability of inspections and we have consulted on that. That is an area that has aroused great interest. In respect of local authorities, the proposal is there in relation to what might be done in the short term and in the context of the public service commission in the medium term. As I said, a consultation is ongoing and we are taking that forward.

Fel arolygiaeth, mae Estyn yn gwbl annibynnol. Mae'n sefydliad sydd â hanes o nodi'r hyn sydd ei angen o fewn y system. Yn wir, mae hi a llefarwyr y gwrthbleidiau eraill yma yn aml yn dibynnu ar ganfyddiadau Estyn. Mae adroddiadau Estyn wedi bod yn fwy cyson ers cyflwyno'r fframwaith arolygu cyffredin yn 2010. Mae bellach yn dibynnu llai, er enghraifft, ar ymarferwyr lleyg, a chredaf fod y fframwaith cyffredinol wedi darparu llawer mwy o gysondeb. Rydym yn edrych ar holl fater natur ragweladwy arolygiadau ac rydym wedi ymgynghori ar hynny. Mae hwnnw'n faes sydd wedi ennyn diddordeb mawr. O ran awdurdodau lleol, mae'r cynnig yno o ran yr hyn y gellid ei wneud yn y tymor byr ac yng nghyd-destun y comisiwn gwasanaethau cyhoeddus yn y tymor canolig. Fel y dywedais, mae ymgynghoriad yn mynd rhagddo ac rydym yn bwrw ymlaen â hynny.

14:43 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i'r Gweinidog am yr adroddiad ac i Robert Hill am drafod rhai o'i gasgliadau a'i ganfyddiadau â mi. Mae'n adroddiad cynhwysfawr. Roedd yn rhy hir o lawer i'w ddarllen cyn ymateb i ddatganiad y Gweinidog heddiw, ond, ar yr olwg gyntaf, mae'n adroddiad sy'n cynnig nifer o opsiynau diddorol a difyr iawn ar gyfer y ffordd ymlaen, ond mae hefyd yn ddogfen sy'n rhoi rhyw fath o adroddiad 'state of the nation'. Mae'n adroddiad sy'n asesu'r sefyllfa bresennol a sut rydym wedi cyrraedd y sefyllfa bresennol. Rwy'n synnu tipyn bach—nid yw'r Gweinidog fel arfer yn araf yn dod ymlaen, fel petai—nad oes mwy o gyfeiriad yn ei ddatganiad heddiw ynglŷn â'r ffordd y mae ef eisiau gweld pethau yn datblygu. Mae ei ddatganiad yn foel iawn o safbwynt rhestru'r holl opsiynau hyn, heb roi 'hint', hyd yn oed, o'r ffordd y byddai'r Gweinidog yn symud ymlaen. Mae hynny mor wahanol i'r hyn roedd yn ei ddweud pan sefydlodd y broses hon. Yn ôl yn yr hydref y llynedd, roedd yn dweud bod consortia yn gweithio'n dda; o fewn pythefnos, roedd wedi galw am yr ymchwiliad hwn; ac erbyn mis Ionawr, roedd yn dweud bod Robert Hill yn arwain y broses hon ac roedd yn dal i roi rhai awdurdodau lleol o dan y lach. Yn sydyn iawn, mae gennym 'sweetness and light', neu o leiaf llechen lân mewn perthynas â'r ffordd ymlaen.

I thank the Minister for the report and thank Robert Hill for discussing some of his findings and conclusions with me. It is a comprehensive report. It was far too lengthy to have read in full before responding to the Minister's statement today, but, at first sight, it is a report that offers a number of very interesting options for the way forward, but it is also a report that provides a state-of-the-nation overview. It assesses the current situation and how we have reached that position. I am a little surprised—the Minister is not usually shy in coming forward—that there is not more in the statement today on how he wants to see things developing. It is short on detail in terms of listing some of the options, and gives us no hint on how the Minister would want to move forward. That is so very different to what he said when he established this process. Last autumn, he was saying that the consortia were working well; within a fortnight, he had called for this inquiry; and by January, he had said that Robert Hill was to lead this process and he was still very critical of some local authorities. All of a sudden, we have sweetness and light, or at least a clean slate on the way forward.

Beth sy'n dod yn glir yw y bydd y broses hon, drwy symud naill ai tuag at ryw fath o drefn ranbarthol, neu, o bosibl—mae'n dal yn opsiwn yn ôl yr adroddiad, ar yr olwg gyntaf—tuag at ryw fath o system genedlaethol, yn broses hynod o boenus ac araf. Yn y cyfamser, nid oes tystiolaeth bod safonau ein hysgolion yn gwella, nac ychwaith dystiolaeth bod yr arweinyddiaeth y mae'r Gweinidog a ninnau yn cytuno y mae ei hangen ar ein hysgolion yn cael ei rhannu fel arfer da gystal ag y dylai.

What does become apparent is that this process, in moving towards either some sort of regional system, or, possibly—because it still seems to be an option, on my first reading of the report—some kind of national system, will be an extremely slow and painful process. In the meantime, there is no evidence that standards in our schools are improving, or evidence that the leadership that we and the Minister agree is needed in our schools is being shared as best practice as effectively as it should be.

Felly, yn absenoldeb unrhyw beth arall heddiw, hoffwn ddweud cwpl o bethau ynglŷn â'r ffordd y bydd Plaid Cymru yn ymateb i'r cyfnod ymgynghorol hwn. Rydym yn glir o'r farn bod angen cadw darpariaeth leol ac atebolrwydd lleol y tu fewn i unrhyw system newydd. Mae hynny yn hynod o bwysig o safbwynt yr hyn sydd newydd ei grybwyll, sef anghenion arbennig, ac mae hefyd yn bwysig o safbwynt yr iaith Gymraeg. Credwn y bydd hyn yn cael ei gyflawni naill ai drwy awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd neu drwy ryw fath o gyfundrefn ranbarthol. Beth sy'n hynod bwysig yw na ddylai fod gwahaniaeth yn y safonau a'r ddarpariaeth rhwng y consortia neu awdurdodau rhanbarthol, neu beth bynnag sydd gennych. Un peth sy'n glir o adroddiad Robert Hill, ar yr olwg gyntaf, yw bod gwahaniaeth rhwng yr hyn y mae rhai consortia yn meddwl yw eu gwaith, a'r hyn y mae consortia eraill yn meddwl yw eu gwaith. Ni fydd hynny'n gyrru gwelliant yn y system addysg. Felly, mae angen fframwaith cenedlaethol ar gyfer rhywbeth lleol i weithio ynddo. Rydym hefyd yn glir mai dyletswydd y Llywodraeth yw gyrru'r broses ymlaen ac, yn y pen draw, fod y cyfrifoldeb yn gorwedd gyda'r Gweinidog a'r Llywodraeth, beth bynnag yw methanniau awdurdodau lleol a rhai o'r consortia hyd yma.

Therefore, in the absence of anything else today, I would like to make a few points on the way in which Plaid Cymru will respond to this consultation period. We are clearly of the view that we need to retain local provision and local accountability within any new system. That is exceptionally important from the point of view of what has just been mentioned in terms of special needs, and from the point of view of the Welsh language. We believe that this will be achieved either through local authorities collaborating or through some kind of regional regime. What is exceptionally important is that there should be no differences in the provision and standards between the consortia or regional authorities, or whatever you might have. What becomes clear from Robert Hill's report, at first sight, is that there is a difference between what some consortia see as their responsibility and what others see as their responsibility. That will not drive improvement within our education system. So, we need a national framework within which some sort of local action will be able to work. We are also clear that there is a duty on Government to drive the process forward and, at the end of the day, the responsibility sits with the Minister and the Government, whatever the failings of local authorities and some of the consortia may be.

Rwy'n gobeithio na fyddwn yn gweld y 'mergers' y mae sôn amdanynt yn yr adroddiad hwn yn digwydd ar hap a damwain. Os ydym am weld awdurdodau addysg yng Nghymru yn dod at ei gilydd, mae eisiau gwneud hynny ar lefel cynllunio ac ar lefel strategol. Rydym wedi clywed y pwynt am weld rhywbeth, am unwaith, ar lefel Cymru go iawn. Dylid gwneud hyn mewn ffordd hollol strategol ac yn genedlaethol, yn hytrach na'r hyn yr ydym wedi ei weld—ac rwyf wedi rhybuddio yn erbyn y Gweinidog yn gwneud hyn—sef awdurdodau yn methu, a wedyn dweud, 'Fe wnawn ni ddodi'r awdurdod hynny gydag awdurdod arall'. Mae eisiau proses llawer mwy strategol.

I would hope that we will not see the mergers referred to in the report happening in an ad hoc manner. If we are to see mergers of education authorities in Wales, that needs to be done at a planned and strategic level. We have heard the point about seeing something, for once, at a truly all-Wales level. This needs to be done in an entirely strategic and co-ordinated national way, rather than what we have seen—and I have warned against the Minister moving in this direction—which is to see an authority fail and to then say, 'We will merge this authority with another authority. We need a far more strategic process.

Rydym hefyd o'r farn bod angen i unrhyw broses barhau i ganolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd, ac i gau'r bwlch rhwng plant amddifad a phlant eraill. Mae'n rhaid cau'r bwlch hynny yn ein system addysg fel rhan graidd o'r gwaith yn y maes hwn.

We are also of the opinion that any process needs to continue to focus on literacy and numeracy, and to close the gap between children from deprived backgrounds and others. We need to close the gap that exists in our education system as a core part of the work in this field.

Y peth olaf rwyf eisiau sôn amdano yw llywodraethwyr. Mae'n flin gennyf glywed na all Glyn Mathias barhau yn ei waith, ond mae cyfle yma, gydag adroddiad Robert Hill, i wneud rhywbeth cwbl newydd gyda llywodraethwyr. Mae'n bryd edrych eto ar y syniad o gael bwrdd llywodraethu i bob ysgol ac ystyried rhywbeth mwy lleol efallai, fel y byrddau ysgol yn yr Unol Daleithiau—rhywbeth sy'n gallu gweithio yn fwy lleol, gyda chonsortia, ac yn gallu rhoi atebolrwydd lleol a darpariaeth ranbarthol o fewn fframwaith cenedlaethol. Efallai gellid cael dilyniant o hynny.

My final point relates to governors. I am sorry to hear that Glyn Mathias is unable to continue with his work, but there is an opportunity here, with Robert Hill's report, to do something entirely new in terms of governors. It is time to look again at the idea of having a board of governors for every school and to perhaps have something more local, such as the school boards that you have in the United States—something that can work at a local level and collaborate with the consortia, to provide local accountability and regional provision within a national framework. Perhaps there is some sort of continuum that could be developed there.

Yn y pen draw, rydym am weld a fydd y gwaith hwn yn bwrw ymlaen, a fydd y gwaith hwn yn dod i fwcwl, ac a fydd rhywbeth wir yn newid erbyn diwedd y flwyddyn hon. Y pryder sydd gennym yw y caiff unrhyw newid yn y system hon ei ddal yn ôl gan y comisiwn gwasanaethau cyhoeddus y mae'r Llywodraeth wedi ei gyhoeddi ar wahân. Mae eisoes rywfaint o rwyfo yn ôl ar frwdfrydedd ac uchelgais y Gweinidog.

At the end of the day, we want to see whether this work is actually progressed, whether it is successful and whether anything will have really changed by the end of this year. Our concern is that any change in this system will be held back by the public service commission announced by the Government and which is separate from this work. There has already been some rowing back in terms of the Minister's enthusiasm and ambition.

14:49 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am glad that the Plaid Cymru spokesperson started by thanking Robert Hill and recognising that this is a comprehensive report. People need time to absorb it. As I said, there are 85 options for delivery, and that is why we will have a consultation. The ideas require engagement and we will give people the opportunity for that. The Plaid Cymru spokesperson suggested that my statement was short on detail; I find that hard to believe given that I outlined a whole series of recommended options within Robert Hill's report.

Rwyf yn falch bod llefarydd Plaid Cymru wedi dechrau drwy ddiolch i Robert Hill a chydnabod bod hwn yn adroddiad cynhwysfawr. Mae angen amser ar bobl i ymgyfarwyddo â'i gynnwys. Fel y dywedais, mae 85 o ddewisiadau ar gyfer cyflenwi, a dyna pam y byddwn yn cael ymgynghoriad. Mae'r syniadau'n galw am ymgysylltu a byddwn yn rhoi'r cyfle hwnnw i bobl. Awgrymodd llefarydd Plaid Cymru fod fy natganiad yn brin o fanylion; rwy'n ei chael hi'n anodd credu hynny ac ystyried fy mod wedi amlinellu cyfres gyfan o ddewisiadau a argymhellir yn adroddiad Robert Hill.

The Plaid Cymru spokesperson says that there is no evidence that things are improving. It is quite the contrary, actually—attendance is at record levels in both primary and secondary schools; we have started to close the gap with England in terms of the number of young people getting five good GCSEs; we have fewer young people leaving school without any qualifications; and 61 out of the 79 schools in bands 4 and 5 saw their results improve significantly last year. There are issues, as he says, around leadership. I think that we have some world-class school leaders in Wales, but the problem is that we do not have enough of them. That is borne out in the report that Robert has presented us with.

Mae llefarydd Plaid Cymru yn dweud nad oes dim tystiolaeth bod pethau'n gwella. Y gwrthwyneb sy'n wir, mewn gwirionedd—mae presenoldeb yn uwch nag erioed mewn ysgolion cynradd ac uwchradd; rydym wedi dechrau cau'r bwlch rhwng Cymru a Lloegr o ran nifer y bobl ifanc sy'n cael pump TGAU da; mae llai o'n pobl ifanc yn gadael yr ysgol heb ddim cymwysterau; a gwellodd canlyniadau 61 o'r 79 o ysgolion ym mandiau 4 a 5 yn sylweddol y llynedd. Ceir materion, fel y dywed, yn ymwneud ag arweinyddiaeth. Credaf fod gennym rai arweinyddion ysgolion o safon fyd-eang yng Nghymru, ond y broblem yw nad oes gennym ddigon ohonynt. Mae hynny'n cael ei gadarnhau yn yr adroddiad y mae Robert wedi ei gyflwyno inni.

In respect of different standards across the consortia, I can remember when we were originally discussing the establishment of consortia. I would, myself, have been more directive, but these are consortia, as I keep reminding people, of local authorities, and we are respecting localism in the approach we took to the development of the regional consortia. I am glad that the Plaid Cymru spokesperson now feels that there is a need for a national framework, and Robert Hill recommends that within his report.

O ran safonau gwahanol ar draws y consortia, gallaf gofio pan yr oeddem yn trafod sefydlu consortia am y tro cyntaf. Byddwn, fy hunan, wedi bod yn fwy cyfarwyddiadol, ond consortia o awdurdodau lleol yw'r rhain, fel yr wyf yn atgoffa pobl yn gyson, ac rydym yn parchu lleoliaeth yn y dull a gymerwyd gennym i ddatblygu'r consortia rhanbarthol. Rwyf yn falch bod llefarydd Plaid Cymru bellach yn teimlo bod angen fframwaith cenedlaethol, ac mae Robert Hill yn argymell hynny yn ei adroddiad.

In respect of local authority mergers, where local authorities are performing poorly, we will take action and we will take action swiftly. We will not await the result of the public services commission for that. I have listened to the contribution by the Plaid Cymru spokesperson, but I have no idea what his party thinks about Robert Hill's review.

O ran uno awdurdodau lleol, lle mae awdurdodau lleol yn perfformio'n wael, byddwn yn gweithredu a byddwn yn gweithredu'n gyflym. Ni fyddwn yn disgwyl am ganlyniad y comisiwn gwasanaethau cyhoeddus i wneud hynny. Rwyf wedi gwrando ar gyfraniad llefarydd Plaid Cymru, ond nid oes gennyf syniad beth yw barn ei blaid am adolygiad Robert Hill.

14:51 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We do not know what you think yet.

Nid ydym yn gwybod beth yw eich barn chi eto.

14:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

14:51 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for the statement. First of all, may I say that I am glad that the review, while focusing on structure, recognises that this is not an end in itself? Rather, this is about improved standards, social capital and engagement with the entire education community. We talk about structures, but it is people that we are talking about. We want the right people to work within the sector.

Diolch, Weinidog, am y datganiad. Yn gyntaf oll, a gaf fi ddweud fy mod yn falch bod yr adolygiad, er ei fod yn canolbwyntio ar strwythur, yn cydnabod nad yw hyn yn ddiwedd ynddo'i hun? Yn hytrach, mae hyn yn ymwneud â gwella safonau, cyfalaf cymdeithasol ac ymgysylltu â'r gymuned addysg gyfan. Rydym yn sôn am strwythurau, ond am bobl yr ydym yn sôn mewn gwirionedd. Rydym am i'r bobl iawn weithio o fewn y sector.

On leadership, Robert Hill quite rightly focused on developing good leadership, which, if successful, can contribute to improved educational standards. It can transform the individual as well as society as a whole. Good leaders are vital, whether they are on governing bodies, are headteachers, or, in fact, are senior managers. However, there is still a gender imbalance in the teaching profession in Wales according to the latest General Teaching Council for Wales's data. I will share some of the figures with you. The numbers of male teachers is still low, at 25%, but whereas 75% of teachers are women, at a senior level, just 57% are headteachers. Minister, do you agree that, if we are to maximise the pool of talent from which to draw such leaders, we need to make some progress on that? You are talking about creativity and innovation, so I would welcome your comments on that.

O ran arweinyddiaeth, roedd Robert Hill yn canolbwyntio'n gwbl briodol ar ddatblygu arweinyddiaeth dda, sydd, os yw'n llwyddiannus, yn gallu cyfrannu at safonau addysgol gwell. Mae'n gallu trawsnewid yr unigolyn yn ogystal â chymdeithas yn gyffredinol. Mae arweinyddion da yn hanfodol, pa un a ydynt ar gyrff llywodraethu, yn benaethiaid, neu, mewn gwirionedd, yn uwch reolwyr. Fodd bynnag, mae anghydbwysedd rhwng y rhywiau o hyd yn y proffesiwn addysgu yng Nghymru yn ôl data diweddaraf Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Rwyf am rannu rhai o'r ffigurau gyda chi. Mae nifer yr athrawon gwrywaidd yn dal yn isel, sef 25%, ond er bod 75% o athrawon yn fenywod, ar lefel uwch, dim ond 57% sy'n benaethiaid. Weinidog, a ydych chi'n cytuno, os ydym am gael y gorau o'r gronfa dalent yr ydym am dynnu arweinyddion o'r fath ohoni, bod angen i ni wneud rhywfaint o gynnydd yn hyn o beth? Rydych yn sôn am greadigrwydd ac arloesedd, felly byddwn yn croesawu eich sylwadau am hynny.

Secondly, many of our young people from our poorer communities lack the social capital needed to maximise their educational opportunities. I know that you have looked at this very carefully and are addressing this as much as you can. However, social capital is often added at a community level. For example, I know that great work is done in areas like mine within Communities First projects on the links between schools and the community. How can we ensure that any future model of delivery is able to build strong and responsive working relationships with these local groups? Support some of our poorer young people is a very important aspect.

Yn ail, nid oes gan lawer o'n pobl ifanc o'n cymunedau tlotach y cyfalaf cymdeithasol sydd ei angen i wneud y gorau o'u cyfleoedd addysgol. Gwn eich bod wedi edrych ar hyn yn ofalus iawn a'ch bod yn rhoi cymaint o sylw â phosibl i hyn. Fodd bynnag, caiff cyfalaf cymdeithasol yn aml ei ychwanegu ar lefel gymunedol. Er enghraifft, rwyf yn gwybod bod gwaith gwych yn cael ei wneud mewn ardaloedd fel fy un i mewn prosiectau Cymunedau yn Gyntaf ar y cysylltiadau rhwng ysgolion a'r gymuned. Sut y gallwn ni sicrhau bod unrhyw fodel cyflenwi yn y dyfodol yn gallu adeiladu perthynas waith gref ac ymatebol gyda'r grwpiau lleol hyn? Mae cefnogi rhai o'n pobl ifanc tlotach yn agwedd bwysig iawn.

Finally, with any process of change, however beneficial, there is always the danger that disruption can result, and that can be demotivating for the very groups you are trying to engage. What can the Welsh Government do to ensure that, in any time of transition— and of course there will be a transition, whatever the outcome and however beneficial—we value and involve those individuals from the education sector so that we do not lose them in the transition? This is important because even though it is quite a short time, for a young person who is receiving his or her education, it is a very important time.

Yn olaf, gydag unrhyw broses o newid, er pa mor fuddiol ydyw, mae perygl bob amser y gall darfu ar bethau, a gall hynny ddigalonni'r union grwpiau yr ydych yn ceisio ymgysylltu â hwy. Beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau, mewn unrhyw adeg o newid—ac wrth gwrs fe fydd newid, beth bynnag fydd y canlyniad a pha bynnag mor fuddiol a fydd—ein bod yn gwerthfawrogi ac yn cynnwys yr unigolion hynny o'r sector addysg i sicrhau nad ydym yn eu colli yn y cyfnod pontio? Mae hyn yn bwysig oherwydd er ei fod yn gyfnod eithaf byr, i berson ifanc sy'n cael ei addysg neu ei haddysg, mae'n gyfnod pwysig iawn.

That said, Minister, I thank you for the update and look forward to the consultation.

Wedi dweud hynny, Weinidog, rwyf yn diolch ichi am y wybodaeth ddiweddaraf ac yn edrych ymlaen at yr ymgynghoriad.

14:54 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My colleague the Member for Cynon Valley has identified a number of key issues in the report around the need to support the development of people, the need to demonstrate that we are reinforcing social capital and assisting people to gain the social capital that they need. I say to her immediately on that point that I have had initial discussions with the Minister for Communities and Tackling Poverty in relation to how we can work with the Communities First clusters on that area.

Mae fy nghydweithiwr, Aelod Cwm Cynon, wedi nodi nifer o faterion allweddol yn yr adroddiad o ran yr angen i gefnogi datblygiad pobl, yr angen i ddangos ein bod yn atgyfnerthu cyfalaf cymdeithasol a chynorthwyo pobl i gael y cyfalaf cymdeithasol sydd ei angen arnynt. Dywedaf wrthi ar unwaith ar y pwynt hwnnw fy mod wedi cael trafodaethau cychwynnol gyda'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi am sut y gallwn gydweithio â'r clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn y maes hwnnw.

She is absolutely right to highlight the issues of developing good leadership—whether it is headteachers, governors or senior managers, or teachers themselves. That is, as she will recognise, demonstrated throughout Robert Hill's report.

Mae hi'n gwbl gywir i dynnu sylw at y materion sy'n ymwneud â datblygu arweinyddiaeth dda—o ran penaethiaid, llywodraethwyr neu uwch reolwyr, neu o ran athrawon eu hunain. Fel y bydd hi'n cydnabod, dangosir hynny drwy adroddiad Robert Hill drwyddo draw.

In respect of the issues that she raises around gender imbalance, she is absolutely right: we need to recruit, for example, more male teachers into primary schools, and we need to look at the overall gender imbalance within headship as well. Those are both important points. They are not simple things to resolve overnight. As she will appreciate, these are things that have to be worked at.

O ran y materion y mae'n eu codi ynghylch anghydbwysedd rhwng y rhywiau, mae hi yn llygad ei lle: mae angen i ni recriwtio, er enghraifft, mwy o athrawon gwrywaidd mewn ysgolion cynradd, ac mae angen i ni edrych ar yr anghydbwysedd cyffredinol rhwng y rhywiau o fewn prifathrawiaeth hefyd. Mae'r rheini ill dau'n bwyntiau pwysig. Nid ydynt yn bethau syml i'w datrys dros nos. Fel y bydd yn ei werthfawrogi, mae angen gweithio ar y pethau hyn.

If there is to be change, it is important that we enable people to plan for that change. The worry that I have, however, is that we have given local authorities time to do things, we have given them time to establish consortia, for example, but we are still waiting for the north Wales consortium to get its act together, and they were the people who started first. Therefore, I appreciate what she says about the potential disruption you could have when change occurs, but in my experience, if you do not set firm deadlines, then people procrastinate and do not deliver, and we cannot have that where the future of our young people and their education is concerned.

Er mwyn sicrhau newid, mae'n bwysig ein bod yn galluogi pobl i gynllunio am y newid hwnnw. Y pryder sydd gennyf, fodd bynnag, yw ein bod wedi rhoi amser i awdurdodau lleol i wneud pethau, rydym wedi rhoi amser iddynt i sefydlu consortia, er enghraifft, ond rydym yn dal i aros am i gonsortiwm y gogledd roi trefn arnynt eu hunain, a hwy oedd y rhai cyntaf i ddechrau. Felly, rwyf yn gwerthfawrogi'r hyn y mae hi'n ei ddweud am y tarfu posibl a all ddigwydd yn ystod newid, ond yn fy mhrofiad i, os nad ydych yn gosod terfynau amser pendant, bydd pobl yn gohirio pethau ac ni fyddant yn cyflawni, ac mae hynny'n annerbyniol pan fo dyfodol ein pobl ifanc a'u haddysg yn y cwestiwn.

14:56

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Hoffwn hefyd ddiolch i Robert Hill am y ffordd y bu iddo ein trin fel llefarwyr o'r gwahanol bleidiau. Mae adroddiad manwl wedi cael ei dderbyn ac, fel dywedodd Simon Thomas, nid ydym eto wedi cael cyfle i'w ystyried yn fanwl. Fodd bynnag, wrth inni symud ymlaen, mae'n bwysig inni gymryd gyda ni gymaint o fyd llywodraeth leol a'r diwydiant addysg ag y medrwn. Nid wyf yn diystyru'r dasg sydd gan y Gweinidog. Felly, credaf ei fod yn iachach, i ryw raddau, fod y Gweinidog wedi dod atom heddiw ac wedi dweud bod cyfnod o ymgynghori am ryw 12 wythnos. Rwy'n siŵr y buasem wedi bod yn feirniadol iawn petai wedi dod yma a dweud, 'Dyma beth rwy'n mynnu sy'n mynd i ddigwydd'. Felly, rwy'n croesawu hynny, oherwydd mae gennym broblem sydd wedi bod yma am nifer fawr o flynyddoedd. Os ydym am ddelio â hyn a gwella cyrhaeddiad plant yng Nghymru, mae'n rhaid i ni gymryd cymaint ag y medrwn gyda ni.

I would like to thank Robert Hill for the way in which he treated the spokespeople from the various parties. A detailed report has been received and, as Simon Thomas said, we have not yet had an opportunity to consider it in detail. However, as we move forward, it is important that we take with us as many as possible from the world of local government and the education industry. I am not ignoring the task that is before the Minister. Therefore, I believe that it is healthier that the Minister has come before us today and said that there will be a consultation period of around 12 weeks. I am sure that we would have been very critical had he come here and said, 'This is what I insist will happen'. Therefore, I welcome that because this is a problem that has been with us for a number of years. If we are to deal with this and improve the attainment of children in Wales, we have to take as many as possible with us.

Derbyniaf yr hyn a ddywedoch ynglŷn â chynghorau lleol sy'n methu a bod yn rhaid hwyrach ystyried sut y byddwch yn dod â'r rheini at ei gilydd. Fodd bynnag, mae'r amserlen y mae Robert Hill wedi ei chynnig yn yr adroddiad yn creu problemau, oherwydd mae'n sôn am gwtogi ar nifer yr awdurdodau addysg lleol erbyn Ebrill 2014. Mae cyfnod yn awr o ymgynghori tan ganol Hydref. Felly, bydd cyfnod o ryw chwe mis o ddiwedd yr ymgynghoriad cyn i chi wneud y datganiad a chyn i'r trefniadau newydd ddod i rym.

I accept what you said about the fact that, if local councils fail, then perhaps it will be necessary for you to consider how you will bring those together. However, the timetable that Robert Hill has presented in the report creates problems, because he talks about cutting back on the number of local education authorities by April 2014. There is now a period of consultation until the middle of October. Therefore, there will be a period of some six months between the end of the consultation and your statement and these new arrangements coming into force.

Wedi dweud hynny, rydych yn iawn i ddweud bod problemau o ran cael consortiwm y gogledd yn weithredol. Ni fydd yn hollol weithredol tan fis Medi eleni. Rwy'n ymwybodol o uchelgais Mohammed Mehmet yn y lle cyntaf. Bu inni rwyfo yn ôl oherwydd nad oedd rhai cynghorau yn barod i fynd ymlaen gyda'r cynlluniau gwreiddiol. Fodd bynnag, bydd y consortiwm yn y gogledd, erbyn mis Ebrill 2014, wedi bod yn weithredol am gyfnod o ddim ond chwe mis. Felly mae dilema rhwng eich rhwystredigaeth chi o ran gwella a'r ffaith y bydd rhai strwythurau ddim ond wedi bod yn eu lle ers rhyw gyfnod. A ydych yn bwriadu, yn ystod y cyfnod hwnnw, edrych nid yn unig ar y ffiniau daearyddol y mae Robert Hill yn sôn amdanynt, ond ar rai o'r meysydd lle mae lles addysg, er esiampl, yn dal i dod o dan lywodraeth leol? Os ydym i gynyddu lefelau presenoldeb, rhaid ystyried a yw'n well cael y disgyblaethau hynny o fewn y consortia.

Having said that, you are right to say that there are problems in getting the north Wales consortium up and running. It will not be fully operational until September this year. I am aware of Mohammed Mehmet's original ambition. We rowed back because some councils were not ready to proceed with the original plans. However, the consortium in north Wales, by April 2014, will have been operational for a period of only six months. So there is a dilemma between your frustration with regard to seeing improvements and the fact that some structures will have been in place for only a short period of time. Do you intend, during that period, to look not only at geographical boundaries that Robert Hill refers to, but at some of those areas where education welfare, for example, are still within local authority control? If we are going to increase attendance levels, then we must consider whether it is better to have those disciplines within the consortia.

I ddelio â'r pwynt y mae'r lleill wedi cyfeirio ato o ran yr NPQH, mae Robert Hill yn dweud:

To deal with an issue to which the others have referred on the NPQH, Rober Hill says:

'there are still concerns about the robustness of the qualification which are underlined by there being no clear leadership progression pathway and no nationally commissioned development and training programmes'.

'mae pryderon am gadernid y cymhwyster sy'n cael eu tanlinellu gan y ffaith ein bod yn dal i fod heb lwybr dilyniant arweinyddiaeth clir na rhaglenni datblygu a hyfforddi wedi'u comisiynu'n genedlaethol'.

Those are short-term and medium-term objectives, but is there a need for us to start tackling those issues immediately? There is also reference to continuing professional development, and he says that, in almost every authority, there is too much concentration on training courses and too little on improving classroom practice.

Amcanion tymor byr a thymor canolig yw'r rheini, ond a oes angen inni ddechrau mynd i'r afael â'r materion hynny ar unwaith? Ceir cyfeiriad hefyd at ddatblygiad proffesiynol parhaus, ac mae'n dweud, ym mhob awdurdod bron, bod gormod o ganolbwyntio ar gyrsiau hyfforddi a dim digon ar wella arferion yn yr ystafell ddosbarth.

There is a debate that we need to have here as well, because I do not understand fully whether he is suggesting that we retain education within local government, or whether we move the boundaries and look at a situation where there is a much greater degree of ministerial directives from the centre. That is a debate that needs to take place within the whole issue of public services in Wales.

Mae angen i ni gael dadl yma hefyd, gan nad wyf yn deall yn llawn pa un a yw ef yn awgrymu ein bod yn cadw addysg o fewn llywodraeth leol, ynteu a ddylem symud y ffiniau ac edrych ar sefyllfa lle ceir llawer mwy o gyfarwyddebau gweinidogol o'r canol. Mae honno'n ddadl y mae angen ei chynnal o fewn gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol yng Nghymru.

I was also saddened to hear of Glyn Mathias' illness, and I trust that his condition will improve. Does that mean that the timetable for that review will be set back? I know that you said that you will be looking at the terms of reference for the group once again, but there are real weakness in the system—I speak as a school governor. The report also says that, in the past in Wales, schools have relied too much on local education authorities calling in school improvement, whereas, in reality, those schools that are performing best have some kind of capacity within the school system.

Roeddwn hefyd yn drist i glywed am salwch Glyn Mathias, a hyderaf y bydd ei gyflwr yn gwella. A yw hynny'n golygu y caiff amserlen yr adolygiad hwnnw ei hymestyn? Rwyf yn gwybod eich bod wedi dweud y byddwch yn edrych ar gylch gorchwyl y grŵp unwaith eto, ond mae gwendid go iawn yn y system—rwyf yn siarad fel llywodraethwr ysgol. Mae'r adroddiad hefyd yn dweud bod ysgolion yng Nghymru, yn y gorffennol, wedi dibynnu gormod ar awdurdodau addysg lleol i wella ysgolion, ond, mewn gwirionedd, mae gan yr ysgolion sy'n perfformio orau ryw fath o allu i wneud hynny o fewn y system ysgolion.

It is an interesting document, which I am sure will keep us amused for many months to come.

Mae'n ddogfen ddiddorol, ac rwyf yn siŵr y bydd ein cadw'n ddiddig am fisoedd lawer i ddod.

15:02 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I always want to keep the Member amused, and I am glad that he found the report interesting. I am also glad that he welcomed the consultation. It is important. It is a rich report with a lot of material. There are 85 significant options, and they need proper consideration and absorption by all in the education system. I thank him for his welcome for Robert Hill's work. If he is willing to try to help build a consensus around the report, I am open to that, which is why we want to have the consultation.

Rwyf bob amser yn awyddus i gadw'r Aelod yn ddiddig, ac rwyf yn falch ei fod y gweld yr adroddiad yn ddiddorol. Rwyf hefyd yn falch ei fod wedi croesawu'r ymgynghoriad. Mae'n bwysig. Mae'n adroddiad cyfoethog sy'n cynnwys llawer o ddeunydd. Mae 85 o ddewisiadau arwyddocaol, ac mae angen i bawb yn y system addysg eu hystyried yn briodol ac ymgyfarwyddo â'u cynnwys. Diolch iddo am ei groeso i waith Robert Hill. Os yw'n fodlon ceisio helpu i adeiladu consenswS o gwmpas yr adroddiad, rwyf yn agored i hynny, a dyna pam yr hoffem gael yr ymgynghoriad.

It is important to understand what is being said in respect of different levels of responsibility within the education system, because you can argue that Robert Hill is suggesting that certain functions should lie with schools, federations or hard clusters of schools, and that perhaps their responsibilities might be widened where we see successful schools. He is suggesting that certain responsibilities should only lie at the consortia level, such as school improvement, and that that should be absolutely clear with local authorities, which have in place clear responsibilities around that. So, it does a great deal to help us to understand better where the balance of responsibilities within the system should lie. There is an issue there raised around whether education and welfare services might lie, for example, with federations or hard clusters of schools.

Mae'n bwysig deall yr hyn sy'n cael ei ddweud am wahanol lefelau o gyfrifoldeb o fewn y system addysg, oherwydd gallwch ddadlau bod Robert Hill yn awgrymu y dylid rhoi swyddogaethau penodol i ysgolion, ffederasiynau neu glystyrau caled o ysgolion, ac efallai y gellid ehangu'r cyfrifoldebau hyn pan fydd ysgolion yn llwyddiannus. Mae'n awgrymu mai dim ond rhai cyfrifoldebau penodol y dylid eu rhoi i gonsortia, megis gwella ysgolion, ac y dylai hynny fod yn hollol glir i awdurdodau lleol, sydd â chyfrifoldebau clir yn hynny o beth. Felly, mae'n gwneud llawer iawn i'n helpu i ddeall yn well ble y dylai'r cydbwysedd cyfrifoldebau fod o fewn y system. Mae problem yn hynny o beth a godwyd ynghylch pa un ai ffederasiynau ynteu clystyrau caled o ysgolion a ddylai fod yn gyfrifol am wasanaethau addysg a lles, er enghraifft.

He referred to attendance. Attendance has improved, and I think that that needs to be recognised.

Cyfeiriodd at bresenoldeb. Mae presenoldeb wedi gwella, a chredaf fod angen cydnabod hynny.

In respect of the consortia, I have pretty much lost patience with the north Wales consortium. It was the first group of local authorities to start discussing establishing a consortium. I attended a meeting there with the then Minister for local government back in April 2010. Indeed, the Member may well have been there in his capacity as the then leader of Wrexham County Borough Council, so he probably remembers that as well. If he was not there, the chief executive at the time was. Either they make that consortium work, or we will make it work for them. They need to understand that. I really have lost patience. We cannot go on in this way.

O ran y consortia, rwyf ar fin colli amynedd gyda chonsortiwm y gogledd. Hwn oedd y grŵp cyntaf o awdurdodau lleol i ddechrau trafod sefydlu consortiwm. Bûm mewn cyfarfod yno gyda'r Gweinidog llywodraeth leol yn ôl ym mis Ebrill 2010. Yn wir, mae'n ddigon posibl y bydd yr Aelod wedi bod yno yn rhinwedd ei swydd fel arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar y pryd, felly mae'n debyg y bydd ef hefyd yn cofio hynny. Os nad oedd ef yno, roedd y prif weithredwr ar y pryd yno. Naill ai mae'n rhaid iddyn nhw wneud i'r consortiwm hwnnw weithio, neu mi fyddwn ni'n gwneud iddo weithio ar eu rhan. Mae angen iddynt ddeall hynny. Rwyf wir wedi colli amynedd. Ni allwn fynd ymlaen fel hyn.

15:04 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I, too, look forward to reading this 138 page report with its 85 recommendations. Schools leaders in my constituency have expressed several concerns about the current situation around the regional consortia, which have been unable to produce data that are up to date and accurate so that system leaders can do their job, and about the lack of challenge for schools between Estyn inspections. This is in contrast to the situation in England, where Ofsted visits every three years; in Wales, we normally have visits every six years. There is an anxiety that schools might rest on their laurels during that interim period.

Rwyf finnau, hefyd, yn edrych ymlaen at ddarllen yr adroddiad 138 tudalen gyda'i 85 o argymhellion. Mae arweinyddion ysgolion yn fy etholaeth i wedi mynegi llawer o bryderon am sefyllfa bresennol y consortia rhanbarthol, sydd wedi methu â chynhyrchu data sydd yn gyfoes ac yn gywir fel y gall arweinyddion system wneud eu gwaith, ac am y diffyg her i ysgolion rhwng arolygiadau Estyn. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr, lle mae Ofsted yn ymweld bob tair blynedd; yng Nghymru, byddwn fel arfer yn cael ymweliadau bob chwe blynedd. Mae pryder y gallai ysgolion fod yn gorffwys ar eu rhwyfau yn ystod y cyfnod rhwng ymweliadau.

Also, I am surprised at the shortage of examples of professional development opportunities being delivered across schools, so that schools can learn from each other's best practice. That should not be too difficult to organise, in terms of getting in-service training days set, so that either families of schools or geographical sets of schools can get together and share the expertise of, for example, the best mathematics or literacy professional in the country.

Rwyf hefyd yn synnu at y prinder o ran enghreifftiau o gyfleoedd datblygu proffesiynol sy'n cael eu cyflwyno ar draws ysgolion, fel y gall ysgolion ddysgu oddi wrth arfer gorau ei gilydd. Ni ddylai hynny fod yn rhy anodd ei drefnu, o ran pennu diwrnodau hyfforddiant mewn swydd, fel y gall naill ai deuluoedd o ysgolion neu setiau daearyddol o ysgolion ddod at ei gilydd a rhannu arbenigedd, er enghraifft, y gweithiwr proffesiynol gorau yn y wlad ym maes mathemateg neu lythrennedd.

I very much look forward to ensuring that two of the options that you have mentioned are implemented. One is that regional consortia and local authorities have formal agreements regarding the exercise of their respective responsibilities when schools get in to difficulties. I cannot imagine the circumstances under which you would not need to have that, and I would like to hear the argument against it. The second is on standard governance structures across regional consortia, which would enable us to see who is responsible when things are not working in the way that we expect them to.

Rwyf yn edrych ymlaen yn fawr at sicrhau bod dau o'r dewisiadau yr ydych wedi'u crybwyll yn cael eu gweithredu. Un yw bod consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn ffurfio cytundebau ffurfiol ynghylch arfer eu priod gyfrifoldebau pan aiff ysgolion i anawsterau. Ni allaf ddychmygu amgylchiadau lle na byddai angen hynny arnoch, a hoffwn glywed y ddadl yn ei erbyn. Yr ail yw'r un yn ymwneud â strwythurau llywodraethu safonol ar draws consortia rhanbarthol, a fyddai'n ein galluogi i weld pwy sy'n gyfrifol pan nad yw pethau'n gweithio fel y byddem yn disgwyl iddynt weithio.

So, I very much welcome the 12-week consultation period, because that will enable us to build consensus among all the different stakeholders, on whom we must rely to take forward the improvement that we want to see in all our schools. It is not something that is going to be done by individual leaders; people across Wales need to be engaged in this, including school governors.

Felly, croesawaf y cyfnod ymgynghori 12-wythnos yn fawr iawn, oherwydd bydd yn ein galluogi i adeiladu consensws ymysg yr holl wahanol randdeiliaid, y mae'n rhaid i ni ddibynnu arnynt i fwrw ymlaen â'r gwelliant yr ydym eisiau ei weld yn ein holl ysgolion. Nid yw'n rhywbeth sydd yn mynd i gael ei wneud gan arweinyddion unigol; mae angen i bobl ledled Cymru ymgysylltu â hyn, gan gynnwys llywodraethwyr ysgolion.

15:07

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank my colleague the Member for Cardiff Central for that contribution. I am glad that she has picked out two of the important recommendations around the balance of responsibility between local authorities and consortia—the need for consistent governance structures within the consortia and the issue of who takes responsibility in terms of school improvement. Those issues are important. In terms of schools' experience of consortia, at the end of the day, these remain consortia of local authorities. So, if they cannot get the data, that is, I suspect, down to a breakdown between the local authority and the consortia. That is something that needs to be addressed by the local authorities. They own these consortia; in some cases they own them legally, through a structure, and in some cases they have ownership in kind, because they have come together to work in that way.

Diolch i fy nghydweithiwr, Aelod Canol Caerdydd, am y cyfraniad yna. Rwyf yn falch ei bod wedi dewis dau o'r argymhellion pwysig yn ymwneud â chydbwysedd cyfrifoldeb rhwng awdurdodau lleol a chonsortia—yr angen am strwythurau llywodraethu cyson o fewn y consortia a'r mater o bwy sy'n cymryd cyfrifoldeb am wella ysgolion. Mae'r materion hynny yn bwysig. O ran profiad ysgolion o gonsortia, yn y pen draw, consortia o awdurdodau lleol fydd y rhain o hyd. Felly, os na allant gael y data, bydd hynny, rwyf yn amau, oherwydd diffyg rhwng yr awdurdod lleol a'r consortia. Mae hynny'n rhywbeth y mae angen i'r awdurdodau lleol roi sylw iddo. Hwy sy'n berchen ar y consortia hyn; mewn rhai achosion, maent yn berchen arnynt yn gyfreithiol, drwy strwythur, ac mewn rhai achosion maent yn berchen arnynt mewn ffordd arall, gan eu bod wedi dod at ei gilydd i weithio yn y ffordd honno.

In respect of challenge between Estyn inspections, that is the role of local authorities. It has been their role for years. We know that, unfortunately, very few local authorities have used their powers of intervention, until this last couple of years, when it has been pointed out to them that perhaps they ought to be using them. We have consulted on the issue of unexpected inspections—if I can put it like that—and I think that there will be changes in that way.

O ran her rhwng arolygiadau Estyn, swyddogaeth awdurdodau lleol yw hynny. Bu'n swyddogaeth iddynt hwy ers blynyddoedd. Rydym yn gwybod, yn anffodus, mai ychydig iawn o awdurdodau lleol sydd wedi defnyddio eu pwerau ymyrryd, tan yr ychydig flynyddoedd diwethaf, pan dynnwyd eu sylw at y ffaith ei bod yn bosibl y dylent fod yn eu defnyddio. Rydym wedi ymgynghori am fater arolygon annisgwyl—os caf eu galw'n hynny—ac rwyf yn credu y bydd newidiadau yn hynny o beth.

I very much agree with her about the need to learn from best practice. In some places, that is happening. In some places, the co-ordination of INSET days, as she suggested, between a secondary school and the primaries in its cluster, has happened. Good work goes on in terms of, say, sharing the experience of secondary mathematics teaching with the primaries in that cluster. So, we know that that is happening. It is not happening sufficiently across Wales, but we are taking steps to help improve that, not least through the online resources that we have developed and the opportunity for people to work collaboratively in that way.

Cytunaf yn llwyr â hi am yr angen i ddysgu oddi wrth arfer gorau. Mewn rhai mannau, mae hynny'n digwydd. Mewn rhai mannau, mae cyd-drefnu diwrnodau HMS, fel yr awgrymodd hi, rhwng ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd yn ei chlwstwr, wedi digwydd. Mae gwaith da yn cael ei wneud o ran, er enghraifft, rhannu profiadau addysgu mathemateg uwchradd gydag ysgolion cynradd yn y clwstwr hwnnw. Felly, rydym yn gwybod bod hynny'n digwydd. Nid oes digon ohono'n digwydd ledled Cymru, ond rydym yn cymryd camau i helpu i wella hynny, yn bennaf drwy gyfrwng yr adnoddau ar-lein yr ydym wedi'u datblygu a'r cyfle i bobl i gydweithio yn y ffordd honno.

15:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

15:09

# Datganiad: Strategaeth Pysgodfeydd a Morol Cymru

# Statement: The Wales Marine and Fisheries Strategy

Senedd.tv Fideo Video

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

In March 2012, I gave an oral statement, as Deputy Minister, in which I committed to updating our strategic approach to fisheries governance. In March this year, after becoming the Minister for Natural Resources and Food, I recognised the importance of developing fisheries and marine policy together and created a single division in the Welsh Government dealing with marine policy and fisheries. The new team is already in place and is working on a comprehensive marine and fisheries strategic action plan for Wales. This will be set in the context of my vision for clean, healthy, safe, productive and biologically diverse seas. I plan to present this in November. I am also grateful to the Environment and Sustainability Committee for its recommendations following the inquiry on marine policy, which has helped shape my approach.

Ym mis Mawrth 2012, rhoddais ddatganiad llafar, fel Dirprwy Weinidog, lle'r ymrwymais i ddiweddaru ein hagwedd strategol at reoli pysgodfeydd. Ym mis Mawrth eleni, ar ôl dod yn Weinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, cydnabûm bwysigrwydd datblygu polisi morol a physgodfeydd gyda'i gilydd a chreais un is-adran yn Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â physgodfeydd a pholisi morol. Mae'r tîm newydd eisoes yn ei le ac yn gweithio ar gynllun gweithredu strategol cynhwysfawr ar gyfer y môr a physgodfeydd yng Nghymru. Caiff hwn ei osod yng nghyd-destun fy ngweledigaeth am foroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol. Rwyf yn bwriadu cyflwyno hwn ym mis Tachwedd. Rwyf yn ddiolchgar hefyd i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd am ei argymhellion yn dilyn yr ymchwiliad ar bolisi morol, sydd wedi helpu i lunio fy ymdriniaeth.

Deputy Presiding Officer, today, I want to explain some of the key thinking that will shape that strategic action plan. More detail is set out in a supporting document, along with some specific action points for the next six months. Let me make clear that I have a positive and dynamic vision for our marine and coastal environment. The challenge is creating the balance between the need to avoid activity that harms our environment and maximising the value of activities that we can undertake sustainably. I want us to recognise the sea as a living resource that needs careful management, with significant sustainable economic potential. I want us to learn from our neighbours in Ireland and work with them where useful and possible. I want Wales to be ambitious to deliver sustainable economic growth and jobs around our coasts.

Heddiw, Ddirprwy Lywydd, rwyf am egluro rhai o'r syniadau allweddol a fydd yn dylanwadu ar ffurf y cynllun gweithredu strategol hwnnw. Mae rhagor o fanylion wedi'u nodi mewn dogfen ategol, ynghyd â rhai pwyntiau gweithredu penodol ar gyfer y chwe mis nesaf. Gadewch imi ei gwneud yn glir fod gennyf weledigaeth gadarnhaol a deinamig ar gyfer ein hamgylchedd morol ac arfordirol. Yr her yw creu cydbwysedd rhwng yr angen i osgoi gweithgareddau sy'n niweidio ein hamgylchedd a manteisio i'r eithaf ar werth y gweithgareddau y gallwn ymgymryd â hwy mewn modd cynaliadwy. Rwyf am inni gydnabod bod y môr yn adnodd byw y mae angen ei reoli'n ofalus, a bod ganddo botensial economaidd cynaliadwy sylweddol. Rwyf am inni ddysgu gan ein cymdogion yn Iwerddon a chydweithio â hwy lle bynnag y bo'n ddefnyddiol ac yn bosibl. Rwyf am i Gymru fod yn uchelgeisiol er mwyn cyflawni twf economaidd cynaliadwy a swyddi o amgylch ein harfordiroedd.

Within the Welsh Government, I want to develop an integrated approach to policy-making for our seas and coasts. This will need to include marine management and fisheries, and marine energy, tourism, transport, social inclusion and more. To achieve this, I intend to have a joint Welsh national marine plan for inshore and offshore areas in place by the end of 2015. This will be a basis for long-term prosperity and sustainability, to respect our environment and to allow enjoyment of our marine area. To begin the planning process, I intend to publish the statement of public participation for those plans later this year.

O fewn Llywodraeth Cymru, rwyf yn awyddus i ddatblygu dull integredig o lunio polisïau ar gyfer ein moroedd a'n harfordiroedd. Bydd angen i hyn gynnwys rheoli amgylchedd y môr a physgodfeydd, ac ynni'r môr, twristiaeth, trafnidiaeth, cynhwysiant cymdeithasol a mwy. Er mwyn cyflawni hyn, rwyf yn bwriadu sefydlu cynllun morol cenedlaethol ar gyfer y glannau a'r môr ar y cyd i Gymru erbyn diwedd 2015. Bydd hwn yn sail i ffyniant a chynaliadwyedd hirdymor, er mwyn parchu ein hamgylchedd a chaniatáu pobl i fwynhau ein hardal forol. I gychwyn y broses gynllunio, rwyf yn bwriadu cyhoeddi datganiad cyfranogiad y cyhoedd ar gyfer y cynlluniau hynny yn nes ymlaen eleni.

Our plans must be based on a healthy marine environment. The marine strategy framework directive provides the fundamental building blocks for an ecosystem approach and commits all member states to achieve good environmental status by 2020. I want this to be a positive process and to balance achieving that status with facilitating sustainable use.

Rhaid i'n cynlluniau fod yn seiliedig ar amgylchedd morol iach. Mae cyfarwyddeb fframwaith y strategaeth forol yn darparu'r blociau adeiladu sylfaenol ar gyfer dull rheoli ar lefel yr ecosystem ac yn ymrwymo pob aelod-wladwriaeth i gyflawni statws amgylcheddol da erbyn 2020. Rwyf am i hon fod yn broses gadarnhaol a hoffwn sicrhau cydbwysedd rhwng cyflawni'r statws hwnnw a hwyluso defnydd cynaliadwy.

We have an obligation for Wales to contribute to an ecologically coherent network of marine protected areas in the United Kingdom by the end of 2016. Thirty-six per cent of Welsh seas are already protected by 125 different marine protected areas. Over the last year, we have been considering possible marine conservation zones in Wales. I thank the marine conservation zone task and finish team for its report, which I am considering. I will update you on my intentions on this matter before the summer recess.

Mae gennym ddyletswydd i Gymru i gyfrannu at rwydwaith o ardaloedd morol gwarchodedig sy'n ystyrlon yn ecolegol yn y Deyrnas Unedig erbyn diwedd 2016. Mae tri deg chwech y cant o foroedd Cymru wedi'u diogelu eisoes gan 125 o wahanol ardaloedd morol gwarchodedig. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn ystyried parthau cadwraeth morol posibl yng Nghymru. Diolch i dîm gorchwyl a gorffen y parthau cadwraeth morol am ei adroddiad; rwyf wrthi'n ei ystyried. Rhoddaf y wybodaeth ddiweddaraf ichi am fy mwriadau yn hyn o beth cyn toriad yr haf.

I noted the thoughtful response by the fishing industry to the marine conservation zones consultation, called 'Striking the Balance'. I share this vision for the fishing industry and I want to work with it over the next few years to develop co-management arrangements to deliver a healthy and productive marine environment. This is a challenge to Government and many stakeholders.

Nodais yr ymateb ystyriol gan y diwydiant pysgota i'r ymgynghoriad am y parthau cadwraeth morol, dan y teitl 'Striking the Balance'. Rwyf yn rhannu'r weledigaeth hon ar gyfer y diwydiant pysgota a hoffwn gydweithio â hwy dros y blynyddoedd nesaf i ddatblygu trefniadau cydreoli er mwyn sicrhau amgylchedd morol iach a chynhyrchiol. Mae hon yn her i'r Llywodraeth ac i lawer o randdeiliaid.

My themes for this vision are: better evidence and understanding; sustainable, local, shared management; and increased profitability. We need to understand the ecosystem within which our fisheries operate, as well as their economic, social and cultural importance and potential. We need an agreed, robust method for managing designated sites and a move towards protection based on an ecosystem approach. Where appropriate, I want us to recognise responsible fishing as legitimate human activity in that ecosystem, and for the industry to continue to support it. We also need to recognise the importance of our recreational fisheries, both freshwater and marine. The Welsh Government will work with those anglers to use their knowledge and to understand better the economic value of this activity.

Fy themâu ar gyfer y weledigaeth hon yw: gwell tystiolaeth a dealltwriaeth; trefniadau rheoli cynaliadwy, lleol, ar y cyd; a lefelau proffidioldeb uwch. Mae angen inni ddeall yr ecosystem lle mae ein pysgodfeydd yn gweithredu, yn ogystal â'u pwysigrwydd a'u potensial economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae arnom angen dull cadarn y cytunwyd arno i reoli safleoedd dynodedig a symud tuag at warchod yn seiliedig ar ddull rheoli ar lefel yr ecosystem. Lle y bo'n briodol, hoffwn inni gydnabod bod pysgota cyfrifol yn weithgaredd dynol dilys yn yr ecosystem, a hoffwn i'r diwydiant barhau i'w gefnogi. Mae angen inni hefyd gydnabod pwysigrwydd ein pysgodfeydd hamdden, mewn dŵr croyw ac ar y môr. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â'r pysgotwyr hynny i ddefnyddio eu gwybodaeth ac i gael gwell dealltwriaeth o werth economaidd y gweithgaredd hwn.

I want us to fish at sustainable levels, using knowledge and expertise as well as scientific evidence, and, where the science provides for it, to aim for maximum sustainable yield fishing levels. I also want our intertidal fisheries, such as cockle-gathering, to be better governed and regulated, based on scientific evidence.

Rwyf am inni bysgota ar lefelau cynaliadwy, gan ddefnyddio gwybodaeth ac arbenigedd yn ogystal â thystiolaeth wyddonol, ac, os yw'r wyddoniaeth yn caniatáu, anelu at bysgota ar y lefel sy'n rhoi'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf posibl. Rwyf hefyd am i'n pysgodfeydd rhynglanw, megis casglu cocos, gael eu rheoli a'u rheoleiddio'n well, yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol.

I encourage the fishing industry to focus more on improving profitability. I want fishermen to collaborate more with each other and with merchants, processors and retailers to retain more value in the Welsh economy. In addition, where a fisherman identifies a potential new fishery, I want us as a Government to adopt a fast-track process, based on a better evidence framework, to enable it where possible. I see the significant potential for developing aquaculture as part of the new EU common fisheries policy, using our expertise and experience from our processes and universities.

Rwyf yn annog y diwydiant pysgota i ganolbwyntio mwy ar ddod yn fwy proffidiol. Hoffwn i bysgotwyr gydweithio mwy gyda'i gilydd a chyda masnachwyr, proseswyr a manwerthwyr i gadw mwy o werth yn economi Cymru. Hefyd, lle mae pysgotwr yn nodi pysgodfa newydd bosibl, rwyf am i ni fel Llywodraeth fabwysiadu proses garlam, yn seiliedig ar well fframwaith tystiolaeth, er mwyn galluogi hynny lle y bo modd. Rwyf yn gweld y potensial sylweddol i ddatblygu dyframaeth fel rhan o bolisi pysgodfeydd cyffredin newydd yr UE, gan ddefnyddio ein harbenigedd a'n profiad o'n prosesau a'n prifysgolion.

That new CFP should come into force in January next year and will provide challenging opportunities for us all. It is not perfect, but it is a positive framework for us to work within. In particular, I want Wales to lead on the development of more regionalised regulation in our waters, working with the other administrations around the Irish sea and the other countries fishing there. The new European maritime and fisheries fund will be targeted at only the projects that deliver our strategic aims for marine and fisheries governance.

Dylai'r polisi pysgodfeydd cyffredin newydd hwnnw ddod i rym ym mis Ionawr y flwyddyn nesaf a bydd yn cyflwyno cyfleoedd heriol inni i gyd. Nid yw'n berffaith, ond mae'n fframwaith cadarnhaol inni weithio oddi mewn iddo. Yn benodol, rwyf am i Gymru arwain y ffordd o ran datblygu trefn reoleiddio fwy rhanbarthol yn ein dyfroedd, gan gydweithio â'r gweinyddiaethau eraill o gwmpas môr Iwerddon a'r gwledydd eraill sy'n pysgota yno. Dim ond at brosiectau sy'n cyflawni ein nodau strategol ar gyfer llywodraethu'r môr a physgodfeydd y caiff cronfa'r môr a physgodfeydd newydd Ewrop ei thargedu.

Our ambitious visions should be shared ones. I want stakeholders to work with Government to develop actions to achieve our vision. It is a joint project with the fishing industry and other marine users. I want their views to allow us to develop the strategic action plan in the coming months. Once in place, I want it to be a living framework that evolves in response to views and as our knowledge and understanding increase. I undertake to update Members formally every six months on progress. I trust that you will support me in aiming to deliver this ambitious vision for our marine environment and our fisheries.

Dylai ein gweledigaethau uchelgeisiol fod yn rhai a rennir. Rwyf am i randdeiliaid weithio gyda'r Llywodraeth i ddatblygu camau gweithredu i gyflawni ein gweledigaeth. Mae'n brosiect ar y cyd â'r diwydiant pysgota a defnyddwyr eraill y môr. Hoffwn gael eu barn er mwyn ein galluogi i ddatblygu'r cynllun gweithredu strategol yn y misoedd i ddod. Unwaith y bydd yn ei le, hoffwn iddo fod yn fframwaith byw sy'n esblygu wrth ymateb i farn ac wrth i'n gwybodaeth a'n dealltwriaeth gynyddu. Rwyf yn ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ffurfiol i'r Aelodau bob chwe mis. Hyderaf y byddwch yn cefnogi fy ymdrechion i wireddu'r weledigaeth uchelgeisiol hon ar gyfer ein hamgylchedd morol a'n pysgodfeydd.

15:16

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have eight Members who wish to be called and, given the time available and, I fear, the state of the Minister's voice, this will be a challenge. Please be helpful by being succinct.

Mae gennyf wyth Aelod sy'n dymuno cael eu galw; o ystyried yr amser sydd ar gael, a chyflwr llais y Gweinidog, mae arnaf ofn, bydd hyn yn her. Ceisiwch fod yn gryno, os gwelwch yn dda.

15:16

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, thank you for the statement; I know that you will want to join me in paying tribute to the work of Richard Benyon in Europe and the role that he played in the negotiations on the common fisheries policy. I know that you, Minister, played an important part in those negotiations and that he acknowledged that in his statement to the Houses of Parliament this week.

Weinidog, diolch am y datganiad; rwyf yn gwybod yr hoffech ymuno â mi i dalu teyrnged i waith Richard Benyon yn Ewrop ac i'r rhan y chwaraeodd yn y trafodaethau ynglŷn â'r polisi pysgodfeydd cyffredin. Gwn eich bod chi, Weinidog, wedi chwarae rhan bwysig yn y trafodaethau hynny a'i fod ef wedi cydnabod hynny yn ei ddatganiad i Dai'r Senedd yr wythnos hon.

As well as the environmental value that fisheries have in terms of habitat and biodiversity in marine and coastal areas, they support more than 92,000 jobs in Wales and are worth £2.5 billion to Welsh gross domestic product. That emphasises the importance of and the hopes for the strategy when it is published in November, Minister. Many people will be eager to see the final strategy and Welsh fisheries, in particular, treated with the priority that they deserve. I am grateful that you recognised in your statement the work done by fishermen from around the coast of Wales in 'Striking the Balance', which is a measured and sensible document.

Yn ogystal â gwerth amgylcheddol pysgodfeydd i gynefinoedd a bioamrywiaeth yn ardaloedd y môr a'r arfordir, maent yn cefnogi mwy na 92,000 o swyddi yng Nghymru ac yn werth £2.5 biliwn i gynnyrch mewnwladol crynswth Cymru. Mae hynny'n pwysleisio pwysigrwydd y strategaeth a'r gobeithion ar ei chyfer pan gaiff ei chyhoeddi ym mis Tachwedd, Weinidog. Bydd llawer o bobl yn awyddus i weld y strategaeth derfynol a physgodfeydd Cymru, yn arbennig, yn cael eu trin â'r flaenoriaeth y maent yn ei haeddu. Rwyf yn ddiolchgar eich bod wedi cydnabod yn eich datganiad y gwaith a wnaed gan bysgotwyr o amgylch arfordir Cymru yn 'Striking the Balance', sy'n ddogfen bwyllog a synhwyrol.

You highlighted in your statement the Irish example as being particularly relevant to Wales. Can you confirm what specific implications that would have in the Welsh context? In terms of an ecosystems approach, how are you looking at that on a local basis?

Amlygwyd yn eich datganiad bod enghraifft Iwerddon yn arbennig o berthnasol i Gymru. A allwch gadarnhau beth fyddai goblygiadau penodol hynny yng nghyd-destun Cymru? O ran dull rheoli ar lefel ecosystemau, sut yr ydych yn edrych ar hynny ar lefel leol?

Can you confirm what discussions you will have with Natural Resources Wales over its role? Are you willing to provide a breakdown of the relevant functions and where those responsibilities lie between your Government department and Natural Resources Wales? Marine licensing was a particular concern in the environment committee's report. Can you confirm what progress is being made with Natural Resources Wales over the implementation of marine consenting? Are you confident that the excellent reputation of the marine consents unit will be preserved?

A allwch gadarnhau pa drafodaethau y byddwch yn eu cael gyda Chyfoeth Naturiol Cymru am swyddogaeth? A ydych yn fodlon rhoi dadansoddiad o'r swyddogaethau perthnasol a phwy sy'n gyfrifol amdanynt rhwng eich adran chi o'r Llywodraeth a Chyfoeth Naturiol Cymru? Roedd trwyddedu morol yn bryder penodol yn adroddiad y pwyllgor amgylchedd. A allwch gadarnhau pa gamau sy'n cael eu cymryd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â gweithredu caniatadau morol? A ydych yn hyderus y caiff enw da'r uned caniatadau morol ei gadw?

On marine spatial planning, you referred to your intention to have a plan in place by the end of 2015, Minister. Given that you have accepted in principle the committee's recommendation to review the integrated coastal zone management strategy by April 2014, are you still content for there to be a delay in delivering that?

O ran cynllunio gofodol morol, cyfeiriasoch at eich bwriad i fod â chynllun yn ei le erbyn diwedd 2015, Weinidog. Gan eich bod wedi derbyn mewn egwyddor argymhelliad y pwyllgor i adolygu'r strategaeth rheolaeth integredig ar barthau arfordirol erbyn mis Ebrill 2014, a ydych yn dal i fod yn fodlon ar yr oedi o ran cyflawni hynny?

Finally, as you alluded to in your statement, we have a network of marine protected areas already. The marine conservation zones caused considerable controversy, not least because local fishermen had seen that those marine protected areas had not been enforced or protected. Can you confirm what resources Natural Resources Wales will be putting towards enforcement and, if it is not undertaking the enforcement, who will be? Do you have information about the number of enforcement actions in the existing MPAs, as this has obvious implications for the effectiveness of the future designation? However, Minister, I welcome the fact that you are working with the fishermen and the environment in one policy document. I think that that is a useful way forward.

Yn olaf, fel y gwnaethoch gyfeirio ato yn eich datganiad, mae gennym eisoes rwydwaith o ardaloedd morol gwarchodedig. Mae'r parthau cadwraeth morol wedi achosi cryn ddadlau, yn enwedig gan fod pysgotwyr lleol wedi gweld na chafodd yr ardaloedd morol gwarchodedig hynny eu gorfodi na'u diogelu. A allwch gadarnhau pa adnoddau y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu rhoi tuag at orfodi ac, os nad Cyfoeth sefydliad hwn sy'n ymgymryd â'r gwaith gorfodi, pwy a fydd? A oes gennych wybodaeth am nifer y camau gorfodi sydd ar waith yn yr ardaloedd morol gwarchodedig sy'n bodoli eisoes, gan fod gan hyn oblygiadau amlwg i effeithiolrwydd y dynodiad yn y dyfodol? Fodd bynnag, Weinidog, rwyf yn croesawu'r ffaith eich bod yn cydweithio â'r pysgotwyr a'r amgylchedd mewn un ddogfen bolisi. Credaf fod hynny'n ffordd ddefnyddiol ymlaen.

15:20 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am grateful to the Member for her kind words. I will join her in saying a word about Richard Benyon. As a UK ministerial team, we worked very well together on the fisheries issues, where we have clearly had some different emphasis in the different administrations. However, we have been able to work together as a United Kingdom team to achieve all our different and common objectives. It has been a good example of how the UK can work together. Working with Richard Benyon, Richard Lochhead and Michelle O'Neill in different discussions at the Council of Ministers, with the European Commission and the presidency, we have been able to demonstrate that the team UK approach is one that can work in practice.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod am ei geiriau caredig. Ymunaf â hi i ddweud gair am Richard Benyon. Fel tîm gweinidogol y DU, gwnaethom waith da iawn gyda'n gilydd ym maes pysgodfeydd, lle mae'r pwyslais yn amlwg wedi bod rhywfaint yn wahanol rhwng y gwahanol weinyddiaethau. Fodd bynnag, rydym wedi gallu cydweithio fel tîm y Deyrnas Unedig i gyflawni ein holl amcanion gwahanol a chyffredin. Mae wedi bod yn enghraifft dda o sut y gall y DU weithio gyda'i gilydd. Gan weithio gyda Richard Benyon, Richard Lochhead a Michelle O'Neill mewn gwahanol drafodaethau yng Nghyngor y Gweinidogion, gyda'r Comisiwn Ewropeaidd a'r llywyddiaeth, rydym wedi gallu dangos bod dull gweithredu tîm y DU yn un sy'n gallu gweithio yn ymarferol.

I share your recognition of the economic importance of our fisheries and their potential to be even more important in the future in terms of the economic sustainability of coastal communities. It is a key objective for us, and I hope that we will be able to continue to support the fisheries as they grow over the coming years. The fishing industry understands sustainability far more than many other industries. You talked about the partnership between the fishing industry and others, but it is in the interest of the fisheries themselves to maintain sustainable levels of stock in the seas and the waters. That recognition runs through policy and through the fishing industry's approach to all of this. You also mentioned 'Striking the Balance', which I thought was a very good contribution to that overall policy objective.

Rwyf yn rhannu eich cydnabyddiaeth i bwysigrwydd economaidd ein pysgodfeydd a'u potensial i fod hyd yn oed yn bwysicach yn y dyfodol o ran cynaliadwyedd economaidd cymunedau arfordirol. Mae'n amcan allweddol i ni, ac rwyf yn gobeithio y gallwn barhau i gefnogi'r pysgodfeydd wrth iddynt ehangu dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r diwydiant pysgota yn deall cynaliadwyedd yn llawer gwell na llawer o ddiwydiannau eraill. Soniasoch am y bartneriaeth rhwng y diwydiant pysgota ac eraill, ond mae er budd y pysgodfeydd eu hunain i gynnal lefelau stoc cynaliadwy yn y moroedd a'r dyfroedd. Mae'r gydnabyddiaeth honno i'w gweld drwy'r holl bolisi a thrwy ymagwedd y diwydiant pysgota at hyn oll. Soniasoch hefyd am 'Striking the Balance', ac rwyf yn meddwl bod hwnnw'n gyfraniad da iawn at yr amcan polisi cyffredinol.

I will publish guidance, if that is necessary, on the different responsibilities of the Government and NRW, if Members believe that that would be of help. I am more than happy to do that.

Byddaf yn cyhoeddi canllawiau, os bydd eu hangen, ar wahanol gyfrifoldebau'r Llywodraeth a Chyfoeth Naturiol Cymru, os yw Aelodau'n credu y byddai hynny o gymorth. Rwyf yn fwy na pharod i wneud hynny.

In terms of our wider approach to Irish sea matters, I met with the Irish Minister some time ago—it was last September—during a visit to Dublin. We have also seen each other on a regular basis since then. We are agreed that we want to see regional management within the western approach to Irish sea waters. When we have the new CFP in place, it will provide us with a significantly enhanced framework within which we will be able to pursue those conversations. It is something that this Government would seek to do.

O ran ein dull gweithredu ehangach ar faterion yn ymwneud â môr Iwerddon, cefais gyfarfod â Gweinidog Iwerddon beth amser yn ôl—fis Medi diwethaf—yn ystod ymweliad â Dulyn. Rydym hefyd wedi gweld ei gilydd yn rheolaidd ers hynny. Rydym yn cytuno bod arnom eisiau gweld trefniadau rheoli rhanbarthol o fewn y dull gorllewinol o ymdrin â dyfroedd môr Iwerddon. Pan fydd y polisi pysgodfeydd cyffredin newydd ar waith, bydd yn rhoi fframwaith llawer gwell inni y gallwn ei ddefnyddio i gynnal y sgyrsiau hynny. Mae'n rhywbeth y byddai'r Llywodraeth hon yn ceisio ei wneud.

You asked a number of questions. Enforcement is the responsibility of the Government, and we will continue to enforce all the different rules and regulations for which we are responsible in our waters and coastal areas.

Gwnaethoch ofyn nifer o gwestiynau. Cyfrifoldeb y Llywodraeth yw gorfodi, a byddwn yn parhau i orfodi'r holl reolau a rheoliadau gwahanol yr ydym yn gyfrifol amdanynt yn ein dyfroedd a'n hardaloedd arfordirol.

I have sought to integrate marine planning with fisheries management. When I was appointed to this role, I felt that that was the best way to deal with these matters. That does not mean that we are putting dates back, if you like, in terms of taking forward policy in these areas, but it means that we can integrate what we are seeking to do to achieve the maximum impact. I have set out for you today what I believe the indicative dates are for the development of that integration, and I have also given an undertaking to update Members on a six-monthly basis on the progress of that. Clearly, you will be able to hold me to account for doing so.

Rwyf wedi ceisio integreiddio cynllunio morol â rheoli pysgodfeydd. Pan gefais fy mhenodi i'r swydd hon, roeddwn yn teimlo mai dyna oedd y ffordd orau o ymdrin â'r materion hyn. Nid yw hynny'n golygu ein bod yn symud dyddiadau'n ôl, os mynnwch chi, o ran bwrw ymlaen â'r polisi yn y meysydd hyn, ond mae'n golygu ein bod yn gallu integreiddio'r hyn yr ydym yn ceisio ei wneud i gyflawni'r effaith fwyaf bosibl. Rwyf wedi amlinellu ichi heddiw y dyddiadau dangosol, yn fy nhyb i, o ran datblygu'r integreiddio hwnnw, ac rwyf hefyd wedi rhoi ymrwymiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau bob chwe mis. Yn amlwg, byddwch yn gallu fy nwyn i gyfrif am wneud hynny.

In terms of your other questions on the protected areas, this is a matter that I am considering at the moment, and I will make a further statement before the summer recess.

O ran eich cwestiynau eraill am yr ardaloedd gwarchodedig, mae hwn yn fater yr wyf yn ei ystyried ar hyn o bryd, a byddaf yn gwneud datganiad arall cyn toriad yr haf.

15:24

## Llyr Huws Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Disgrifiwyd adroddiad y pwyllgor amgylchedd ar bolisi morol fel rhyw fath o 'wake-up' call i'r Llywodraeth ac rwy'n meddwl ein bod wedi cael cadarnhad heddiw ei bod hi'n amlwg bod y Llywodraeth wedi deffro i'r angen dybryd i weithredu. Rwy'n croesawu'r datganiad felly â breichiau agored. Rwyf hefyd yn croesawu'r wybodaeth atodol yr ydym wedi ei chael ar gynffon y datganiad hwnnw.

The environment committee's report on marine policy was described as some sort of wake-up call for the Government, and it is clear now that the Government has woken up to the great need to take action. I therefore welcome this statement with open arms. I also welcome the additional information that we have received as an addendum to the statement.

Mae cyfeiriadau mynych wedi bod i rôl amlwg Cyfoeth Naturiol Cymru, ond mae'n ymddangos i mi bod mwy a mwy o gyfrifoldebau a disgwyliadau yn cael eu gosod ar y corff hwnnw yn barod, hyd yn oed yn y dyddiau cynnar hyn, a hynny ar adeg pan yr ydym yn ymwybodol eu bod, mewn cyfarfod diweddar o'r bwrdd, wedi bod yn trafod y posibilrwydd o'r angen i leihau nifer y staff sydd ganddynt dros y ddwy neu dair blynedd nesaf.

There have been many references to the prominent role to be played by Natural Resources Wales, but it seems to me that more and more responsibilities and expectations are being placed on that particular body already, even in these very early days, and at a time when we are aware that, at a recent meeting of the board, they had discussed the possibility of the need to reduce the number of staff that they have over the next two or three years.

Felly, pa adnoddau ychwanegol sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i weithredu'r uchelgais yr ydych chi wedi amlinellu i ni yn y datganiad y prynhawn yma? Efallai y gallwch ymhelaethu ynglŷn ag o ble yr ydych yn rhagweld y bydd yr adnoddau hynny yn dod ac hefyd dweud wrthym a oes adnoddau ychwanegol ar gael i Gyfoeth Naturiol Cymru er mwyn caniatáu iddo chwarae ei ran yn llawn ac yn ystyrlon.

Therefore, what additional resources are available to the Welsh Government to implement the ambition that you have outlined in your statement this afternoon? Perhaps you could expand on where you believe that those resources will come from and also tell us whether additional resources are available to NRW in order to allow it to play a full and considered role.

O safbwynt y parthau cadwraeth morol, rydym i gyd yn gobeithio, rwyf yn siŵr, y gwelwn ni 'approach' gwahanol gan Lywodraeth Cymru o hyn ymlaen. Roedd y gwaith a wnaethpwyd gan Gymdeithas Pysgotwyr Cymru yn fy marn i yn gyfraniad adeiladol iawn i'r drafodaeth. A gaf i ofyn i chi gadarnhau nad ydy'r Llywodraeth bellach yn edrych ar y model blaenorol o greu tua thri pharth cadwraeth morol penodol, ac y byddwch yn mabwysiadu agwedd sydd yn llai dibynnol ar nifer fach o ardaloedd daearyddol dynodedig ac yn gweld y darlun ehangach yng nghyd-destun yr 'approach' eco-systemaidd hwn y mae'r Llywodraeth yn ei fabwysiadu?

In terms of the marine conservation zones, we all hope to see, I am sure, a different approach by the Welsh Government from here on in. The work done by the Welsh Fisherman's Association was a very constructive contribution to the debate. May I ask you to confirm that the Government is not now looking at the previous model of creating about three MCZs, and that you will adopt an approach that is less dependent on a very small number of designated geographical areas and look at the bigger picture in the context of this ecosystem approach that the Government is adopting?

Yn olaf, ac i fod yn fyr, Ddirprwy Lywydd, nid yw'r amgylchedd morol, fel yr ydym i gyd yn cydnabod, yn bodoli ar ei ben ei hun. Mae cydberthynas agos â ffactorau a pholisïau ar y tir. Felly, a fyddwch yn gallu ymhelaethu ar gynlluniau'r Llywodraeth o ran integreiddio pethau megis polisïau gofodol a pholisïau cynllunio morol ac ar y tir?

Finally, and to be brief, Deputy Presiding Officer, the marine environment, as we all know, does not exist alone. There is a close interrelationship with terrestrial factors and policies. Therefore, can you expand on the Government's plans in terms of integrating things such as spatial policies and marine and terrestrial planning policies?

15:26 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Hoffwn i feddwl fod y Gweinidog hwn wedi bod ar ddihun ers sbel, er fy mod i'n cydnabod gwaith da iawn y pwyllgor o dan gadeiryddiaeth Dafydd Elis-Thomas, wrth gwrs, ac rwy'n cydnabod gwaith y pwyllgor ar yr adroddiad polisi morol. Mwynheais i ddarllen yr adroddiad, ac mi gawsom ni sgwrs o flaen y pwyllgor ar ôl cyhoeddi'r adroddiad fel yr oedd y Llywodraeth yn ymateb i hynny.

I would like to think that this Minister has been awake for a long time, although I acknowledge the very good work of the committee under the chairmanship of Dafydd Elis-Thomas, of course, and I acknowledge the committee's work on the marine policy report. I enjoyed reading that report, and we had a discussion with the committee after its publication as regards how the Government was responding.

Rwyf yn credu, drwy greu'r adran newydd, bod gennym y potensial i greu momentwm a chreu, nid dim ond pwysigrwydd, ond strwythur ar gyfer delio â pholisi morol a datblygu polisi ar gyfer y dyfodol. Rwyf yn credu bod hynny yn beth hollbwysig.

I believe, by creating the new department, that we have the potential to create momentum and to create, not just importance, but a structure for dealing with marine policy and developing policy for the future. I think that that is crucially important.

Rydych wedi sôn am yr adnoddau. Yn y cyfarfod diwethaf a gefais gyda phrif swyddogion NRW, ddydd Gwener ddiwethaf, cawsom rhyw sgwrs amboutu adnoddau, ond dim byd penodol amboutu polisi morol. Ar hyn o bryd, mae gennym gynllun busnes ar gyfer NRW ac rydych chi wedi ei weld. Rwyf yn gofyn i NRW gadw at y cynllun. Byddaf mewn sefyllfa i wneud datganiad ysgrifenedig pellach ar NRW cyn toriad yr haf. Efallai y bydd hynny yn cynnig cyfle i'r pwyllgor o leiaf i edrych eto ar sut yr ydych yn gweld NRW yn datblygu ei rôl yn y maes hwn.

You have mentioned the resources. In the last meeting that I had with the chief officers of NRW, last Friday, we had a conversation about resources, but there was nothing specific about marine policy. At present, we have a business plan for NRW and you have seen it. I am asking NRW to adhere to that plan. I will be in a position to make a further written statement on NRW prior to the summer recess. That may offer an opportunity for the committee to at least look once again at how you see NRW developing its role in this field.

Mae Llyr wedi gofyn cwestiynau gwahanol am y parthau cadwraeth morol ac rwyf yn siŵr y bydd e'n siomedig i gael yr un ateb. Chwarae teg i chi am drio gofyn eich cwestiwn mewn ffordd greadigol iawn, ond yr un cwestiwn yw e wrth gwrs, ac yr un ateb sydd gennyf i: byddaf yn gwneud datganiad ar hyn cyn toriad yr haf. Rwyf wedi derbyn adroddiad y grŵp a oedd yn edrych ar hyn ac rwyf yn ei ystyried ar hyn o bryd. Rwyf yn ystyried adroddiad y grŵp yn y cyd-destun yr ydych chi wedi ei ddisgrifio, ac yr wyf i wedi ei ddisgrifio o'r blaen, gyda'r rhwydwaith presennol o barthau cadwraeth sydd gennym yng Nghymru. Byddaf yn gwneud penderfyniad ac yn gwneud datganiad ar hynny cyn i ni gyfarfod yn Llanelwedd. Bydd gennych chi gyfle i'w drafod bryd hynny.

Llyr has asked different questions about the marine conservation zones and I am sure that he will be disappointed to receive the same response. Fair play to you for trying to ask your question in a very creative way, but it is the same question of course and it will receive the same reply from me: I will be making a statement on this before the summer recess. I have received the report of the group that was looking at this and I am considering it at the moment. I am considering the group's report in the context that you have described, and that I described prior to that, with the current network of conservation zones that we have in Wales. I will be making a decision and a statement on that before we meet at Builth Wells. We will have an opportunity to discuss it then.

Rydych wedi gofyn am 'infrastructure' ar y tir. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym wedi ei drafod yng nghyd-destun y polisïau Ewropeaidd ehangach. Rwyf wedi dweud yn barod fy mod yn ystyried integreiddio yn un o'r egwyddorion pwysig wrth symud y gwaith yn ei flaen.

You asked about the terrestrial infrastructure. This is something that we have discussed in the context of the broader European policies. I have already said that I am considering integration as one of the important principles to move the work forward.

15:29 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I want to start my statement today—

Rwyf am ddechrau fy natganiad heddiw—

15:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is not a statement.

Nid datganiad ydyw.

15:29 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I want to start my questions today—sorry—by paying tribute to the previous Minister for all the work that he did. I want to ask some very pointed questions.

Rwyf am ddechrau fy nghwestiynau heddiw—mae'n ddrwg gennyf—trwy dalu teyrnged i'r Gweinidog blaenorol am yr holl waith a wnaeth. Rwyf am ofyn rhai cwestiynau miniog iawn.

Last week, we had the historic deal on the common fisheries policy, imposing a new EU-wide context to the national and regional strategies and how they will be formed and reshaped. I think that your statement today is timely and I am sure that it is very welcome. Those EU reforms are undoubtedly a tremendous achievement and a victory for many campaign groups and the hundreds of thousands of people who signed up to the Fish Fight campaign. I commend your role, Minister, as part of a strong UK contingent. I know that it has taken a great deal of time and effort and political will on your behalf. I also welcome that you have today restated your vision for sustainably-managed Welsh seas, both for now and for the future. The headline EU reform—this is a huge victory—is the decision to phase out the scandalous practice of discarding perfectly edible fish, throwing dead fish back into the sea. However, it says much less about protected areas.

Yr wythnos diwethaf, cawsom y fargen hanesyddol ar y polisi pysgodfeydd cyffredin, gan osod cyd-destun newydd ar draws yr UE i'r strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol a sut y cânt eu ffurfio a'u had-drefnu. Rwyf yn meddwl bod eich datganiad heddiw'n amserol ac rwyf yn siŵr bod croeso mawr iddo. Mae'r diwygiadau hyn gan yr UE yn ddi-os yn llwyddiant arbennig ac yn fuddugoliaeth i lawer o grwpiau ymgyrchu a'r cannoedd o filoedd o bobl sydd wedi ymuno â'r ymgyrch Fish Fight. Rwyf yn cymeradwyo eich cyfraniad, Weinidog, fel rhan o gynrychiolaeth gref o'r DU. Gwn ei bod wedi cymryd llawer iawn o amser ac ymdrech ac ewyllys gwleidyddol ar eich rhan. Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith eich bod heddiw wedi ailddatgan eich gweledigaeth ar gyfer moroedd wedi'u rheoli'n gynaliadwy yng Nghymru, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Diwygiad mawr yr UE—ac mae hon yn fuddugoliaeth enfawr—yw'r penderfyniad i ddirwyn i ben yr arfer gwarthus o daflu pysgod perffaith fwytadwy, taflu pysgod marw yn ôl i'r môr. Fodd bynnag, mae'n dweud llawer llai am ardaloedd gwarchodedig.

I also welcome your statement, as have others today, the considerations that you have given to the marine conservation zones for Wales, and your thoughtful processes. As you know, the reformed fisheries policy states that member states should identify suitable areas and co-operate with one another, preparing joint recommendations to the European Commission where appropriate. Again, I would like you to tell us, Minister, whether there has been any recent movement on designating marine conservation zones around the UK. Nature, oddly enough, does not take very much notice of lines on maps, which is why co-operation and co-ordination is vital if marine protection areas are to be effective. So, could you tell us whether you have had any recent discussions with the Undersecretary of State for Environment, Food and Rural Affairs on when the UK Government might introduce its MCZs? Has the UK Government indicated how many areas will be designated or what areas they are likely to cover?

Rwyf innau hefyd, ynghyd ag eraill heddiw, yn croesawu eich datganiad, yr ystyriaethau yr ydych wedi'u rhoi i'r parthau cadwraeth morol i Gymru, a'ch prosesau meddylgar. Fel y gwyddoch, mae'r polisi pysgodfeydd diwygiedig yn nodi y dylai aelod-wladwriaethau ganfod ardaloedd addas a chydweithredu â'i gilydd, gan baratoi argymhellion ar y cyd i'r Comisiwn Ewropeaidd lle y bo'n briodol. Unwaith eto, hoffwn ichi ddweud wrthym, Weinidog, a gymerwyd unrhyw gamau diweddar o ran dynodi parthau cadwraeth morol o amgylch y DU. Yn ddigon rhyfedd, nid yw natur yn cymryd llawer o sylw o linellau ar fapiau, a dyna pam y mae cydweithredu a chydgysylltu'n hanfodol er mwyn i ardaloedd morol gwarchodedig fod yn effeithiol. Felly, a allwch ddweud wrthym a ydych wedi cael unrhyw drafodaethau diweddar gydag Is-ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ynghylch pryd y gallai Llywodraeth y DU gyflwyno ei Pharthau Cadwraeth Morol? A yw Llywodraeth y DU wedi rhoi syniad o faint o ardaloedd a gaiff eu dynodi neu ba ardaloedd y maent yn debygol o'u cwmpasu?

15:32

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for your kind words. I will continue this afternoon to pay tribute to other Ministers for their work on some of these matters. I was very pleased to be able to follow on from John Griffiths in this portfolio and I recognise the hard work that he put in to develop a policy on marine conservation zones and the structures that he was able to put in place, which moved this policy forward. I will be making a statement on marine conservation zones before the summer recess, so I will not go into too much detail in responding to the questions that you have creatively asked me, Joyce, in terms of where we are going with this.

Diolch yn fawr iawn am eich geiriau caredig. Byddaf yn parhau brynhawn heddiw i dalu teyrnged i Weinidogion eraill am eu gwaith ar rai o'r materion hyn. Roeddwn yn falch iawn o allu dilyn John Griffiths yn y portffolio hwn ac rwyf yn cydnabod y gwaith caled a wnaeth i ddatblygu polisi ar barthau cadwraeth morol a'r strwythurau a lwyddodd eu i'w ar waith i symud y polisi hwn yn ei flaen. Byddaf yn gwneud datganiad am barthau cadwraeth morol cyn toriad yr haf, felly nid af i ormod o fanylder wrth ymateb i'r cwestiynau yr ydych wedi'u gofyn yn greadigol imi, Joyce, o ran ein cyfeiriad yn hyn o beth.

We do need to review the conservation zones that we have in place in terms of what we understand to be the needs of the ecosystem and the environment around the Welsh coast, and taking into account the wider impacts of those zones on the environment, coastal communities and the fishing industry. However, we must also understand the purpose of those conservation zones in the first place, which is to deliver the reality of the ecosystem approach that we wish to put in place. We already have a significant number of protected areas around the Welsh coast—36% of the Welsh coast and Welsh waters is already protected. We need to understand where the gaps are, why they are there and whether we need to put in place any additional measures to protect those areas where gaps exist, and, if we need to do so, what is the most appropriate means and mechanism to put in place. Those are all issues that I will address more fully in my statement before the summer recess.

Mae angen inni adolygu'r parthau cadwraeth sydd gennym o ran ein dealltwriaeth o anghenion yr ecosystem a'r amgylchedd o amgylch arfordir Cymru, gan ystyried effeithiau ehangach y parthau hynny ar yr amgylchedd, cymunedau arfordirol a'r diwydiant pysgota. Fodd bynnag, rhaid inni hefyd ddeall pwrpas y parthau cadwraeth hynny yn y lle cyntaf, sef gwireddu'r dull rheoli ar lefel ecosystem yr ydym yn dymuno'i roi ar waith. Mae gennym eisoes nifer sylweddol o ardaloedd gwarchodedig o amgylch arfordir Cymru—mae 36% o arfordir Cymru a dyfroedd Cymru wedi'i warchod eisoes. Mae angen inni ddeall ble mae'r bylchau, pam y maent yno ac a oes angen inni sefydlu unrhyw fesurau ychwanegol i ddiogelu'r ardaloedd hynny lle mae bylchau yn bodoli, ac, os bydd angen inni wneud hynny, beth yw'r modd a'r dull mwyaf priodol i'w rhoi ar waith. Mae'r rhain i gyd yn faterion y rhoddaf sylw llawnach iddynt yn fy natganiad cyn toriad yr haf.

On wider issues, with regard to the common fisheries policy, it is taking some considerable time to reform the common fisheries policy. The agreement that was made last month is a significant improvement on where we were. It will address the issues of discards, which, as Joyce has pointed out, was the subject of a number of different campaigns from different groups and organisations. It will hardwire sustainability in the determination of quotas and the way in which we deliver fisheries policies year on year. The fisheries management plans that will be put in place and the focus on maximum sustainable yield all mean that the way in which we manage fisheries policy in the future will be very different from the way that it has been done in the past. All of that will lead to greater sustainability of the individual fishing stocks being addressed at any particular time, as well as of the wider marine ecosystem.

Ar faterion ehangach, o ran y polisi pysgodfeydd cyffredin, mae'n cymryd cryn amser i ddiwygio'r polisi pysgodfeydd cyffredin. Mae'r cytundeb a wnaethpwyd y mis diwethaf yn welliant sylweddol ar y sefyllfa flaenorol. Bydd yn mynd i'r afael â materion taflu pysgod marw, a oedd, fel y mae Joyce wedi'i nodi, yn destun nifer o wahanol ymgyrchoedd gan wahanol grwpiau a sefydliadau. Bydd yn sicrhau bod cynaliadwyedd yn rhan annatod o brosesau penderfynu ar gwotâu ac o'r ffordd y byddwn yn gweithredu polisïau pysgodfeydd o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r cynlluniau rheoli pysgodfeydd a gaiff eu rhoi ar waith, a'r ffocws ar sicrhau'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf posibl, i gyd yn golygu y byddwn yn rheoli polisi pysgodfeydd yn y dyfodol mewn ffordd wahanol iawn i'r gorffennol. Bydd hynny i gyd yn arwain at roi sylw i gynyddu cynaliadwyedd y stociau pysgota unigol ar unrhyw adeg benodol, yn ogystal ag i ecosystem ehangach y môr.

15:35 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am y datganiad heddiw, Weinidog.

Thank you for the statement today, Minister.

I very much welcome some of your comments, Minister, particularly the emphasis that you have placed on the need for balance. I also particularly appreciate your emphasis on thanking the fisheries sector, in particular Jim Evans and his people in the Welsh Fisherman's Association, as well as the work of my own committee—the Environment and Sustainability Committee—which is chaired by Lord Elis-Thomas. Those of us who engage regularly with this general policy area will be all too aware of not only the potential, but the threats that our marine habitat and fishing stocks currently face.

Rwyf yn croesawu rhai o'ch sylwadau'n fawr, Weinidog, yn enwedig y pwyslais yr ydych wedi ei roi ar yr angen am gydbwysedd. Rwyf hefyd yn gwerthfawrogi'n arbennig eich pwyslais ar ddiolch i'r sector pysgodfeydd, yn enwedig i Jim Evans a'i bobl yng Nghymdeithas Pysgotwyr Cymru, yn ogystal â gwaith fy mhwyllgor fy hun—y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd—sy'n cael ei gadeirio gan yr Arglwydd Elis-Thomas. Bydd y rheini ohonom sy'n ymwneud yn rheolaidd â'r maes polisi cyffredinol hwn yn ddigon ymwybodol, nid yn unig o botensial ein cynefin morol a'n stociau pysgota, ond o'r bygythiadau sy'n eu hwynebu ar hyn o bryd.

To turn to the recently agreed reforms to the common fisheries policy, would you please expand, Minister, on what assessment you have made of the impact of the agreed discard ban, specifically on Welsh fishing practices? For some time now, the practice of discards has been heavily criticised across the European Union, and I am sure that you will join me in welcoming the proposed removal of this practice. Related to this, could you also expand a little further on the point about a food strategy? The agreed reforms are likely to change the number, size, and, indeed, the types of fish that enter the food chain. What additional steps do you believe the Welsh Government should be taking in coming years to increase awareness of local and sustainable fish produce, and, indeed, to extend the Welsh palate in relation to fish in our restaurant sector?

I droi at y diwygiadau i'r polisi pysgodfeydd cyffredin y cytunwyd arnynt yn ddiweddar, a fyddech cystal ag ehangu, Weinidog, ynglŷn â pha asesiad yr ydych wedi ei wneud o effaith y gwaharddiad y cytunwyd arno ar daflu pysgod marw, yn benodol o ran arferion pysgota Cymru? Ers cryn amser bellach, mae'r arfer o daflu pysgod marw wedi cael ei feirniadu'n drwm ar draws yr Undeb Ewropeaidd, ac rwyf yn siŵr y gwnewch ymuno â mi i groesawu'r bwriad i ddileu'r arfer hwn. Yn gysylltiedig â hyn, a allech hefyd ehangu ychydig ymhellach ar y pwynt ynglŷn â strategaeth fwyd? Mae'r diwygiadau y cytunwyd arnynt yn debygol o newid nifer, maint, ac, yn wir, y mathau o bysgod sy'n mynd i'r gadwyn fwyd. Pa gamau ychwanegol yr ydych yn credu y dylai Llywodraeth Cymru fod yn eu cymryd yn ystod y blynyddoedd nesaf i gynyddu ymwybyddiaeth o gynnyrch pysgod lleol a chynaliadwy, ac, yn wir, i ymestyn archwaeth Cymru o ran pysgod yn ein sector bwytai?

Further to that, in terms of conservation, I also understand that the reforms will allow us to ensure that any conservation measures that we introduce beyond the six nautical mile limit will have to be adhered to by fishermen from all countries in the European Union. I would be grateful if you could confirm that.

Yn ychwanegol at hynny, o ran cadwraeth, rwyf hefyd ar ddeall y bydd y diwygiadau yn ein galluogi i sicrhau bod yn rhaid i bysgotwyr o bob gwlad yn yr Undeb Ewropeaidd lynu at unrhyw fesurau cadwraeth y byddwn yn eu cyflwyno y tu hwnt i'r terfyn chwe milltir fôr. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau hynny.

Finally, I wish to touch on the importance of marine aggregates and the wider dredging industry to the marine sector. The impact that has will naturally form a big part of any all-encompassing marine strategy. I was hoping that you would be able to outline what future directions you have for the sector's operations in Welsh waters. In addition, could you outline any further updates that are planned to the 2004 interim marine aggregates dredging policy? That will be of importance in this area.

Yn olaf, hoffwn sôn am bwysigrwydd agregau morol a'r diwydiant treillio ehangach i'r sector morol. Bydd effaith y diwydiant hwnnw'n naturiol yn ffurfio rhan fawr o unrhyw strategaeth forol gynhwysfawr. Roeddwn yn gobeithio y byddech yn gallu amlinellu pa gyfeiriad yr ydych yn ei ragweld yn y dyfodol ar gyfer gweithrediadau'r sector yn nyfroedd Cymru. Yn ogystal â hynny, a allech amlinellu unrhyw ddiweddariadau ychwanegol sydd wedi'u cynllunio i bolisi treillio agregau morol dros dro 2004? Bydd hynny'n bwysig yn y maes hwn.

15:37

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I start by thanking Bill Powell for following the Deputy Presiding Officer's request to keep questions brief, given the difficulties that I am having with my voice this afternoon. I am very grateful for that, Bill.

Dechreuaf drwy ddiolch i Bill Powell am ddilyn cais y Dirprwy Lywydd i gadw cwestiynau'n fyr, o ystyried yr anawsterau yr wyf yn eu cael gyda'm llais y prynhawn yma. Rwyf yn ddiolchgar iawn am hynny, Bill.

I join you in thanking Jim Evans for the work that he has put in representing the Welsh fishing industry. As a Government, we have sought to support the creation of a greater representational body for Welsh fisheries. We think that is important. Jim has done a tremendous job in setting that up and leading it over the last few years.

Ymunaf â chi i ddiolch i Jim Evans am y gwaith y mae wedi'i wneud i gynrychioli diwydiant pysgota Cymru. Fel Llywodraeth, rydym wedi ceisio cefnogi'r syniad o greu corff cynrychiadol mwy i bysgodfeydd Cymru. Rydym yn credu bod hynny'n bwysig. Mae Jim wedi gwneud gwaith aruthrol yn sefydlu'r corff hwnnw ac yn ei arwain dros y blynyddoedd diwethaf.

You asked me to expand on the impact of a discard ban on Welsh fishery practices. You will be aware that Welsh fisheries are largely in-shore fisheries, and therefore the discard ban will not have the impact on Welsh fisheries that it will have on some of the other fisheries that are governed more by quotas, and on some of the deep-sea fleets. That is where the discard ban will have the greatest impact. We have a significantly and substantially different fisheries industry in Wales, and it is important that we have the opportunity and the tools available to us to manage that in the most effective way.

Fe wnaethoch ofyn imi ymhelaethu ar effaith gwaharddiad ar daflu pysgod marw ar arferion pysgodfeydd Cymru. Byddwch yn ymwybodol mai pysgodfeydd y glannau yw'r rhan fwyaf o bysgodfeydd Cymru, ac felly ni fydd y gwaharddiad ar daflu pysgod marw'n cael yr un effaith ar bysgodfeydd Cymru ag a gaiff ar rai o'r pysgodfeydd eraill sy'n cael eu llywodraethu i raddau mwy helaeth gan gwotâu, neu ar rai o fflydoedd y môr dwfn. Dyna lle caiff y gwaharddiad ar daflu pysgod marw'r effaith fwyaf. Mae gennym ddiwydiant pysgodfeydd yng Nghymru sy'n sylweddol ac yn arwyddocaol wahanol, ac mae'n bwysig ein bod yn cael y cyfle a'r offer a fydd yn ein galluogi i reoli hynny yn y ffordd fwyaf effeithiol.

You asked about the six nautical mile limit. That is not a limit on who would be affected by legislation, but a limit on our ability to make legislation. We are able, through domestic law here in Wales, to make regulations up to the six nautical mile limit. However, following that, we would require joint legislation with the institutions of the European Union, as well as the agreement of other member states. So, it limits our ability to make regulations and law in support of our fisheries, and, in terms of management, in delivering ecosystem management around our coasts. You also questioned the place of the food strategy in this matter. I answered a question from you on this matter last week, and I am surprised that the leader of the Welsh Liberal Democrats had not listened to the answer that I gave you last week. We will be publishing a food strategy in the autumn. I gave you an undertaking last week that I would publish a new food strategy for Wales, following the summer recess—in the early autumn, I hope. That will cover many of the issues to which you refer, in terms of extending the Welsh palate and developing our fisheries as a part of the wider food chain in Wales.

Rydych yn gofyn am y terfyn chwe milltir fôr. Terfyn ar ein gallu i lunio deddfwriaeth yw hwnnw, nid terfyn o ran ar bwy y byddai'r ddeddfwriaeth yn effeithio. Trwy gyfraith ddomestig yma yng Nghymru, rydym yn gallu gwneud rheoliadau hyd at y terfyn chwe milltir fôr. Fodd bynnag, ar ôl hynny, byddai arnom angen deddfwriaeth ar y cyd â sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd, yn ogystal â chytundeb aelod-wladwriaethau eraill. Felly, mae'n cyfyngu ar ein gallu i wneud rheoliadau a chyfraith i gefnogi ein pysgodfeydd, ac, o ran rheoli, i reoli ecosystemau o amgylch ein harfordiroedd. Rydych hefyd yn holi beth yw lle'r strategaeth fwyd yn y mater hwn. Atebais gwestiwn gennych am y mater hwn yr wythnos diwethaf, ac rwyf yn synnu nad yw arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi gwrando ar yr ateb a roddais ichi yr wythnos diwethaf. Byddwn yn cyhoeddi strategaeth fwyd yn yr hydref. Rhoddais ymrwymiad ichi yr wythnos diwethaf y byddwn yn cyhoeddi strategaeth fwyd newydd i Gymru, ar ôl toriad yr haf—yn gynnar yn yr hydref, rwyf yn gobeithio. Bydd honno'n cwmpasu llawer o'r materion y cyfeiriwch atynt, o ran ymestyn archwaeth Cymru a datblygu ein pysgodfeydd yn rhan o'r gadwyn fwyd ehangach yng Nghymru.

15:40

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Nid wyf yn siŵr a yw'n gonfensiwn yma i ddweud 'ti' wrth Weinidog, ond rwyf am ddweud hynny heddiw wrth gyfeirio at y ddogfen yr wyt ti wedi'i chynhyrchu, yn atodol i dy ddatganiad, Weinidog, sef y ddogfen ar fôr a physgodfeydd—y cynllun gweithredu strategol a chyfeiriad at y dyfodol—sydd, am y tro cyntaf erioed, yn creu polisi pysgodfeydd i Gymru. Nid oes rhaid iti ateb y cwestiwn hwn ond gyda'r gair 'ie'.

I am not sure whether it is a convention here to call a Minister 'ti', but I will use that informal term today in referring to this document that you have produced, in addition to your statement, Minister, namely the document on the marine and fisheries strategic action plan and direction for the future, which, for the first time ever, creates a fisheries policy for Wales. You do not have to answer this question apart from with the word 'yes'.

Mae'r ddogfen hon, am y tro cyntaf, yn defnyddio'r ffaith bod gan Gymru fôr—a gawsom am y tro cyntaf o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru ac o dan ddatganoli—a throi'r peth i fod yn bolisi ar gyfer y math o ymateb sydd ei angen i gael diwydiant pysgota cynaliadwy o fewn y cyd-destun hwnnw. Fel un sydd â'r fraint nid yn unig o gadeirio'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn y Cynulliad, ond o gynrychioli'r arfordir eang ar hyd gogledd bae Ceredigion—mae fy nghyfaill o Geredigion yn cymryd drosodd fel yr ydym yn symud yn bellach i lawr—rwyf yn falch bod y diwydiant presennol, a diwydiant y dyfodol fydd yn bosibl yn yr ardal honno, wedi'i ddiogelu gan y datganiad hwn heddiw. Rwyf ond yn gresynu ein bod wedi gorfod treulio cymaint o amser yn gwrthwynebu cynlluniau a gyflwynwyd o'r blaen, a oedd yn gwbl anweithredadwy.

This document, for the first time, uses the fact that there are Welsh seas—which we had for the first time under the Government of Wales Act and under devolution—and turns that into a policy on the kind of response that is required in order to have a sustainable fishing industry in that context. As someone who has the privilege not only of chairing the Environment and Sustainability Committee in the Assembly, but of representing a broad-ranging coastline along north Cardigan bay—my colleague from Ceredigion takes over as you move further down—I am pleased that the current industry, and the future industry that can be created in that area, is safeguarded by this statement today. I regret only the fact that we have had to spend so much time opposing the schemes presented in the past, which were totally inappropriate.

15:42 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr iawn iti, Dafydd, am dy eiriau caredig. Gobeithiaf y bydd cyhoeddiad heddiw yn newid pwyslais ac yn cynnig cyfle i ni gyd drafod y materion a gododd Bill ynghylch 'marine aggregates', yng nghyd-destun pwysigrwydd pysgodfeydd i Gymru, ac sut i ddiogelu amgylchedd morol arfordir Cymru yn ei gyfanrwydd. Mae hynny'n hollbwysig. Dyna pam y cyhoeddais y ddogfen i gefnogi'r datganiad y prynhawn yma. Rwyf hefyd am lansio heddiw cyfle i gynnal trafodaeth ar draws Cymru am y math o amgylchedd morol yr ydym am ei weld o amgylch ein harfordir. Rydych yn cynrychioli rhan hynod bwysig o'r diwydiant pysgodfeydd ac o arfordir Cymru. Gwn eich bod wedi bod yn arwain y drafodaeth yn Nwyfor Meirionydd am sut i symud ymlaen. Credaf fod llawer iawn o bobl yn y Siambr yn ddiolchgar iawn ichi am hynny. Gan fod y ddogfen hon wedi'i chyhoeddi, rwyf yn mawr obeithio y gallwn symud ymlaen a chynnal trafodaeth am sut i ddod â'r polisïau hyn at ei gilydd, a hynny cyn 2015, gobeithio. Gwn fod gennym darged, cyn diwedd y flwyddyn hon, i gael fframwaith a fydd yn gyrru llwyddiant yn y diwydiant pysgota a llwyddiant yn y modd yr ydym yn rheoli amgylchedd morol Cymru hefyd.

I am very grateful to you, Dafydd, for your kind words. I hope that the announcement today will change the emphasis and offer an opportunity for us all to discuss the matters that Bill raised in relation to marine aggregates, in the context of the importance of fisheries to Wales, and how to safeguard the marine environment of the Welsh coastline in its entirety. That is vital. That is why I published the document to support the statement this afternoon. I also want to launch today the opportunity to hold a debate across Wales about the kind of marine environment that we want to see around our coastline. You represent an extremely important part of the fisheries industry and of the Welsh coastline. I know that you have been leading the debate in Dwyfor Meirionydd about how to move forward. I think that many people in the Chamber are very grateful to you for that. Given that this document has been published, I very much hope that we can move forward and hold a debate about how to bring these policies together, before 2015, I hope. I know that we have a target to, before the end of this year, have a framework that will drive success in the fishing industry and success in how we manage the marine environment of Wales.

*Daeth y Llywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 3.44 p.m.*

*The Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 3.44 p.m.*

15:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Item 5 on the agenda, a statement by the Minister for Economy, Science and Transport, has been postponed until 25 June.

Mae eitem 5 ar yr agenda, datganiad gan y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, wedi ei gohirio tan 25 Mehefin.

# Dadl Cyfnod 3 ar Fil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) o dan Reol Sefydlog Rhif 26.44

# Stage 3 Standing Order No. 26.44 Debate on the Local Government (Democracy) (Wales) Bill

### Grŵp 1: Mynediad i Gyfarfodydd Cyngor a Gwybodaeth y Cyngor (Gwelliannau 18, 1, 2, 3, 58, 8 a 59)

### Group 1: Access to Council Meetings and Council Information (Amendments 18, 1, 2, 3, 58, 8 and 59)

15:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Lesley Griffiths to move amendment 18 and to speak to it and the other amendments in the group.

Galwaf ar Lesley Griffiths i gynnig gwelliant 18 ac i siarad am y gwelliant hwnnw a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

15:44 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I move amendment 18 in my name.

Cynigiaf welliant 18 yn fy enw i.

Amendment 18 inserts, within the overview of the Bill, at section 1, a reference to the need for local authorities to publish registers of members' interests on their websites. The substantive amendment requiring this was approved by the Communities, Equality and Local Government Committee at Stage 2, but this consequential amendment to the overview was not. Amendment 1, tabled by Peter Black, would remove mention of remote attendance from the overview of the Bill, but it is my hope that the reference will still be required following the approval of amendment 58.

Mae gwelliant 18 yn mewnosod, o fewn trosolwg y Bil, yn adran 1, gyfeiriad at yr angen i awdurdodau lleol gyhoeddi cofrestrau o fuddiannau aelodau ar eu gwefannau. Cafodd y prif welliant a oedd yn gwneud hyn yn ofynnol ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yng Nghyfnod 2, ond nid y gwelliant canlyniadol hwn i'r trosolwg. Byddai gwelliant 1, a gyflwynwyd gan Peter Black, yn cael gwared ar sôn am fynychu o bell o drosolwg y Bil, ond fy ngobaith i yw y bydd y cyfeiriad yn dal yn ofynnol yn dilyn cymeradwyo gwelliant 58.

Peter Black's amendment 2 would add a regulatory power for Welsh Ministers to add to the information required on community council websites. I will resist this amendment, because I do not want to scare community councils into thinking that what is on the face of the Bill is the thin end of the wedge.

Byddai gwelliant 2 Peter Black yn ychwanegu grym rheoleiddio i Weinidogion Cymru ychwanegu at y wybodaeth sydd ei hangen ar wefannau cynghorau cymuned. Byddaf yn gwrthwynebu'r gwelliant hwn, oherwydd nid wyf am godi ofn ar gynghorau cymuned a pheri iddynt feddwl mai dim ond blaen y gyllell yw'r hyn sydd ar wyneb y Bil.

Amendment 3 from Peter Black is too broad, because it would raise expectations that members of the public would be helped to report, as opposed to simply observe, council meetings. The best way to increase public engagement with, and knowledge of, council proceedings is to broadcast the meetings, and I am encouraged by the increasing number of local authorities that are doing this, or are working towards it.

Mae gwelliant 3 gan Peter Black yn rhy eang, oherwydd byddai'n codi disgwyliadau y byddai aelodau o'r cyhoedd yn cael cymorth i adrodd, yn hytrach na dim ond arsylwi, ar gyfarfodydd cyngor. Y ffordd orau o hybu ymgysylltiad y cyhoedd â thrafodion cynghorau, a gwybodaeth y cyhoedd amdanynt, yw darlledu'r cyfarfodydd, ac mae nifer cynyddol yr awdurdodau lleol sy'n gwneud hyn, neu sy'n gweithio tuag at hyn, yn galondid imi.

Turning to amendments 58 and 59, tabled in my name, the introduction of remote attendance at council meetings under the Local Government (Wales) Measure 2011 allows a new flexibility, designed to facilitate participation for councillors who, for domestic, employment or travel reasons, may find it difficult to attend a meeting at the council offices at a particular time. The Measure provides that at least half of those eligible to attend a meeting should be at the main meeting place. This was designed to ensure that most councillors would still attend in the normal fashion. However, I have been alerted to the problems that this could create for a rural council such as Powys, which is keen to adopt the process, but would like to have links to its Brecon and Welshpool offices from its main office at Llandrindod Wells. Given that Powys councillors are spread fairly evenly across the council area, the change to 30% needed at the main meeting place should enable remote attendance to work effectively there. I should stress, however, that this provision does not prevent a council having a higher percentage requirement at the main meeting place in its standing orders if it wishes.

A throi at welliannau 58 a 59, a gyflwynwyd yn fy enw i, mae cyflwyno darpariaeth i fynychu cyfarfodydd cyngor o bell o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn caniatáu hyblygrwydd newydd, er mwyn hwyluso cyfranogiad gan gynghorwyr sydd, am resymau domestig, cyflogaeth neu deithio, yn ei chael yn anodd dod i gyfarfod yn swyddfeydd y cyngor ar amser penodol. Mae'r Mesur yn darparu y dylai o leiaf hanner y rheini sy'n gymwys i fynychu cyfarfod fod yn y prif fan cyfarfod. Diben hynny oedd sicrhau y byddai'r rhan fwyaf o gynghorwyr yn dal i fod yn bresennol yn y modd arferol. Fodd bynnag, rwyf wedi cael gwybod am y problemau y gallai hyn eu creu i gyngor gwledig megis Powys, sy'n awyddus i fabwysiadu'r broses, ond a hoffai gael cysylltiadau â'i swyddfeydd yn Aberhonddu a'r Trallwng o'i brif swyddfa yn Llandrindod. O gofio bod cynghorwyr Powys wedi eu lledaenu'n weddol gyfartal ar draws ardal y cyngor, dylai'r newid i'r 30% sydd ei angen yn y prif fan cyfarfod ei gwneud yn bosibl i fynychu o bell weithio'n effeithiol yno. Dylwn bwysleisio, fodd bynnag, nad yw'r ddarpariaeth hon yn atal cyngor rhag cael canran ofynnol uwch yn y prif fan cyfarfod yn ei reolau sefydlog os yw'n dymuno.

I urge Members to support amendments 18, 58 and 59, and to oppose amendments 1, 2, 3 and 8.

Anogaf yr Aelodau i gefnogi gwelliannau 18, 58 a 59, ac i wrthwynebu gwelliannau 1, 2, 3 ac 8.

15:47

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Minister for bringing the Bill forward. I know that it is a continuation from the previous Minister, Mr Carl Sargeant. However, I feel that the Bill could have gone further, but I will now address the amendments collected together in group 1.

Diolch i'r Gweinidog am gyflwyno'r Bil. Gwn fod y gwaith hwn yn barhad o waith y Gweinidog blaenorol, Mr Carl Sargeant. Fodd bynnag, teimlaf y gallai'r Bil fod wedi mynd ymhellach, ond rwyf yn awr am drafod y gwelliannau a gasglwyd at ei gilydd yng ngrŵp 1.

As you know, we in the Welsh Conservatives have driven for a considerable time the calls for much-improved transparency and accountability at all levels of elected government across Wales, nowhere more so than in our community councils. I believe that it is a really good move to publish members' interests online, as that brings them in line with other public bodies in Wales. We look forward to the day when, predominantly, as much information as is reasonable and possible for all community councils to share is on websites or in publications—quite a lot of it the council's own business. We now live in a nation of armchair auditors and people who are interested in what happens in democratic bodies. Also, as I have mentioned before in the Chamber, we have five elected layers of governance now, from our community councils right up to the European Parliament. So, it is important that community councils play their part in contributing to the transparency agenda.

Fel y gwyddoch, rydym ni, y Ceidwadwyr Cymreig, wedi bod yn arwain y galw am lawer gwell tryloywder ac atebolrwydd ar bob lefel o lywodraeth etholedig ar draws Cymru ers peth amser, ac yn arbennig felly yn ein cynghorau cymuned. Credaf ei bod yn dda iawn o beth cyhoeddi buddiannau aelodau ar-lein, gan fod hynny'n cyd-fynd â'r hyn sy'n digwydd mewn cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Rydym yn edrych ymlaen at yr adeg pan fydd cymaint o wybodaeth ag y mae'n rhesymol ac yn bosibl i bob cyngor cymuned ei rhannu, at ei gilydd, ar gael ar wefannau neu mewn cyhoeddiadau—cryn dipyn ohono'n fusnes y cyngor ei hun. Rydym bellach yn byw mewn cenedl o archwilwyr cadair freichiau a phobl sydd â diddordeb yn yr hyn sy'n digwydd mewn cyrff democrataidd. Hefyd, fel yr wyf wedi'i ddweud o'r blaen yn y Siambr, mae gennym bellach bum haen etholedig o lywodraethu, o'n cynghorau cymuned hyd at Senedd Ewrop. Felly, mae'n bwysig bod cynghorau cymuned yn chwarae eu rhan ac yn cyfrannu at yr agenda dryloywder.

As far as the other substantive amendment in this group is concerned, namely amendment 58 on remote attendance, we support the Government's amendment, but we also seek further assurances from the Minister that she may in future offer some form of guidance that clearly outlines that while 30% is the figure now, as opposed to 50%, for members to be in attendance, it will not become the norm. In one breath, as a Government, with our support, we are bringing forward something by which we can have greater interaction with our residents, especially with live streaming and webcasting, but, at the end of the day, people do engage by attending council meetings, or they go online for live streaming and webcasting, so it is only fair that they do not see the majority of seats empty.

O ran y prif welliant arall yn y grŵp hwn, sef gwelliant 58 ar fynychu o bell, rydym yn cefnogi gwelliant y Llywodraeth, ond rydym hefyd yn ceisio sicrwydd pellach gan y Gweinidog y gallai yn y dyfodol gynnig rhyw fath o ganllawiau sy'n amlinellu'n glir, er mai 30% yw'r ffigur ar hyn o bryd ar gyfer presenoldeb aelodau, yn hytrach na 50%, na fydd hynny'n dod yn norm. Ag un anadl, fel Llywodraeth, gyda'n cymorth ni, rydym yn cyflwyno rhywbeth a fydd yn ein galluogi i ryngweithio mwy â'n trigolion, yn enwedig drwy ffrydio byw a gwe-ddarlledu, ond, yn y bôn, mae pobl yn cymryd rhan trwy fynychu cyfarfodydd cyngor, neu maent yn mynd ar-lein ar gyfer ffrydio byw a gwe-ddarlledu, felly nid yw ond yn deg nad oes raid iddynt weld y rhan fwyaf o'r seddi'n wag.

Of course, there are concerns about meetings being quorate. Quite often, across the range of local authorities, attendance at some meetings can be less than reasonable. Remote attendance should enable local authority members to play their part in proceedings, but I do not want it to be seen as a way of allowing them to miss meetings. I will support those amendments.

Wrth gwrs, mae pryderon am gael cworwm mewn cyfarfodydd. Yn aml iawn, ar draws yr awdurdodau lleol, gall presenoldeb mewn rhai cyfarfodydd fod yn llai na rhesymol. Dylai mynychu o bell alluogi aelodau awdurdodau lleol i chwarae eu rhan yn y trafodion, ond nid wyf am iddo gael ei weld fel ffordd o ganiatáu iddynt golli cyfarfodydd. Byddaf yn cefnogi'r gwelliannau hynny.

15:50 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I will start by saying that I am happy to support amendment 18, which was removed in error by the committee, and that is entirely my fault. I apologise for that. As regards the other amendments that are in front of us, first, I will address amendment 1, which I tabled relating to remote attendance, and amendments 58 and 59, which also relate to remote attendance. My concern around these amendments is that we are in a situation whereby no council currently operates that remote attendance provision, simply because that part of the Local Government (Wales) Measure 2011 has not been commenced yet, so we have no experience or evidence on which to base the amendments that the Minister is bringing forward today. No council has worked out yet whether it is practical to have a meeting with only half its members in one place and the remaining members participating from a remote location using new technology. I find it difficult to understand how anyone can chair a meeting properly when only 30% of the members are in the room and the rest take part through video-conferencing. It seems to me, for that reason, that this amendment is premature. I think that I said to the Minister in a meeting prior to the debate that if she had put an amendment forward saying that she could amend this proportion by regulation, having had regard to the experience of operating a remote attendance regime, I would have been happy to support that. Unfortunately, we are being asked to reduce the percentage from 50% to 30% on the basis of no evidence or experience and before that part of the Local Government (Wales) Measure 2011 has been commenced. It seems to me that we are trying to run before we can walk in that regard. For that reason, my group will not be supporting that provision.

Rwyf am ddechrau drwy ddweud fy mod yn hapus i gefnogi gwelliant 18, y cafodd y pwyllgor wared arno drwy gamgymeriad, a fy mai i yn llwyr yw hynny. Ymddiheuraf am hynny. O ran y gwelliannau eraill sydd ger ein bron byddaf, yn gyntaf, yn trafod gwelliant 1, a gyflwynwyd gennyf i ac sy'n ymwneud â mynychu o bell, a gwelliannau 58 a 59, sydd hefyd yn ymwneud â mynychu o bell. Fy mhryder ynghylch y gwelliannau hyn yw ein bod mewn sefyllfa lle nad oes yr un cyngor ar hyn o bryd yn gweithredu'r ddarpariaeth mynychu o bell, oherwydd nad yw'r rhan honno o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wedi ei chychwyn eto, ac felly nid oes gennym unrhyw brofiad na thystiolaeth yn sail i'r gwelliannau y mae'r Gweinidog yn eu cyflwyno heddiw. Nid oes yr un cyngor wedi cael gwybod eto a yw'n ymarferol cael cyfarfod a dim ond hanner ei aelodau mewn un lle a'r aelodau sy'n weddill yn cymryd rhan o leoliad anghysbell drwy ddefnyddio technoleg newydd. Rwyf yn ei chael yn anodd deall sut y gall unrhyw un gadeirio cyfarfod yn briodol pan nad oes ond 30% o'r aelodau yn yr ystafell a'r gweddill yn cymryd rhan drwy fideogynadledda. Mae'n ymddangos i mi, am y rheswm hwnnw, fod y gwelliant hwn yn gynamserol. Credaf imi ddweud wrth y Gweinidog mewn cyfarfod cyn y ddadl, pe bai hi wedi cyflwyno gwelliant yn dweud y gallai ddiwygio'r gyfran hon drwy reoliadau, ar ôl rhoi ystyriaeth i'r profiad o weithredu cyfundrefn mynychu o bell, y byddwn wedi bod yn hapus i gefnogi hynny. Yn anffodus, gofynnir inni ostwng y ganran o 50% i 30% heb ddim tystiolaeth na phrofiad a chyn i'r rhan honno o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 gael ei chychwyn. Mae'n ymddangos i mi ein bod yn ceisio cerdded cyn cropian yn hynny o beth. Am y rheswm hwnnw, ni fydd fy ngrŵp yn cefnogi'r ddarpariaeth honno.

With regard to amendment 3, tabled in my name and supported by Rhodri Glyn Thomas, the Minister says that it has been drawn too widely. I find that difficult to understand. All it is asking for is that the local council should facilitate the recording of proceedings—it does not say that the council has to help with recording, it only has to facilitate—and that, in doing so, it acts in a reasonable manner and does what is practicable. That is a fairly cautious way of doing that. In Carmarthenshire, someone who attempted to record a council meeting was thrown out of the room and stopped from doing so. In England, the Government is facilitating this sort of reporting by citizens and encouraging it. It seems to me that that is a reasonable and practical way of engaging local people in council proceedings. Therefore, I find it difficult to understand why the Government is opposing this amendment. I hope that Members will consider that this is a reasonable request.

O ran gwelliant 3, a gyflwynwyd yn fy enw i gyda chefnogaeth Rhodri Glyn Thomas, mae'r Gweinidog yn dweud ei fod yn rhy eang. Rwyf yn ei chael yn anodd deall hynny. Y cyfan y mae'n ei ofyn yw y dylai'r cyngor lleol hwyluso cofnodi'r trafodion—nid yw'n dweud bod yn rhaid i'r cyngor helpu i gofnodi, dim ond hwyluso sydd raid iddo—ac, wrth wneud hynny, y dylai weithredu mewn modd rhesymol a gwneud yr hyn sy'n ymarferol. Mae hynny'n ffordd eithaf gofalus o wneud hynny. Yn Sir Gaerfyrddin, cafodd rhywun a oedd yn ceisio cofnodi cyfarfod y cyngor ei daflu allan o'r ystafell a'i rwystro rhag gwneud hynny. Yn Lloegr, mae'r Llywodraeth yn hwyluso'r math hwn o adrodd gan ddinasyddion ac yn ei annog. Mae'n ymddangos i mi fod hon yn ffordd resymol ac ymarferol o gynnwys pobl leol yn nhrafodion cynghorau. Felly, rwyf yn ei chael yn anodd deall pam y mae'r Llywodraeth yn gwrthwynebu'r gwelliant hwn. Rwyf yn gobeithio y bydd yr Aelodau'n ystyried bod hwn yn gais rhesymol.

Finally, on amendment 8, I understand that the Minister does not want to spook the horses, so to speak, as regards community councils. Some of them are struggling to come to terms with having to have a website already, never mind what they have to put on that website. It seems eminently practical to have set out on the face of the Bill a list of things that community councils have to put on their websites, though at some stage in the future things may change, and the Minister may want to amend that by regulation, albeit through the affirmative procedure. It seems to me to be a sensible amendment to allow the Minister to do that. Otherwise, at some stage in the future, we may have to legislate through a primary legislative process to change that. That would be undesirable and would not be a good way of using the Assembly's time. We have been trying to be helpful in that regard. If the Minister does not want that power, it is a matter for her, but I believe that it is sensible to allow for that change by regulation in the event of changes—not necessarily next year or the year after, but five or ten years in the future, when things will have changed quite substantially in relation to new technology and the way in which councils operate.

Yn olaf, o ran gwelliant 8, rwyf yn deall nad yw'r Gweinidog yn awyddus i ddychryn y ceffylau, fel petai, o ran cynghorau cymuned. Mae rhai ohonynt eisoes yn ei chael yn anodd dod i delerau â gorfod cael gwefan, heb sôn am yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei roi ar y wefan honno. Ymddengys yn hynod ymarferol nodi ar wyneb y Bil restr o bethau y mae'n rhaid i gynghorau cymuned eu rhoi ar eu gwefannau, er y gallai pethau newid rywbryd yn y dyfodol, ac efallai y bydd y Gweinidog yn dymuno newid hynny drwy reoliadau, er drwy'r weithdrefn gadarnhaol. Mae'n ymddangos i mi fod hwn yn welliant synhwyrol i ganiatáu i'r Gweinidog wneud hynny. Fel arall, ar ryw adeg yn y dyfodol, efallai y bydd yn rhaid inni ddeddfu drwy broses ddeddfwriaeth sylfaenol i newid hynny. Ni fyddai hynny'n dda o beth ac ni fyddai'n ffordd dda o ddefnyddio amser y Cynulliad. Rydym wedi bod yn ceisio bod o gymorth yn y cyswllt hwnnw. Os nad yw'r Gweinidog am gael y grym hwnnw, mater iddi hi yw hynny, ond credaf ei bod yn synhwyrol darparu ar gyfer y newid hwnnw drwy reoliadau pe byddai pethau'n newid—nid o reidrwydd y flwyddyn nesaf na'r flwyddyn wedyn, ond ymhen pump neu ddeng mlynedd, pan fydd pethau wedi newid yn eithaf sylweddol o ran technoleg newydd a'r ffordd y mae cynghorau'n gweithredu.

15:54

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Peter Black for his apology in relation to amendment 18; I graciously accept that. I understand that a great deal of work will need to be done around technology, but I think that local authorities are up for this. In relation to the 30%, I should stress, as I did in my opening remarks, that this does not prevent a council having a higher percentage requirement in its standing orders if it wishes. At present, only Powys has asked for that 30%.

Diolch i Peter Black am ei ymddiheuriad o ran gwelliant 18; rwyf yn derbyn hynny'n raslon. Rwyf yn deall y bydd angen gwneud llawer iawn o waith o ran technoleg, ond credaf fod awdurdodau lleol yn barod am hynny. O ran y 30%, dylwn bwysleisio, fel y gwneuthum yn fy sylwadau agoriadol, nad yw hyn yn atal cyngor rhag cael canran ofynnol uwch yn ei reolau sefydlog os yw'n dymuno. Ar hyn o bryd, dim ond Powys sydd wedi gofyn am y 30% hwnnw.

In relation to community council websites, I met yesterday with One Voice Wales, and certainly community councils are recognising the need to have a website, and the funding that was announced by my predecessor for this purpose is now out there and being shared between the community councils. I am absolutely sure that the introduction of remote attendance at council meetings, and the establishment across Wales of the said websites by community councils, will serve to increase both councillor and public engagement with local authorities.

O ran gwefannau cynghorau cymuned, cyfarfûm ddoe ag Un Llais Cymru, ac yn sicr mae cynghorau cymuned yn cydnabod yr angen i gael gwefan, ac mae'r arian a gyhoeddwyd gan fy rhagflaenydd at y diben hwn yn awr ar gael ac yn cael ei rannu rhwng y cynghorau cymuned. Rwyf yn gwbl sicr y bydd cyflwyno darpariaeth mynychu cyfarfodydd cynghorau o bell, a sefydlu'r gwefannau hyn ar draws Cymru gan gynghorau cymuned, yn fodd o hybu ymgysylltiad cynghorwyr a'r cyhoedd ag awdurdodau lleol.

15:56

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 18 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 18 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 18. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 18 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 18.*

*Amendment 18 agreed.*

15:56

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Peter Black to move amendment 1.

Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 1.

15:56

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 1 in my name.

Cynigiaf welliant 1 yn fy enw i.

15:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 1 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will proceed to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly awn ymlaen at bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1.

Result of the vote on amendment 1.

*Gwrthodwyd gwelliant 1: O blaid 24, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 1 not agreed: For 24, Against 27, Abstain 0.*

## Grŵp 2: Aelodau o'r Comisiwn Ffiniau (Gwelliant 10)

## Group 2: Members of the Boundary Commission (Amendment 10)

15:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in this group is amendment 10. I call on Rhodri Glyn Thomas to move amendment 10 and to speak to the amendment, but Rhodri Glyn Thomas is not here, so does anyone else wish to move and speak to amendment 10? I call on Lindsay Whittle.

Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 10. Galwaf ar Rhodri Glyn Thomas i gynnig gwelliant 10 ac i siarad am y gwelliant, ond nid yw Rhodri Glyn Thomas yma, felly a oes rhywun arall yn dymuno cynnig gwelliant 10 a siarad amdano? Galwaf ar Lindsay Whittle.

15:57 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Tonight I am going to be Rhodri Glyn Thomas. [Laughter.] I move amendment 10 in the name of Rhodri Glyn Thomas and with the names of Peter Black and Janet Finch-Saunders in support.

Heno, Rhodri Glyn Thomas fyddaf i. [Chwerthin.] Cynigiaf welliant 10 yn enw Rhodri Glyn Thomas gydag enwau Peter Black a Janet Finch-Saunders yn ei gefnogi.

This amendment is about the boundary commission Welsh language requirement. Our amendment is simple: it states that at least one member of the Local Government Boundary Commission for Wales must be a person who is able to speak the Welsh language. This amendment has the support of all three opposition parties, and originated in the initial committee report on the Bill. We have also received the support of the Electoral Reform Society in Wales. We tabled this amendment at Stage 2 of the Bill when, rather disappointingly, it fell.

Mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â gofyniad y Gymraeg a'r comisiwn ffiniau. Mae ein gwelliant yn syml: mae'n datgan bod yn rhaid i o leiaf un aelod o'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru fod yn rhywun sy'n medru'r Gymraeg. Mae pob un o'r tair gwrthblaid yn cefnogi'r gwelliant hwn, ac mae'n tarddu o adroddiad cychwynnol y pwyllgor ar y Bil. Rydym hefyd wedi cael cefnogaeth y Gymdeithas Diwygio Etholiadol yng Nghymru. Cyflwynwyd y gwelliant hwn gennym yng Nghyfnod 2 y Bil ond fe'i gwrthodwyd bryd hynny, ac roedd hynny'n destun siom.

Schedule 8 to the Local Government Act 1972 forms the very basis of our amendment. The legislation that we are debating today would remove that statutory requirement for a Welsh-speaking boundary commissioner. The importance of including linguistic factors in the decisions of the local government boundary commission is really quite essential. Any decisions on boundaries have to take note of the integrity and identity of communities, and the role of the Welsh language within those communities. Do not forget, the Welsh language belongs to us all, whether it is in your head or your heart. In fairness, the Welsh Government has recognised this throughout proceedings, and has assured us that the forthcoming Welsh language standards will be strong enough to achieve what we are trying to do through this amendment. We would welcome any further assurances that you can give, Minister, but we have left this amendment on the table in order to make the point that we did not want the provisions of the 1972 Act watered down for this Bill. We saw no risk at all in legislating to ensure that the statutory requirement is in place without having to wait for those new standards.

Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yw sail ein gwelliant. Byddai'r ddeddfwriaeth yr ydym yn ei thrafod heddiw'n dileu'r gofyniad statudol i gael comisiynydd ffiniau sy'n medru'r Cymraeg. Mae pwysigrwydd cynnwys ffactorau ieithyddol ym mhenderfyniadau'r comisiwn ffiniau llywodraeth leol yn allweddol mewn gwirionedd. Rhaid i unrhyw benderfyniadau am ffiniau ystyried uniondeb a hunaniaeth cymunedau, a rôl y Gymraeg o fewn y cymunedau hynny. Rhaid cofio bod y Gymraeg yn perthyn i bob un ohonom, boed hi yn eich pen neu yn eich calon. A bod yn deg, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod hyn drwy gydol y trafodion, ac mae wedi ein sicrhau y bydd safonau'r Gymraeg sydd ar y gweill yn ddigon cryf i gyflawni'r hyn yr ydym yn ceisio'i wneud drwy'r gwelliant hwn. Byddem yn croesawu unrhyw sicrwydd pellach y gallwch ei roi, Weinidog, ond rydym wedi gadael y gwelliant hwn ar y bwrdd er mwyn gwneud y pwynt nad oedd arnom eisiau i ddarpariaethau Deddf 1972 gael eu glastwreiddio ar gyfer y Bil hwn. Nid oeddem yn gweld dim risg o gwbl mewn deddfu i sicrhau bod y gofyniad statudol wedi'i sefydlu heb orfod aros am y safonau newydd hynny.

15:59 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am happy to support this amendment. It is important that the provision that is already there—that one member of the commission should be able to speak Welsh—is preserved, especially since we are increasing the size of the commission in this Bill. It seems to me that the evidence to the committee at Stage 1 was fairly strong in terms of how useful and helpful it would be to ensure that there is a Welsh-speaking member of the commission in terms of community names and dealing with correspondence and other interactions with the commission. I understand that the Government's position is that the Welsh language Measure will bring standards in, but that is a few years away. In the meantime, we will have a hiatus whereby there will be no provision relating to the Welsh language for the commission, affecting this statute, because we will have repealed paragraph 1 and 2 of Schedule 8 to the Local Government Act 1972.

Rwyf yn hapus i gefnogi'r gwelliant hwn. Mae'n bwysig bod y ddarpariaeth sydd eisoes yno—y dylai un aelod o'r comisiwn fod yn medru'r Gymraeg—yn cael ei chadw, yn enwedig gan ein bod yn gwneud y comisiwn yn fwy yn y Bil hwn. Mae'n ymddangos i mi fod y dystiolaeth i'r pwyllgor yng Nghyfnod 1 yn eithaf cryf o ran pa mor ddefnyddiol a buddiol fyddai sicrhau bod aelod o'r comisiwn yn siarad Cymraeg o ran enwau cymunedol a delio â gohebiaeth a mathau eraill o ryngweithio â'r comisiwn. Rwyf yn deall mai safbwynt y Llywodraeth yw y bydd Mesur y Gymraeg yn cyflwyno safonau, ond mae rhai blynyddoedd tan y bydd hynny'n digwydd. Yn y cyfamser, bydd gennym fwlch lle na fydd unrhyw ddarpariaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg ar gyfer y comisiwn, sy'n effeithio ar y statud hwn, oherwydd byddwn wedi diddymu paragraff 1 a 2 o Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

I hope that the Government will accept that the need to have a member of the commission able to speak the Welsh language supports not only the language, but the work of the commission in the way in which it interacts with Welsh-speaking communities. I hope that the Government is able to support this amendment as a consequence of that.

Rwyf yn gobeithio y bydd y Llywodraeth yn derbyn bod yr angen i gael aelod o'r comisiwn sy'n medru'r Gymraeg yn cefnogi nid yn unig yr iaith, ond hefyd waith y comisiwn yn y ffordd y mae'n rhyngweithio â chymunedau Cymraeg eu hiaith. Gobeithio y bydd y Llywodraeth yn gallu cefnogi'r gwelliant hwn o ganlyniad i hynny.

16:00 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have listened very carefully to the points made by Lindsay Whittle and Peter Black, but I cannot support this amendment. As I made clear at Stage 2, the removal of the requirement for a Welsh speaker, as introduced in the Bill, seeks to enhance the appointment process for members of the commission when the need arises, so that merit is the overriding qualification for appointment. This proposed amendment would go against this policy provision. You can publish bilingually and use translators much more easily now than in 1972 when this provision was put in the local government Act. There is no such provision for other public bodies because we have to abide by the Welsh Language Act 1993 and the Welsh Language (Wales) Measure 2011, which serves to promote and facilitate the Welsh language. The appointments will be subject to the public appointment scheme, which is covered in the Welsh Government's language scheme. When making the appointments, the Welsh Ministers will take account of the desirability of appointing Welsh speaking members. The scheme makes it clear that members of public bodies should be representative of the communities that they serve. I am satisfied that the appointment process will provide sufficient protection for the Welsh language and I ask Members to resist this amendment.

Rwyf wedi gwrando'n ofalus iawn ar y pwyntiau a wnaed gan Lindsay Whittle a Peter Black, ond ni allaf gefnogi'r gwelliant hwn. Fel yr eglurais yn ystod Cyfnod 2, mae cael gwared ar y gofyniad i gael siaradwr Cymraeg, fel y'i cyflwynwyd yn y Bil, yn ceisio gwella'r broses benodi ar gyfer aelodau'r comisiwn pan fydd yr angen yn codi, fel mai teilyngdod yw'r cymhwyster pwysicaf wrth benodi. Byddai'r newid arfaethedig hwn yn mynd yn erbyn y ddarpariaeth bolisi hon. Gallwch gyhoeddi'n ddwyieithog a defnyddio cyfieithwyr yn llawer haws nawr nag yn 1972 pan roddwyd y ddarpariaeth hon yn y Ddeddf llywodraeth leol. Nid oes darpariaeth o'r fath ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill oherwydd mae'n rhaid inni gadw at Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg 2011 (Cymru), sy'n hyrwyddo ac yn hwyluso'r Gymraeg. Bydd y penodiadau'n ddarostyngedig i'r cynllun penodiadau cyhoeddus, ac mae cynllun iaith Llywodraeth Cymru'n ymdrin â hynny. Wrth wneud y penodiadau, bydd Gweinidogion Cymru'n ystyried dymunoldeb penodi aelodau sy'n siarad Cymraeg. Mae'r cynllun yn ei gwneud yn glir y dylai aelodau o gyrff cyhoeddus fod yn gynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Rwyf yn fodlon y bydd y broses benodi yn darparu diogelwch digonol i'r Gymraeg a gofynnaf i'r Aelodau wrthod y gwelliant hwn.

16:02 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is a very sad day given that we still have to fight to ensure the survival of the Welsh language in this Chamber. I am attending Welsh lessons in this very establishment to try to improve my little knowledge of Welsh. This would give greater stability to the Welsh language. I mentioned earlier it does not have to be in your head but can be in your heart. Minister, I appeal to you to get the Welsh language into your heart. I strongly urge you to reconsider.

Mae'n ddiwrnod trist iawn o ystyried ein bod yn dal i orfod ymladd i sicrhau parhad y Gymraeg yn y Siambr hon. Rwyf yn cael gwersi Cymraeg yn yr union sefydliad hwn i geisio gwella'r ychydig Gymraeg sydd gennyf. Byddai hyn yn rhoi mwy o sefydlogrwydd i'r Gymraeg. Soniais yn gynharach nad oes raid iddi fod yn eich pen, ond y gall fod yn eich calon. Weinidog, yr wyf yn apelio arnoch i dderbyn y Gymraeg i'ch calon. Rwyf yn eich annog yn gryf i ailystyried.

16:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 10 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move straight to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 10. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn yn syth at bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 10.

Result of the vote on amendment 10.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 24, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 24, Against 27, Abstain 0.*

**Grŵp 3: Technegol (Gwelliannau 19, 46, 47, 49 a 50)**

**Group 3: Technical (Amendments 19, 46, 47, 49 and 50)**

16:03 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Lesley Griffiths to move amendment 19 and to speak to it and the other amendments in the group.

Galwaf ar Lesley Griffiths i gynnig gwelliant 19 ac i siarad am y gwelliant hwnnw a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

16:03 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 19 in my name.

Cynigiaf welliant 19 yn fy enw i.

The amendments in this group are technical in nature, amending Welsh text to be in keeping with the English text. I ask Members to support these amendments.

Mae'r gwelliannau yn y grŵp hwn yn dechnegol eu natur, ac yn ymwneud â diwygio'r testun Cymraeg i gyd-fynd â'r testun Saesneg. Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r gwelliannau hyn.

16:03 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no other speakers. I assume that nobody wishes to reply to the debate.

Nid oes gennyf siaradwyr eraill. Cymeraf nad oes neb yn dymuno ymateb i'r ddadl.

The question is that amendment 19 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 19 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 19. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 19 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 19.*

*Amendment 19 agreed.*

**Grŵp 4: Adolygiadau Etholiadol (Gwelliannau 20, 21, 22, 23, 24, 25, 26, 27, 28, 29, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44, 45, 48 a 57)**

**Group 4: Electoral Reviews (Amendments 20, 21, 22, 23, 24, 25, 26, 27, 28, 29, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44, 45, 48 and 57)**

16:03 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Lesley Griffiths to move amendment 20 and to speak to it and the other amendments in the group.

Galwaf ar Lesley Griffiths i gynnig gwelliant 20 ac i siarad am y gwelliant hwnnw a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

16:04 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I move amendment 20 in my name.

Diolch ichi, Lywydd. Cynigiaf welliant 20 yn fy enw i.

Currently, the area represented by a county councillor is known as an electoral division, but just about everyone refers to these areas as wards. I listened to the arguments put forward and, at Stage 2, I made the commitment to bring forward these amendments to ensure that the legislation uses the same language as is commonly used by stakeholders. I am sure that this will be welcomed by county councillors across the country. I ask Members to support these amendments.

Ar hyn o bryd, adran etholiadol yw'r enw ar ardal a gynrychiolir gan gynghorydd sir, ond mae pawb bron yn cyfeirio at yr ardaloedd hyn fel wardiau. Gwrandewais ar y dadleuon a gyflwynwyd ac, yng Nghyfnod 2, ymrwymais i gyflwyno'r gwelliannau hyn er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn defnyddio'r un iaith ag a ddefnyddir yn gyffredin gan randdeiliaid. Rwyf yn siŵr y bydd cynghorwyr sir ledled y wlad yn croesawu hyn. Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r gwelliannau hyn.

16:04 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I just want to welcome the Minister's change of heart on this and to show what happens when the Minister listens and we can apply common sense to these things. I hope that she will listen equally as intently when it comes to other amendments we are proposing.

Rwyf am groesawu newid meddwl y Gweinidog yn hyn o beth a dangos yr hyn sy'n digwydd pan fydd y Gweinidog yn gwrando a phan allwn ddefnyddio synnwyr cyffredin yn y pethau hyn. Rwyf yn gobeithio y bydd yn gwrando yr un mor astud pan ddaw at y gwelliannau eraill yr ydym yn eu cynnig.

16:04 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Peter Black for that. I think that this will clear up a lot of confusion. It is common sense because what a councillor represents is called their ward.

Diolch i Peter Black am hynny. Credaf y bydd hyn yn datrys llawer o ddryswch. Mae'n gwneud synnwyr, oherwydd ward yw'r enw y mae pobl yn ei roi ar yr hyn y mae cynghorydd yn ei gynrychioli.

16:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am proposing that amendments 20 to 45, which appear consecutively on the marshalled list are disposed of en bloc. Does any Member object? There are no objections. Amendment 20 has already been moved by the Minister. Therefore, Minister, will you move amendments 21 to 45?

Cynigiaf fod gwelliannau 20 i 45, sy'n ymddangos yn olynol ar y rhestr o welliannau wedi'u didoli, yn cael eu gwaredu gyda'i gilydd. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 20 eisoes wedi ei gynnig gan y Gweinidog. Felly, Weinidog, a wnewch chi gynnig gwelliannau 21 i 45?

16:05 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 21 to 45 in my name.

Cynigiaf welliannau 21 i 45 yn fy enw i.

16:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendments 20 to 45 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendments 20 to 45 are agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliannau 20 i 45. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliannau 20 i 45 wedi'u derbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliannau 20, 21, 22, 23, 24, 25, 26, 27, 28, 29, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44 a 45.*

*Amendments 20, 21, 22, 23, 24, 25, 26, 27, 28, 29, 30, 31, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44 and 45 agreed.*

16:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We will now move to dispose of the next amendments on the marshalled list. I call on the Minister to move amendment 46.

Symudwn yn awr at waredu'r gwelliannau nesaf ar y rhestr o welliannau wedi'u didoli. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 46.

16:05 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 46 in my name.

Cynigiaf welliant 46 yn fy enw i.

16:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 46 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 46 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 46. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 46 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36

*Derbyniwyd gwelliant 46.* *Amendment 46 agreed.*

16:05

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to dispose of amendment 47. I call on the Minister to move amendment 47.

Symudwn yn awr at waredu gwelliant 47. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 47.

16:05

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 47 in my name.

Cynigiaf welliant 47 yn fy enw i.

16:05

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 47 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 47 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 47. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 47 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 47.* *Amendment 47 agreed.*

16:05

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 48.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 48.

16:06

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 48 in my name.

Cynigiaf welliant 48 yn fy enw i.

16:06

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 48 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 48 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 48. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 48 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36

*Derbyniwyd gwelliant 48.* *Amendment 48 agreed.*

16:06

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 49.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 49.

16:06

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 49 in my name.

Cynigiaf welliant 49 yn fy enw i.

16:06

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 49 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 49 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 49. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 49 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 49.* *Amendment 49 agreed.*

### Grŵp 5: Adolygiadau o Gyrff Cymwys (Gwelliannau 11, 12, 13, 14 a 17)

### Group 5: Reviews of Qualifying Bodies (Amendments 11, 12, 13, 14 and 17)

16:06

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in this group is amendment 11. I call on Lindsay Whittle to move amendment 11 and speak to that amendment and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 11. Galwaf ar Lindsay Whittle i gynnig gwelliant 11 ac i siarad am y gwelliant hwnnw a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

16:06

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 11 in the name of Rhodri Glyn Thomas and with the names of Peter Black and Janet Finch-Saunders in support.

Cynigiaf welliant 11 yn enw Rhodri Glyn Thomas gydag enwau Peter Black a Janet Finch-Saunders yn ei gefnogi.

The amendment is about the review of qualifying bodies and stems from the additional scrutiny of the Bill by the committee. It was tabled with the support of Peter Black and Janet Finch-Saunders. Our amendment simply seeks to replace the power of the Welsh Ministers to direct the Boundary Commission for Wales to review the qualifying bodies with a power to make Orders to the commission to review the qualifying bodies. This covers the bodies that the boundary commission would be able to look at in future, which is a provision in the Bill that the previous Minister wanted to include as a futureproofing tool to give the commission an enhanced remit. Under this remit, the Government would allow the commission to review and make proposals on the constitution of a range of public bodies in Wales.

Mae'r gwelliant yn ymwneud ag adolygu cyrff cymwys ac mae'n deillio o'r craffu ychwanegol ar y Bil gan y pwyllgor. Fe'i cyflwynwyd gyda chefnogaeth Peter Black a Janet Finch-Saunders. Mae ein gwelliant yn ceisio disodli grym Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Comisiwn Ffiniau i Gymru i adolygu'r cyrff cymwys â grym i wneud Gorchmynion i'r comisiwn adolygu'r cyrff cymwys. Mae hyn yn cynnwys y cyrff y byddai'r comisiwn ffiniau'n gallu edrych arnynt yn y dyfodol, sy'n ddarpariaeth yn y Bil yr oedd y Gweinidog blaenorol yn awyddus i'w chynnwys fel arf diogelu at y dyfodol i roi cylch gwaith ehangach i'r comisiwn. O dan y cylch gwaith hwn, byddai'r Llywodraeth yn caniatáu i'r comisiwn adolygu a gwneud cynigion ar gyfansoddiad amryw o gyrff cyhoeddus yng Nghymru.

We do not disagree, Minister, with giving the commission that future remit, but we want the Bill to allow a power to make Orders to the commission to review its list of qualifying bodies, which would list all of the bodies that the commission can review. The power to make Orders would be subject to the affirmative procedure, based on amendment 17. This would entail laying a statutory instrument before the National Assembly whenever an Order was made. This would allow more scrutiny of the boundary commission's future remit when it comes to looking at public bodies. The other amendments in this group are consequential to amendment 11.

Nid ydym yn anghytuno, Weinidog, â rhoi'r cylch gwaith hwnnw i'r comisiwn yn y dyfodol, ond rydym am i'r Bil ganiatáu grym i wneud Gorchmynion i'r comisiwn adolygu ei restr o gyrff cymwys, a fyddai'n rhestru'r holl gyrff y gall y comisiwn eu hadolygu . Byddai'r grym i wneud Gorchmynion yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, yn seiliedig ar welliant 17. Byddai hyn yn golygu gosod offeryn statudol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol pryd bynnag y gwneir Gorchymyn. Byddai hyn yn caniatáu mwy o graffu ar gylch gorchwyl y comisiwn ffiniau yn y dyfodol pan ddaw'n fater o edrych ar gyrff cyhoeddus. Mae'r gwelliannau eraill yn y grŵp hwn yn ganlyniadol i welliant 11.

16:08

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The issue with this particular clause is that, in the evidence given at Stage 1, the Minister and other people were very unclear as to which bodies this would apply to. Also, in terms of futureproofing, there is the matter of what future bodies it may apply to. I accept that there has to be some provision whereby a new body to which this clause would apply has to be accommodated, but it seems to us that the most democratic way of doing that, without putting a list on the face of the Bill, was to ensure that the Minister should do this by Order rather than direction. Members in the Chamber might want to have some oversight of that particular process. For that reason, I am happy to support the amendments in this group. I hope that the Minister will accept that the most democratic, accountable and transparent way to do this is by Order, rather than direction, simply because there needs to be a process of scrutiny where any new body is brought under this ambit and effectively offered up to the commission for a future review. That is a sensible way forward and one that I hope the Minister will see as helpful.

Y broblem â'r cymal penodol hwn yw nad oedd y Gweinidog ac eraill, yn y dystiolaeth a roddwyd yn ystod Cyfnod 1, yn glir iawn ynghylch i ba gyrff y byddai hyn yn berthnasol. Hefyd, o ran diogelu at y dyfodol, rhaid ystyried i ba gyrff y gallai fod yn berthnasol yn y dyfodol. Rwyf yn derbyn bod yn rhaid cael rhywfaint o ddarpariaeth lle byddai'n rhaid cynnwys corff newydd y byddai'r cymal hwn yn berthnasol iddo, ond mae'n ymddangos i ni mai'r ffordd fwyaf democrataidd o wneud hynny, heb roi rhestr ar wyneb y Bil, yw sicrhau y dylai'r Gweinidog wneud hyn drwy Orchymyn yn hytrach na chyfarwyddyd. Efallai y bydd Aelodau yn y Siambr yn awyddus i oruchwylio rhywfaint ar y broses benodol honno. Am y rheswm hwnnw, rwyf yn hapus i gefnogi'r gwelliannau yn y grŵp hwn. Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn derbyn mai'r ffordd fwyaf democrataidd, atebol a thryloyw o wneud hyn yw drwy Orchymyn, yn hytrach na chyfarwyddyd, a hynny oherwydd bod yn rhaid wrth broses o graffu lle mae unrhyw gorff newydd yn cael ei ddwyn o dan y cwmpas hwn ac i bob pwrpas yn cael ei gynnig i'r comisiwn ar gyfer adolygiad yn y dyfodol. Mae hynny'n ffordd synhwyrol ymlaen ac yn un yr wyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn ei hystyried yn ddefnyddiol.

16:09 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have listened to what both Lindsay Whittle and Peter Black have said but I cannot support the amendments. The provision in the Bill will allow an independent review of an organisation's membership to take place rather than Welsh Ministers undertaking a review of their own on any restructuring. I would like to reassure Members that Welsh Ministers will still determine whether to accept the commission's recommendations. It is considered that, as the commission would only have the power to undertake a review following a direction, introducing an affirmative process for an Order would be disproportionate, given that the real decision is taken after the review is carried out. So, I would urge Members to resist these amendments.

Rwyf wedi gwrando ar yr hyn y mae Lindsay Whittle a Peter Black wedi'i ddweud, ond ni allaf gefnogi'r gwelliannau. Bydd y ddarpariaeth yn y Bil yn caniatáu i adolygiad annibynnol o aelodaeth sefydliad ddigwydd yn hytrach na bod Gweinidogion Cymru'n cynnal eu hadolygiad eu hunain ar unrhyw ailstrwythuro. Hoffwn sicrhau'r Aelodau mai Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu o hyd p'un a ddylid derbyn argymhellion y comisiwn. Gan mai dim ond drwy gyfarwyddyd y bydd gan y comisiwn rym i gynnal adolygiad, ystyrir y byddai cyflwyno proses gadarnhaol ar gyfer Gorchymyn yn anghymesur, o gofio bod y penderfyniad go iawn yn cael ei wneud ar ôl i'r adolygiad gael ei gynnal. Felly, byddwn yn annog yr Aelodau i wrthod y gwelliannau hyn.

16:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Lindsay Whittle to reply.

Galwaf ar Lindsay Whittle i ymateb.

16:10 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is a brief reply, Minister. This is all about Ministers accepting their responsibility to review. It is as plain and simple as that, and it is what the public that we are elected to represent would expect. I urge you to reconsider, but I am probably not going to win today.

Mae'n ateb byr, Weinidog. Mae hyn yn ymwneud â sicrhau bod Gweinidogion yn derbyn eu cyfrifoldeb i adolygu. Mae mor hawdd â hynny, a dyna y byddai'r cyhoedd yr ydym wedi ein hethol i'w cynrychioli yn ei ddisgwyl. Fe'ch anogaf i ailystyried, ond mae'n debyg nad wyf yn mynd i ennill heddiw.

16:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 11 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 11. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 11.

Result of the vote on amendment 11.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 24, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 24, Against 27, Abstain 0.*

16:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Lindsay Whittle to move amendment 12.

Galwaf ar Lindsay Whittle i gynnig gwelliant 12.

16:10 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I apologise, Llywydd, because I have never done this before. I should have moved amendments 12, 13, 14 and 7.

Ymddiheuraf, Lywydd, oherwydd nid wyf erioed wedi gwneud hyn o'r blaen. Dylwn fod wedi cynnig gwelliannau 12, 13, 14 a 7.

16:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, just one at a time. I am sorry, but we have to do it one at a time. So, it is just to move amendment 12.

Na, dim ond un ar y tro. Mae'n ddrwg gennyf, ond mae'n rhaid inni wneud hyn un ar y tro. Felly, cynigiwch welliant 12 yn unig.

16:11 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 12 in the name of Rhodri Glyn Thomas and with the names of Peter Black and Janet Finch-Saunders in support.

Cynigiaf welliant 12 yn enw Rhodri Glyn Thomas gydag enwau Peter Black a Janet Finch-Saunders yn ei gefnogi.

16:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 12 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 12. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 12.

Result of the vote on amendment 12.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 24, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 24, Against 27, Abstain 0.*

16:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Lindsay Whittle to move amendment 13.

Galwaf ar Lindsay Whittle i gynnig gwelliant 13.

16:11 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 13 in the name of Rhodri Glyn Thomas and with the names of Peter Black and Janet Finch-Saunders in support.

Cynigiaf welliant 13 yn enw Rhodri Glyn Thomas gydag enwau Peter Black a Janet Finch-Saunders yn ei gefnogi.

16:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 13 is not agreed to, then amendment 17 will fall. The question is that amendment 13 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move to an electronic vote.

Os na dderbynnir gwelliant 13, yna bydd gwelliant 17 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 13. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 13.

Result of the vote on amendment 13.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 24, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 24, Against 26, Abstain 0.*

16:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Lindsay Whittle to move amendment 14.

Galwaf ar Lindsay Whittle i gynnig gwelliant 14.

16:12 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 14 in the name of Rhodri Glyn Thomas and with the names of Peter Black and Janet Finch-Saunders in support.

Cynigiaf welliant 14 yn enw Rhodri Glyn Thomas gydag enwau Peter Black a Janet Finch-Saunders yn ei gefnogi.

16:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 14 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 14. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 14.

Result of the vote on amendment 14.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 24, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 24, Against 27, Abstain 0.*

16:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to dispose of the next amendments on the marshalled list. I call the Minister to move amendment 50.

Symudwn yn awr at waredu'r gwelliannau nesaf ar y rhestr o welliannau wedi'u didoli. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 50.

16:12 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 50 in my name.

Cynigiaf welliant 50 yn fy enw i.

16:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 50 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 50 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 50. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 50 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 50.*

*Amendment 50 agreed.*

### Grŵp 6: Taliadau i Aelodau Llywyddol (Gwelliannau 51, 52 a 56)

### Group 6: Payment to Presiding Members (Amendments 51, 52 and 56)

16:13 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in this group is amendment 51. I call on the Minister to move amendment 51 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 51. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 51 ac i siarad am y gwelliant hwnnw a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

16:13 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 51 in my name.

Cynigiaf welliant 51 yn fy enw i.

The independent remuneration panel for Wales decides on the remuneration of elected councillors. This has been welcomed across local government, as it removed the embarrassment of councillors voting on their own pay. These amendments make clear that it is the panel's responsibility, not of the council concerned, to set rates of payment for presiding members, civic chairs and their deputies, as well as community council chairs, and corrects an oversight in the Bill. I ask Members to support these amendments.

Panel annibynnol Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol sy'n penderfynu ar gydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr etholedig. Mae hyn wedi ei groesawu ar draws llywodraeth leol, gan ei fod yn cael gwared ar yr embaras o weld cynghorwyr yn pleidleisio ar eu cyflogau eu hunain. Mae'r gwelliannau hyn yn ei gwneud yn glir mai cyfrifoldeb y panel, ac nid y cyngor dan sylw, yw gosod cyfraddau tâl ar gyfer aelodau llywyddu, cadeiryddion dinesig a'u dirprwyon, yn ogystal â chadeiryddion cynghorau cymuned, ac mae'n cywiro amryfusedd yn y Bil. Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r gwelliannau hyn.

16:13 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

While we will support these amendments as they fall in line with the 2008 local government Legislation, and keep it in within that framework, we have concerns. We tabled amendments at Stage 2, but we were defeated. We wonder where this move to split the role has come from. I have not had any representations on this. While there might be some merit in allowing a presiding role, as we enjoy here, and a separate role for a council chair to go out in the community, currently it is the one role that attracts a special responsibility allowance of several thousand pounds. Given that money is tight and that services are having to be cut, council tax increases are very much a part of the Government's agenda. So, we do not believe in creating another special responsibility allowance in splitting the role between a presiding officer and a deputy. I would like some assurances from the Minister— [Interruption.]

Er y byddwn yn cefnogi'r gwelliannau hyn gan eu bod yn unol â Deddfwriaeth llywodraeth leol 2008, ac yn ei chadw o fewn y fframwaith hwnnw, mae gennym bryderon. Cyflwynwyd gwelliannau gennym yng Nghyfnod 2, ond cawsom ein trechu. Rydym yn meddwl tybed o ble y mae'r symudiad hwn i rannu'r rôl wedi dod. Nid wyf wedi cael unrhyw sylwadau ar hyn. Er y gallai fod rhywfaint o werth i ganiatáu rôl lywyddu, fel sydd gennym yma, a rôl ar wahân i gadeirydd y cyngor fynd allan i'r gymuned, ar hyn o bryd dyma'r un rôl sy'n denu lwfans cyfrifoldeb arbennig o rai miloedd o bunnoedd. O gofio bod arian yn brin a bod gwasanaethau'n gorfod cael eu torri, mae cynnydd yn y dreth gyngor yn rhan fawr o agenda'r Llywodraeth. Felly, nid ydym yn credu mewn creu lwfans cyfrifoldeb arbennig arall drwy rannu'r rôl rhwng swyddog llywyddu a dirprwy. Hoffwn gael sicrwydd gan y Gweinidog—[Torri ar draws.]

16:15 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Can we listen to what Janet Finch-Saunders is saying?

Trefn. A gawn ni wrando ar yr hyn y mae Janet Finch-Saunders yn ei ddweud?

16:15 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like some assurances from the Minister that this will not be a fait accompli, creating another special responsibility, as £7,000 or £8,000 multiplied by 22 is a significant amount of Welsh taxpayers' money. I asked your predecessor to clarify this at Stage 1 and Stage 2. You have said that the remuneration panel would only determine the set number of allowances; I threw that one back at you and said that there is also scope within this for discretionary payments to be applied for. I hope that the Minister would support our call that this should not be just an easy route to another special responsibility allowance.

Hoffwn gael sicrwydd gan y Gweinidog na fydd hyn yn fait accompli, ac yn creu cyfrifoldeb arbennig arall, gan fod £7,000 neu £8,000 wedi'i luosi â 22 yn swm sylweddol o arian trethdalwyr Cymru. Gofynnais i'ch rhagflaenydd egluro hyn yn ystod Cyfnod 1 a Chyfnod 2. Rydych wedi dweud na fyddai'r panel cydnabyddiaeth ariannol ond yn penderfynu ar nifer penodedig y lwfansau; taflais hynny'n ôl atoch a dweud bod lle hefyd o fewn hyn i wneud cais am daliadau yn ôl disgresiwn. Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn cefnogi ein galwad na ddylai hyn fod yn llwybr hawdd tuag at lwfans cyfrifoldeb arbennig arall.

16:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Minister to reply.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

16:16 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I hear what Janet Finch-Saunders says. She said at the beginning that she would be supporting the amendment, so I am grateful for that. I am sure that local government will also be grateful that this matter has now been clarified.

Clywaf yr hyn y mae Janet Finch-Saunders yn ei ddweud. Dywedodd ar y dechrau y byddai'n cefnogi'r gwelliant, felly rwyf yn ddiolchgar am hynny. Rwyf yn siŵr y bydd llywodraeth leol hefyd yn ddiolchgar fod y mater hwn bellach wedi ei egluro.

16:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 51 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 51 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 51. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 51 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 51.*

*Amendment 51 agreed.*

16:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 52.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 52.

16:16 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 52 in my name.

Cynigiaf welliant 52 yn fy enw i.

16:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 52 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 52 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 52. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 52 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 52.*

*Amendment 52 agreed.*

### Grŵp 7: Biliau Preifat (Gwelliant 53)

### Group 7: Private Bills (Amendment 53)

16:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead and only amendment in this group is amendment 53. I call on the Minister to move that amendment.

Y prif welliant a'r unig welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 53. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig y gwelliant hwnnw.

16:17 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 53 in my name.

Cynigiaf welliant 53 yn fy enw i.

Section 53 provides for local authorities to oppose a private Bill in the Assembly. Both county councils and community councils may oppose private Bills under parliamentary regulations and arrangements, and the intention is to replicate this with regard to Assembly procedures. At one point in section 53, the term 'principal council' is used instead of 'local authority'. This amendment corrects that and ensures that the duty imposed in this section of the Bill is placed on the local authority that is opposing the private Bill. I ask Members to support this amendment.

Mae adran 53 yn gwneud darpariaeth i awdurdodau lleol wrthwynebu Bil preifat yn y Cynulliad. Gall cynghorau sir a chynghorau cymuned wrthwynebu Biliau preifat o dan reoliadau a threfniadau seneddol, a'r bwriad yw dyblygu hyn mewn perthynas â gweithdrefnau'r Cynulliad. Mewn un man yn adran 53, mae'r term 'prif gyngor' yn cael ei ddefnyddio yn lle 'awdurdod lleol'. Mae'r gwelliant hwn yn cywiro hynny ac yn sicrhau bod y ddyletswydd a osodir yn yr adran hon o'r Bil yn cael ei rhoi ar yr awdurdod lleol sy'n gwrthwynebu'r Bil preifat. Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r gwelliant hwn.

16:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no other speakers. The question is that amendment 53 be agreed to. Does any Member object? There are no objections; therefore amendment 53 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 53. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 53 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 53.*

*Amendment 53 agreed.*

16:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In line with the marshalled list, we will now move to dispose of amendments 2, 3 and 58. I call on Peter Black to move amendment 2.

Yn unol â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli, symudwn yn awr at waredu gwelliannau 2, 3 a 58. Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 2.

16:18 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 2 in my name and with the name of Rhodri Glyn Thomas in support.

Cynigiaf welliant 2 yn fy enw i gydag enw Rhodri Glyn Thomas yn ei gefnogi.

16:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 2 is not agreed, amendment 8 will fall. The question is that amendment 2 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move to an electronic vote.

Os na dderbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 8 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2.

Result of the vote on amendment 2.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 24, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 24, Against 27, Abstain 0.*

16:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Peter Black to move amendment 3.

Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 3.

16:18 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 3 in my name and with the name of Rhodri Glyn Thomas in support.

Cynigiaf welliant 3 yn fy enw i gydag enw Rhodri Glyn Thomas yn ei gefnogi.

16:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 3 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3.

Result of the vote on amendment 3.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 24, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 24, Against 27, Abstain 0.*

16:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to move amendment 58.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 58.

16:19 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 58 in my name.

Cynigiaf welliant 58 yn fy enw i.

16:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 58 be agreed to. Does any Member object? There is objection. [Interruption.] I like a positive response. We will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 58. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. [Torri ar draws.] Rwyf yn hoffi ymateb cadarnhaol. Symudwn at bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 58.

Result of the vote on amendment 58.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 39, Yn erbyn 12, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 39, Against 12, Abstain 0.*

## Grŵp 8: Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (Gwelliant 4)

## Group 8: Democratic Services Committee (Amendment 4)

16:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead and only amendment in this group is amendment 4. I call on Peter Black to move and speak to the amendment.

Y prif welliant a'r unig welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 4. Galwaf ar Peter Black i gynnig y gwelliant ac i siarad amdano.

16:19 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 4 in my name and with the name of Rhodri Glyn Thomas in support.

Cynigiaf welliant 4 yn fy enw i gydag enw Rhodri Glyn Thomas yn ei gefnogi.

The essence of this amendment is that the Bill currently provides for a review of support available to members if the council requests that. My concern is that that review will, effectively, be in the hands of a controlling group and would therefore disadvantage a minority, either of backbenchers or opposition party members, in terms of whether such a review is carried out.

Hanfod y gwelliant hwn yw bod y Bil ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer adolygiad o'r cymorth sydd ar gael i aelodau os bydd y cyngor yn gofyn am hynny. Fy mhryder yw y bydd yr adolygiad hwnnw, i bob pwrpas, yn nwylo grŵp sy'n rheoli ac y byddai felly'n peri anfantais i leiafrif, naill ai o aelodau meinciau cefn neu o aelodau'r gwrthbleidiau, o ran p'un a fydd adolygiad o'r fath yn cael ei gynnal.

The fact that a review is carried out, as the Minister made clear in a previous amendment, does not mean that the recommendations have to be accepted. So, there is no intention to try to force the outcome of a review on the majority of the council.

Nid yw'r ffaith bod adolygiad yn cael ei gynnal, fel y mae'r Gweinidog wedi'i wneud yn glir mewn gwelliant blaenorol, yn golygu bod yn rhaid derbyn yr argymhellion. Felly, nid oes unrhyw fwriad i geisio gorfodi canlyniad adolygiad ar y rhan fwyaf o'r cyngor.

It is only reasonable that, if a small or reasonable number of councillors requests a review of the way in which the council operates and of the support available to members, that review is carried out, so that the cabinet and the full council can then consider the outcome of that review and whether it is acceptable, or not.

Nid yw ond yn rhesymol, os bydd nifer bach neu resymol o gynghorwyr yn gwneud cais am adolygiad o'r ffordd y mae'r cyngor yn gweithredu a'r cymorth sydd ar gael i aelodau, fod yr adolygiad hwnnw'n cael ei gynnal, fel y gall y cabinet a'r cyngor llawn wedyn ystyried canlyniad yr adolygiad hwnnw a p'un a yw'n dderbyniol ai peidio.

At Stage 2, I brought forward this amendment and, at that time, we suggested that the trigger should be 10% of the membership. The Minister made it clear that 10% was too small, and I think that a number of members of the committee agreed with her. Therefore, we have proposed that it should be 25% of the council's membership. I do not think that that is too small a number, but it should be a sufficient number to trigger this sort of review, enabling the democratic services committee to consider what support councillors get and whether there need to be changes. The council can debate and determine that according to what commands a majority. So, I hope that, having brought forward an amended amendment, the Minister will now find that this is acceptable and will agree with us that this is a power of review that should lie in the hands of members; not in the hands of the controlling group.

Yng Nghyfnod 2, cyflwynais y gwelliant hwn ac, ar y pryd, roeddem yn awgrymu y dylid gosod sbardun o 10% o'r aelodaeth. Dywedodd y Gweinidog yn glir fod 10% yn rhy isel, ac rwyf yn meddwl bod nifer o aelodau'r pwyllgor yn cytuno â hi. Felly, rydym wedi cynnig y dylai fod yn 25% o aelodaeth y cyngor. Nid wyf yn credu bod hynny'n nifer rhy fach, ond dylai fod yn nifer digonol i sbarduno'r math hwn o adolygiad, gan alluogi'r pwyllgor gwasanaethau democrataidd i ystyried pa gymorth y mae cynghorwyr yn ei gael ac a oes angen newidiadau. Gall y cyngor drafod a phenderfynu hynny yn unol â'r hyn sy'n ennyn mwyafrif. Felly, rwyf yn gobeithio, ar ôl cyflwyno gwelliant diwygiedig, y bydd y Gweinidog yn awr yn ystyried bod hyn yn dderbyniol ac yn cytuno â ni y dylai'r grym adolygu hwn fod yn nwylo aelodau, ac nid yn nwylo'r grŵp sy'n rheoli.

16:22

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
Fideo Video

The Bill seeks to give local authorities more flexibility as to what a democratic services committee may do, and provides a method for adding to the functions of a committee. Enabling a minority of the membership to add to the functions is not democratic. Even 25% is still a minority. It suggests the possibility of a situation where a proposal to add to the functions is soundly defeated at a council meeting, but could still be imposed on a democratic services committee. Although a minority of members, or even a single member, may be able to place an item on the agenda of a scrutiny committee, this is not comparable. We are talking about amending the terms of reference of a democratic services committee. So, I ask members to resist the amendment.

Mae'r Bil yn ceisio rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol o ran yr hyn y gall pwyllgor gwasanaethau democrataidd ei wneud, ac mae'n darparu dull o ychwanegu at swyddogaethau'r pwyllgor. Nid yw galluogi lleiafrif o'r aelodaeth i ychwanegu at y swyddogaethau yn ddemocrataidd. Mae hyd yn oed 25% yn dal i fod yn lleiafrif. Mae'n bosibl y ceid sefyllfa lle mae cynnig i ychwanegu at y swyddogaethau'n cael ei drechu'n llwyr mewn cyfarfod cyngor, ond y byddai modd serch hynny ei orfodi ar bwyllgor gwasanaethau democrataidd. Er y gall lleiafrif o aelodau, neu hyd yn oed un aelod, osod eitem ar agenda pwyllgor craffu, nid oes modd cymharu'r ddwy sefyllfa. Rydym yn sôn am ddiwygio cylch gorchwyl pwyllgor gwasanaethau democrataidd. Felly, gofynnaf i'r aelodau wrthwynebu'r gwelliant.

16:22

## Peter Black [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
Fideo Video

I must say that I do not think that the Minister listened to a word that I said. This is not about imposing the views of any member on anyone else; it is merely asking for a review. Yes, the democratic services committee should carry out the function of reviewing the support available to members, but I do not think that anyone in this Chamber—least of all me—would suggest that 25% of the membership could impose their views on the majority. Rather, they should be able to ask for the democratic services committee to carry out that review, which would have to be considered in due course. If that review was not acceptable, the council would not have to accept it. I think that that is a perfectly reasonable and democratic principle, and certainly one that protects the minorities on councils, whether they are backbenchers or opposition parties. I would hope that the Minister would reconsider in light of my further explanation.

Mae'n rhaid imi ddweud nad wyf yn credu bod y Gweinidog wedi gwrando ar yr un gair a ddywedais. Nid yw hyn yn ymwneud â gorfodi barn aelod ar rywun arall; nid yw ond yn gofyn am adolygiad. Ie, y pwyllgor gwasanaethau democrataidd ddylai gyflawni'r swyddogaeth o adolygu'r cymorth sydd ar gael i aelodau, ond nid wyf yn credu y byddai neb yn y Siambr hon—yn sicr nid fi—yn awgrymu y gallai 25% o'r aelodaeth orfodi eu barn ar y mwyafrif . Yn hytrach, dylent fod yn gallu gofyn i'r pwyllgor gwasanaethau democrataidd gynnal yr adolygiad hwnnw, a byddai'n rhaid ei ystyried maes o law. Pe na byddai'r adolygiad hwnnw'n dderbyniol, ni fyddai'n rhaid i'r cyngor ei dderbyn. Credaf fod hon yn egwyddor berffaith resymol a democrataidd, ac yn sicr yn un sy'n diogelu lleiafrifoedd ar gynghorau, p'un a ydynt yn aelodau ar y meinciau cefn neu'n wrthbleidiau. Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn ailystyried yng ngoleuni fy esboniad pellach.

16:23

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
Fideo Video

The question is that amendment 4 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4.]

[Result of the vote on amendment 4.]

*Gwrthodwyd gwelliant 4: O blaid 24, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 24, Against 27, Abstain 0.*

## Grŵp 9: Swyddogaethau sy'n Ymwneud â Chyflogau Penaethiaid Gwasanaethau Cyflogedig (Gwelliannau 54, 9, 15 a 55)

## Group 9: Functions Relating to Salaries of Heads of Paid Service (Amendments 54, 9, 15 and 55)

16:24

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The lead amendment in this group is amendment 54. I call on Lesley Griffiths to move amendment 54 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 54. Galwaf ar Lesley Griffiths i gynnig gwelliant 54 ac i siarad am y gwelliant hwnnw a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

16:24

### Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendment 54 in my name.

Cynigiaf welliant 54 yn fy enw i.

I have listened to the recent discussion on the pay of senior council officers. I know that Rhodri Glyn Thomas, in particular, has shown a great deal of interest, and I thank him and Plaid Cymru for withdrawing the amendment. I hope that he will feel able to support the Government's position. I do not agree with those who argue that this is an area in which the Welsh Government should get directly involved. It is for local authorities, as the employers, to decide how much they pay their employees. To require the independent remuneration panel to review and decide the salaries and other remuneration of all chief officers in local government would be a massive additional burden on the panel and would take away from local authorities a function that I believe is rightly theirs. For this reason, I oppose amendment 9 in the name of Janet Finch-Saunders.

Rwyf wedi gwrando ar y drafodaeth ddiweddar ar gyflogau uwch swyddogion cynghorau. Gwn fod Rhodri Glyn Thomas, yn arbennig, wedi dangos llawer iawn o ddiddordeb, ac rwyf yn diolch iddo ac i Blaid Cymru am dynnu'r gwelliant yn ôl. Rwyf yn gobeithio y bydd yn teimlo y gall gefnogi safbwynt y Llywodraeth. Nid wyf yn cytuno â'r rhai sy'n dadlau fod hwn yn faes y dylai Llywodraeth Cymru ymwneud yn uniongyrchol ag ef. Mater i'r awdurdodau lleol, fel cyflogwyr, yw penderfynu faint y maent yn ei dalu i'w gweithwyr. Byddai ei gwneud yn ofynnol i'r panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol adolygu a phenderfynu ar gyflogau a chydnabyddiaethau eraill yr holl brif swyddogion mewn llywodraeth leol yn faich ychwanegol enfawr ar y panel ac yn tynnu oddi ar awdurdodau lleol swyddogaeth yr wyf yn credu ei bod yn briodol mai hwy sy'n ei chyflawni. Am y rheswm hwnnw, rwyf yn gwrthwynebu gwelliant 9 yn enw Janet Finch-Saunders.

However there is clearly a view that some element of independent scrutiny is required in relation to heads of paid service pay, which would normally be the highest paid by an authority, and this matter has been the focus of a number of well-publicised reports recently. Allowing the independent remuneration panel to make recommendations to county councils or fire authorities, and requiring those authorities to consult with the panel, does not take away the final decision from elected members, but what is important is that it requires them to have regard to an independent view. I also intend to provide, through local authority standing orders regulations and the statutory guidance on pay policy statements, that decisions on chief officers' pay be made by the full council in public and be subject to scrutiny.

Fodd bynnag, mae'n amlwg bod rhai o'r farn bod angen rhyw elfen o graffu annibynnol mewn perthynas â thâl penaethiaid gwasanaethau cyflogedig, a fyddai fel arfer yr uchaf a delir gan awdurdod, ac mae nifer o adroddiadau a gafodd lawer o gyhoeddusrwydd wedi rhoi sylw i hyn yn ddiweddar. Nid yw caniatáu i'r panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol wneud argymhellion i gynghorau sir neu awdurdodau tân, a'i gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau hynny ymgynghori â'r panel, yn cymryd y penderfyniad terfynol oddi wrth aelodau etholedig, ond yr hyn sy'n bwysig yw ei fod yn ei gwneud yn ofynnol iddynt roi ystyriaeth i farn annibynnol. Rwyf hefyd yn bwriadu darparu, drwy reoliadau rheolau sefydlog awdurdodau lleol a'r canllawiau statudol ar ddatganiadau polisi cyflog, fod penderfyniadau ar dâl prif swyddogion yn cael eu gwneud gan y cyngor llawn yn gyhoeddus a'u bod yn destun craffu.

Amendment 9 from Janet Finch-Saunders goes far beyond what is proposed in Government amendment 54. The panel makes decisions about councillors pay because, otherwise, they would have to make them themselves, as used to be the case. This does not apply in relation to council officers, because it is elected members who decide on their pay and conditions, as their employers. I urge Members to support the Government amendments in this group and to resist amendment 9 in the name of Janet Finch-Saunders.

Mae gwelliant 9 gan Janet Finch-Saunders yn mynd ymhell y tu hwnt i'r hyn a gynigir yng ngwelliant 54 y Llywodraeth. Y panel sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch tâl cynghorwyr oherwydd, fel arall, byddai'n rhaid iddynt eu gwneud eu hunain, fel oedd yn arfer digwydd. Nid yw hyn yn berthnasol i swyddogion y cyngor, oherwydd mai aelodau etholedig sy'n penderfynu ar eu cyflog a'u hamodau hwy, gan mai hwy yw'r cyflogwyr. Anogaf yr Aelodau i gefnogi gwelliannau'r Llywodraeth yn y grŵp hwn ac i wrthwynebu gwelliant 9 yn enw Janet Finch-Saunders.

16:26 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I wish to speak both to amendment 9 and to amendment 54.

Rwyf am siarad am welliant 9 ac am welliant 54.

Assembly Members, colleagues and Presiding Officer, today marks a significant milestone for this Chamber. Today we have the opportunity, collectively, cross-party and with consensus, to bring about a level of fairness, democratic accountability and financial probity as regards the future pay levels of our chief executives and senior officers in local authorities across Wales. We as Welsh Conservatives would like to place on record our immense appreciation for the sterling work that is carried out in 22 local authorities across Wales by our chief officers, our front-line workers and our elected members, as they endeavour to deliver the diverse and essential services that our residents both need and appreciate.

Aelodau'r Cynulliad, gyd-weithwyr a'r Llywydd, mae heddiw'n garreg filltir bwysig i'r Siambr hon. Heddiw, mae cyfle inni, ar y cyd, yn drawsbleidiol a chyda chonsensws, i sicrhau lefel o degwch, atebolrwydd democrataidd ac uniondeb ariannol o ran lefelau cyflogau prif weithredwyr ac uwch swyddogion awdurdodau lleol ledled Cymru yn y dyfodol. Carem ni, y Ceidwadwyr Cymreig, gofnodi ein gwerthfawrogiad enfawr o'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud mewn 22 awdurdod lleol ar draws Cymru gan ein prif swyddogion, ein gweithwyr rheng flaen a'n haelodau etholedig, wrth iddynt ymdrechu i ddarparu'r gwasanaethau amrywiol a hanfodol sydd eu hangen ar ein trigolion ac sy'n cael eu gwerthfawrogi ganddynt.

However, we have raised concerns many times before and throughout the consideration of this Bill about the actions of a minority of local authorities that have had repercussions for the reputations of local authorities across Wales. This is not about criticism, but it is about challenging unfair practice. Our overarching position has been that, during these tough economic times, nobody should be immune to financial constraint. For chief executive and senior officer pay to have reached such astronomical heights is profoundly unfair on those hard-working front-line staff who have seen their pay frozen for three years, while their senior officers are handsomely rewarded. Their morale is weakened.

Fodd bynnag, rydym wedi codi pryderon sawl gwaith o'r blaen a thrwy gydol yr ystyriaeth o'r Bil hwn ynghylch gweithredoedd lleiafrif o awdurdodau lleol sydd wedi effeithio ar enw da awdurdodau lleol ar draws Cymru. Nid mater o feirniadu yw hyn, ond mater o herio arfer annheg. Ein safbwynt cyffredinol yw na ddylai neb, yn ystod y cyfnod economaidd anodd hwn, allu dianc rhag cyfyngiadau ariannol. Mae'r ffaith bod tâl prif weithredwyr ac uwch swyddogion wedi cyrraedd lefelau mor aruthrol o uchel yn gwbl annheg ar y staff rheng flaen sy'n gweithio'n galed ac sydd wedi gweld eu cyflogau'n cael eu rhewi am dair blynedd, tra bo'r uwch swyddogion yn cael eu gwobrwyo'n hael. Maent wedi eu digalonni.

I pay tribute now to the other opposition parties in this Chamber, which have also stood up and said 'Enough is enough'. We have shown, too, that by working together in the interests of our residents, front-line staff, senior officers and heads of service—because it has not been an easy time for many of them—we can achieve consensus and effect real change. Therefore, I thank Plaid Cymru and the Welsh Liberal Democrats and also the Welsh Labour Government, to a degree.

Rwyf yn talu teyrnged yn awr i'r gwrthbleidiau eraill yn y Siambr hon, sydd hefyd wedi sefyll i fyny a dweud 'Digon yw digon'. Rydym wedi dangos, hefyd, drwy weithio gyda'n gilydd er lles ein trigolion, staff y rheng flaen, uwch swyddogion a phenaethiaid gwasanaethau—oherwydd nid yw wedi bod yn hawdd i lawer ohonynt—y gallwn sicrhau consensws a chyflawni newid gwirioneddol . Felly, rwyf yn diolch i Blaid Cymru ac i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru a hefyd i Lywodraeth Llafur Cymru, i raddau.

In addressing these amendments, I am particularly heartened by the ground given on the part of this Government to address an issue that this side of the Chamber has long recognised as a problem. In January, I wrote to the then Minister for Communities and Local Government asking whether he would undertake an evaluation of the pay scales for senior local authority officers, but I received a simple 'no'.

Wrth drafod y gwelliannau hyn, mae'n destun calondid arbennig imi fod y Llywodraeth hon wedi ildio tir er mwyn mynd i'r afael â mater y mae'r ochr hon i'r Siambr wedi cydnabod ers tro byd ei fod yn broblem. Ym mis Ionawr, ysgrifennais at y Gweinidog Cymunedau a Llywodraeth Leol ar y pryd yn gofyn iddo gynnal gwerthusiad o raddfeydd cyflog uwch swyddogion awdurdodau lleol, ond 'na' syml oedd yr ateb.

We have all seen the figures: 56 chief executives and senior officers in Welsh local authorities command six-figure salaries. Chief executives across Wales are earning anywhere in the region of £120,000 to, in some cases, over £200,000. However, we also have a director of education and lifelong learning on £131,000, a director of regeneration and leisure on £147,000 and a director of transport who earns more than the chief executive, on £168,000. These are not trivial sums of money, and it would be below us, as the democratic representatives of the people of Wales, to regard them as otherwise. Therefore, I urge my fellow Assembly Members to support our amendment 9 today. This amendment simply firms up the resolve of amendment 54. Amendment 54, while noble in its intentions, fails to put a binding cap on the salaries recommended by the panel. It is not robust enough to address all exorbitant pay, and it is not robust enough to ensure that local authorities must comply with the panel. Also, by implication, it is not robust enough to reintroduce the concept of fairness into public sector pay.

Rydym i gyd wedi gweld y ffigurau: mae 56 o brif weithredwyr ac uwch swyddogion mewn awdurdodau lleol yng Nghymru'n ennill cyflogau chwe ffigur. Mae prif weithredwyr ledled Cymru'n ennill oddeutu £120,000, ac mewn rhai achosion, hyd at dros £200,000. Fodd bynnag, mae gennym hefyd gyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes ar £131,000, cyfarwyddwr adfywio a hamdden ar £147,000 a chyfarwyddwr trafnidiaeth sy'n ennill mwy na'r prif weithredwr, sef £168,000. Nid symiau pitw o arian yw'r rhain, ac ni fyddai'n deilwng i ni, fel cynrychiolwyr democrataidd pobl Cymru, eu gweld yn ddim byd ond hynny. Felly, rwyf yn annog fy nghyd Aelodau yn y Cynulliad i gefnogi gwelliant 9 heddiw. Mae'r gwelliant hwn yn cadarnhau penderfyniad gwelliant 54. Mae gwelliant 54, er bod iddo fwriadau da, yn methu â rhoi cap terfynol ar y cyflogau a argymhellir gan y panel. Nid yw'n ddigon cadarn i fynd i'r afael â'r holl gyflogau afresymol, ac nid yw'n ddigon cadarn i sicrhau bod yn rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â'r panel. Hefyd, drwy oblygiad, nid yw'n ddigon cadarn i ailgyflwyno'r cysyniad o degwch i gyflogau'r sector cyhoeddus.

Amendment 9 lets the people of Wales know that, in this Chamber, we recognise that we serve the public, not the other way around. It is now time to finally put a stop to the out-of-kilter way in which we remunerate our chief executives and our senior officers. It is also time to reintroduce fairness into local authority pay.

Mae gwelliant 9 yn rhoi gwybod i bobl Cymru ein bod, yn y Siambr hon, yn cydnabod ein bod yn gwasanaethu'r cyhoedd, ac nid i'r gwrthwyneb. Mae'n amser bellach inni roi terfyn ar y ffordd anghymesur yr ydym yn talu ein prif weithredwyr a'n huwch swyddogion. Mae hefyd yn bryd ailgyflwyno tegwch i gyflogau awdurdodau lleol.

As far as the Welsh Conservative team in this Assembly is concerned, today does not mark the end of the debate on further openness, further transparency and further democratic accountability within our local authorities and all public bodies. Today is just the start, but I will confess that it is a healthy start. Diolch yn fawr iawn.

O ran tîm y Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad hwn, nid yw heddiw'n ddiwedd ar y ddadl ynghylch bod yn fwy agored, yn fwy tryloyw ac yn fwy atebol yn ddemocrataidd o fewn ein hawdurdodau lleol ac ym mhob corff cyhoeddus. Dechrau'r broses yw hyn heddiw, ond rhaid imi gyfaddef ei fod yn ddechrau iach. Diolch yn fawr iawn.

16:31 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am speaking in support of the Government's amendment 54. Plaid Cymru supports that amendment, tabled by the Minister, and welcomes the constructive talks that were held by the Welsh Government with us and the other opposition parties. We note that the Liberal Democrats have made clear their intentions to support this amendment, and that they also made their support clear at the very early stages of the Bill.

Siaradaf o blaid gwelliant 54 y Llywodraeth. Mae Plaid Cymru'n cefnogi'r gwelliant hwnnw, a gyflwynwyd gan y Gweinidog, ac yn croesawu'r trafodaethau adeiladol a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru â ni ac â'r gwrthbleidiau eraill. Rydym yn nodi bod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi gwneud yn glir eu bwriad i gefnogi'r gwelliant hwn, a'u bod hefyd wedi nodi eu cefnogaeth yn glir yn ystod camau cynnar iawn y Bil.

It is a shame that Rhodri Glyn Thomas cannot be here today. He asked me to say that. [Laughter.] However, he did table an amendment at Stage 2 that sought to address a number of the well-publicised concerns around senior executive pay. Plaid Cymru did warn that this was, indeed, a major issue affecting local government and that the Bill needed to include a provision to deal with it and to show that the Government—to be fair—was taking action. The opposition parties all felt that this was the case and made that known, although Janet Finch-Saunders did table her own amendment at that stage, as well as—to be fair—supporting ours. We now have a Government amendment that does address some of our concerns. Rhodri has said that this introduces a new layer of transparency; I cannot agree with him more. For us, this is a good result, and we have to acknowledge that it does not take us as far as Rhodri Glyn Thomas had originally wanted to go when it comes to completely ending the market in officer pay, but it is a step in the right direction.

Mae'n drueni na all Rhodri Glyn Thomas fod yma heddiw. Gofynnodd imi ddweud hynny. [Chwerthin.] Fodd bynnag, fe gyflwynodd welliant yng Nghyfnod 2 a oedd yn ceisio mynd i'r afael â nifer o'r pryderon a gafodd lawer o gyhoeddusrwydd ynghylch tâl uwch swyddogion. Rhybuddiodd Plaid Cymru fod hyn, yn wir, yn fater o bwys sy'n effeithio ar lywodraeth leol a bod angen i'r Bil gynnwys darpariaeth i ddelio â hyn ac i ddangos bod y Llywodraeth—a bod yn deg—yn gweithredu. Roedd y gwrthbleidiau i gyd yn teimlo bod hynny'n wir a dywedasant hynny, er bod Janet Finch-Saunders wedi cyflwyno ei gwelliant ei hun ar yr adeg honno, yn ogystal—a bod yn deg— â chefnogi'n gwelliant ni. Erbyn hyn mae gennym welliant gan y Llywodraeth sy'n rhoi sylw i rai o'n pryderon. Mae Rhodri wedi dweud bod hyn yn cyflwyno haen newydd o dryloywder; rwyf yn cytuno'n llwyr ag ef. I ni, mae hwn yn ganlyniad da, a rhaid inni gydnabod nad yw'n mynd â ni cyn belled ag yr oedd Rhodri Glyn Thomas am fynd yn wreiddiol o ran rhoi terfyn llwyr ar farchnad cyflogau swyddogion, ond mae'n gam i'r cyfeiriad cywir.

To be fair, the Welsh Government has made a compromise that we can now pass into Welsh law. However, originally, you did not want to address this issue at all. Once the Government agreed to make that compromise, Plaid Cymru made it clear that we felt that the Bill was now worthy of far greater support. We are now willing to see how councils operate under this new legislation.

A bod yn deg, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar gyfaddawd y gallwn yn awr ei basio i gyfraith Cymru. Fodd bynnag, yn wreiddiol, nid oedd arnoch eisiau mynd i'r afael â'r mater hwn o gwbl. Unwaith y cytunodd y Llywodraeth i wneud y cyfaddawd hwnnw, dywedodd Plaid Cymru'n glir ein bod yn teimlo bod y Bil yn awr yn haeddu llawer mwy o gefnogaeth. Rydym bellach yn barod i weld sut y mae cynghorau'n gweithredu o dan y ddeddfwriaeth newydd hon.

I am a passionate believer in Welsh local government. I have been a councillor for 38 years. We have to give them the chance to bring pay policies and salary increases in line with a more transparent regime. This has been the warning shot across their bows and I think that it is welcomed by everyone in Wales.

Rwyf yn credu'n angerddol yn llywodraeth leol Cymru. Bûm yn gynghorydd am 38 mlynedd. Mae'n rhaid inni roi cyfle iddynt ddod â pholisïau cyflogau a chodiadau cyflog yn unol â threfn fwy tryloyw. Mae hyn wedi bod yn rhybudd iddynt a chredaf fod pawb yng Nghymru'n ei groesawu.

Finally, clarification from the Minister would be welcome on the issue of voting on pay policies in full council. This did not happen in the example of Caerphilly during the recent scandal. I was very sad about the scandal in Caerphilly because, naturally, I feel even more passionately about that particular local authority than many others—with respect to the others. However, it does not happen elsewhere. It should be a bare minimum in terms of taking a public vote on pay rises, where the local press and members of the public can be present, and where it can be filmed and televised. That is what local democracy is all about. That is what all of us in this Chamber really want to see. We would welcome any further regulations that you can bring forward on this, Minister. Thank you.

Yn olaf, byddwn yn croesawu eglurhad gan y Gweinidog ar fater pleidleisio ar bolisïau cyflog yn y cyngor llawn. Ni ddigwyddodd hyn yng Nghaerffili yn ystod y sgandal diweddar. Roeddwn yn drist iawn am y sgandal yng Nghaerffili oherwydd, yn naturiol, rwyf yn teimlo hyd yn oed yn fwy angerddol am yr awdurdod lleol penodol hwnnw na llawer o rai eraill—pob parch i'r gweddill. Fodd bynnag, nid yw'n digwydd mewn mannau eraill. Dylai fod yn rhywbeth sylfaenol o ran cynnal pleidlais gyhoeddus ar godiadau cyflog, lle y gall y wasg leol ac aelodau o'r cyhoedd fod yn bresennol, a lle y gellir ei ffilmio a'i ddarlledu. Dyna yw hanfod democratiaeth leol. Dyna'r hyn y mae ar bob un ohonom yn y Siambr hon eisiau ei weld mewn gwirionedd. Byddem yn croesawu unrhyw reoliadau pellach y gallwch eu cyflwyno ar hyn, Weinidog. Diolch yn fawr.

16:34 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Liberal Democrats are happy to support amendment 54, and I welcome the Minister's assurances in terms of ensuring that full council will vote in future on chief officer pay and the other guidance that she has indicated that she will issue to local councils.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n hapus i gefnogi gwelliant 54, ac rwyf yn croesawu sicrwydd y Gweinidog o ran sicrhau y bydd y cyngor llawn yn pleidleisio yn y dyfodol ar gyflogau prif swyddogion a'r canllawiau eraill y mae wedi nodi y bydd yn eu rhoi i gynghorau lleol.

The Welsh Liberal Democrats—as did Plaid Cymru—made it clear that we could not support this Local Government (Democracy) (Wales) Bill without some provision in the Bill in relation to chief officer pay. That turned out to be enough to make the Minister bring forward this amendment. I welcome the fact that she has done so.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru—fel y gwnaeth Plaid Cymru—wedi ei gwneud yn glir na allwn gefnogi Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) heb rywfaint o ddarpariaeth yn y Bil mewn perthynas â chyflog prif swyddogion. Digwyddodd hynny fod yn ddigon i wneud i'r Gweinidog gyflwyno'r gwelliant hwn. Rwyf yn croesawu'r ffaith ei bod wedi gwneud hynny.

The balance that has to be struck here is between the oversight that the Welsh Government and the Assembly provide and the democratic accountability and independence of local government, both in terms of determining officer pay and being able to appoint the best person for the job. It strikes me that amendment 54 that is in front of us today achieves that balance. What it does is introduce a level of transparency and accountability into the process, whereby decisions on pay in relation to chief officers have to be made in the open and be overseen by an independent body. As a result of that, local voters will be able to measure their council's response to that particular judgment and take that into account when they vote in future elections. That level of transparency, and the level of information that is made available as a result of it, enhances the democratic process. That is why the mechanism that the Minister has chosen here is not only important, but one that we can happily support. It does not undermine local democracy, but rather it enables local democracy to work in the way that it should, by making sure that the information is available on which voters can make a judgment about how to vote.

We are not able to support amendment 9 because we feel that it fails to achieve that balance. I do not think that it is the job of the Welsh Government or the Assembly to effectively dictate the level of pay for senior officers or chief executives. That is a matter for local councillors within the framework set down by us. As long as they are accountable for that, and as long as voters have information on which to judge them on that, that is sufficient in terms of how we deliver on that. I hope that the provisions in amendment 54 will be sufficient to ensure that perceived abuses in local government are not continued and that, in future, we will be able to determine that chief officers' pay will be set in an open and accountable way, in which all councillors have a say, and the public will be able to have oversight over that process.

Mae'n rhaid wrth gydbwysedd yma rhwng yr oruchwyliaeth y mae Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad yn ei darparu ac atebolrwydd ac annibyniaeth ddemocrataidd llywodraeth leol, o ran pennu cyflogau swyddogion ac o ran gallu penodi'r person gorau i wneud y swydd. Mae'n fy nharo fod gwelliant 54 sydd ger ein bron heddiw yn sicrhau'r cydbwysedd hwnnw. Yr hyn y mae'n ei wneud yw cyflwyno lefel o dryloywder ac atebolrwydd i'r broses, fel bod penderfyniadau ar gyflogau prif swyddogion yn cael eu gwneud yn agored ac yn cael eu goruchwylio gan gorff annibynnol. O ganlyniad i hynny, bydd pleidleiswyr lleol yn gallu mesur ymateb eu cyngor i'r penderfyniad penodol hwnnw ac yn gallu cymryd hynny i ystyriaeth wrth bleidleisio mewn etholiadau yn y dyfodol. Mae'r lefel honno o dryloywder, a lefel y wybodaeth sydd ar gael o ganlyniad i hyn, yn gwella'r broses ddemocrataidd. Dyna pam mae'r mecanwaith y mae'r Gweinidog wedi'i ddewis yma nid yn unig yn bwysig, ond yn un yr ydym yn hapus i'w gefnogi. Nid yw'n tanseilio democratiaeth leol, ond yn hytrach mae'n galluogi democratiaeth leol i weithio yn y ffordd y dylai, drwy wneud yn siŵr bod y wybodaeth ar gael i'r pleidleiswyr allu ffurfio barn am sut i bleidleisio.

Ni allwn gefnogi gwelliant 9 gan nad ydym o'r farn ei fod yn sicrhau'r cydbwysedd hwnnw. Nid wyf yn credu mai gwaith Llywodraeth Cymru na'r Cynulliad hwn yw pennu i bob pwrpas lefel cyflogau uwch swyddogion neu brif weithredwyr. Mater i gynghorwyr lleol yw hynny o fewn y fframwaith a osodir gennym ni. Cyhyd â'u bod yn atebol am hynny, a chyhyd â bod gan bleidleiswyr wybodaeth er mwyn eu barnu ar hynny, mae hynny'n ddigonol o ran y ffordd yr ydym yn darparu yn hynny o beth. Rwyf yn gobeithio y bydd y darpariaethau yng ngwelliant 54 yn ddigonol i sicrhau nad yw camarfer ymddangosiadol mewn llywodraeth leol yn parhau ac y byddwn, yn y dyfodol, yn gallu penderfynu y bydd tâl prif swyddogion yn cael ei bennu mewn ffordd agored ac atebol, lle mae pob cynghorydd yn cael dweud ei ddweud, ac y bydd y cyhoedd yn gallu cael trosolwg ar y broses honno.

16:37

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Clearly, recommendations by the independent remuneration panel regarding the remuneration of heads of paid service—by which we mean the chief executive in almost every instance, so let us be clear about that—are necessary, however, they are not sufficient. Sufficiency would require the inclusion of the salaries of senior officers. My colleague Janet Finch-Saunders referred to the media coverage of 56 local authority employees in Wales who took home salaries of more than £100,000 in 2011-12. These included chief executives and directors responsible for departments like education, social services, regeneration and the environment. These figures, for example, identified Flintshire's chief executive as the fifth highest paid person. In fact, he was not; even according to those figures, he was sixth. The core financial statements presented to Flintshire councillors in respect of the annual accounts—in January, I believe—showed that there was a more highly paid officer in Flintshire than the chief executive, earning a salary in the £160,000 to £164,999 range. Even the members there did not know who that person was until they subsequently made their own enquiries. If that happens in one county, we do not know what other omissions to publicised figure might exist in other local authorities across Wales, at that level of salary. Let us be clear: we are talking about people being paid significant sums—more than even the Prime Minister and certainly more than the First Minister or any Members here are paid. Therefore, in relation to issues of transparency, accountability and fairness, we need the independent remuneration panel to make recommendations relating to the salary of all senior officers. We are not talking about middle-ranking officers—people on average wages or wages that are slightly above average. We are talking about senior people on major wages, and we are therefore not restricting this just to the heads of service, by which we mean the chief executive.

Yn amlwg, mae argymhellion y panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol o ran cydnabyddiaeth penaethiaid gwasanaethau cyflogedig—a'r hyn a olygwn yw'r prif weithredwr ym mron pob achos, felly gadewch inni fod yn glir ynglŷn â hynny—yn angenrheidiol, ond nid ydynt yn ddigonol. Er mwyn iddynt fod yn ddigonol byddai'n rhaid cynnwys cyflogau uwch swyddogion. Cyfeiriodd fy nghyd Aelod Janet Finch-Saunders at y sylw a roddwyd yn y cyfryngau i'r 56 o weithwyr awdurdodau lleol yng Nghymru a enillodd gyflogau o fwy na £100,000 yn 2011-12. Roedd y rhain yn cynnwys prif weithredwyr a chyfarwyddwyr a oedd yn gyfrifol am adrannau fel addysg, gwasanaethau cymdeithasol, adfywio a'r amgylchedd. Roedd y ffigurau hyn, er enghraifft, yn nodi mai prif weithredwr Sir y Fflint sy'n ennill y cyflog pumed uchaf. Mewn gwirionedd, nid oedd hynny'n wir; hyd yn oed yn ôl y ffigurau hynny, roedd yn chweched. Roedd y datganiadau ariannol craidd a gyflwynwyd i gynghorwyr Sir y Fflint mewn perthynas â'r cyfrifon blynyddol—ym mis Ionawr, rwyf yn credu—yn dangos bod swyddog yn Sir y Fflint yn cael ei dalu mwy na'r prif weithredwr, ac yn ennill cyflog o rhwng £160,000 a £164,999. Nid oedd hyd yn oed yr aelodau yno'n gwybod pwy oedd y swyddog hwnnw hyd nes iddynt fynd ati i wneud eu hymholiadau eu hunain. Os yw'n hynny'n digwydd mewn un sir, nid ydym yn gwybod pa hepgoriadau eraill i'r ffigurau a gyhoeddwyd a allai fod mewn awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru, ar y lefel honno o gyflog. Gadewch inni fod yn glir: rydym yn sôn am dalu symiau sylweddol i bobl—yn fwy na hyd yn oed Prif Weinidog y DU ac yn sicr yn fwy nag y mae Prif Weinidog Cymru neu unrhyw Aelod yma'n cael eu talu. Felly, o ran tryloywder, atebolrwydd a thegwch, mae arnom angen i'r panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol wneud argymhellion yn ymwneud â chyflog pob uwch swyddog. Nid ydym yn sôn am swyddogion canolig—pobl ar gyflog cyfartalog neu ychydig yn uwch na'r cyfartaledd. Rydym yn sôn am bobl uwch ar gyflogau mawr, ac felly nid ydym yn cyfyngu hyn i benaethiaid gwasanaethau, hynny yw, y prif weithredwr.

16:39

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Members for their comments. It was very clear to me that this was certainly a matter of interest to all parties here in the Assembly and to the public. I listened very carefully to what the three opposition spokespeople, in particular, said to me. The most important thing in relation to this is that we take a balanced approach. I believe that providing for the independent remuneration panel to be consulted on chief executives' pay, and requiring local authorities to have regard to that panel's recommendations, is a balanced approach. It is very important that Wales is not at a disadvantage and that we attract the brightest and the best. Taking this balanced approach will not mean that authorities will not be able to attract the best candidates. However, it means that they must make a case and convince the panel, which I think would be a very worthwhile exercise, considering how much criticism authorities can face on this matter.

Diolch i'r Aelodau am eu sylwadau. Roedd yn amlwg iawn i mi fod hwn yn sicr yn fater o ddiddordeb i bob plaid yma yn y Cynulliad ac i'r cyhoedd. Gwrandewais yn astud iawn ar yr hyn a ddywedodd llefarwyr y tair gwrthblaid, yn benodol, wrthyf. Y peth pwysicaf yn hyn o beth yw bod ein hymagwedd yn gytbwys. Credaf fod darparu ar gyfer y panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol i ymgynghori ar gyflogau prif weithredwyr, a'i gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i argymhellion y panel, yn ymagwedd gytbwys. Mae'n bwysig iawn nad yw Cymru dan anfantais a'n bod yn denu'r disgleiriaf a'r gorau. Ni fydd yr ymagwedd gytbwys hon yn golygu na fydd awdurdodau yn gallu denu'r ymgeiswyr gorau. Fodd bynnag, mae'n golygu bod yn rhaid iddynt wneud achos ac argyhoeddi'r panel, ac rwyf yn meddwl y byddai hynny'n dda o beth, o ystyried faint o feirniadaeth y gall awdurdodau ei hwynebu ar y mater hwn.

Peter Black reiterated the point that I made about full council voting for chief officers' pay. That should be done in an open and transparent way. It is the most important thing; it is local members who are responsible to their local electorate, and I think that that really addresses your last point, Peter Black. So, I ask Members to support amendments 54 and 55 and to oppose amendment 9.

Ailadroddodd Peter Black y pwynt a wneuthum am bleidleisio yn y cyngor llawn ar dâl prif swyddogion. Dylid gwneud hynny mewn ffordd agored a thryloyw. Dyna sydd bwysicaf; mae aelodau lleol yn atebol i'w hetholwyr lleol, ac rwyf yn credu bod hynny'n mynd i'r afael â'ch pwynt olaf, Peter Black. Felly, gofynnaf i'r Aelodau gefnogi gwelliannau 54 a 55 a gwrthwynebu gwelliant 9.

16:40

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 54 is not agreed, amendment 55 will fall. The question is that amendment 54 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 54 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Os na dderbynnir gwelliant 54, bydd gwelliant 55 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 54. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 54 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 54.*

*Amendment 54 agreed.*

16:40

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Janet Finch-Saunders to move amendment 9.

Galwaf ar Janet Finch-Saunders i gynnig gwelliant 9.

16:41

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 9 in my name.

Cynigiaf welliant 9 yn fy enw i.

16:41

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 9 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 9. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 9.

Result of the vote on amendment 9.

*Gwrthodwyd gwelliant 9: O blaid 12, Yn erbyn 40, Ymatal 0.*

*Amendment 9 not agreed: For 12, Against 40, Abstain 0.*

*Tynnwyd gwelliant 15 yn ôl.*

*Amendment 15 withdrawn.*

### Grŵp 10: Adroddiadau Panel Taliadau Annibynnol (Gwelliant 16)

### Group 10: Independent Remuneration Panel Reports (Amendment 16)

16:41

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The tenth group of amendments relates to the independent remuneration panel reports, and the lead, and only, amendment in this group is amendment 16. I call on Lindsay Whittle to move and speak to the amendment.

Mae'r degfed grŵp o welliannau yn ymwneud ag adroddiadau'r panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol, a'r prif welliant, a'r unig welliant, yn y grŵp hwn yw gwelliant 16. Galwaf ar Lindsay Whittle i gynnig y gwelliant a siarad amdano.

16:41

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 16 in the name of Rhodri Glyn Thomas.

Cynigiaf welliant 16 yn enw Rhodri Glyn Thomas.

Amendment 16 covers the timing of the independent remuneration panel's annual report, which sets out how councillors are remunerated for their work—never a popular subject for councillors to discuss, really. The Bill will change the timing of the reports from the current date of 31 December to 28 February. Quite simply, Plaid Cymru wants to retain the December deadline—in the interests of the accountants, I guess, who plan councils' expenditure.

Mae gwelliant 16 yn ymdrin ag amseriad adroddiad blynyddol y panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol, sy'n nodi sut y mae cynghorwyr yn cael eu talu am eu gwaith—nid yw hwn byth yn bwnc poblogaidd i gynghorwyr ei drafod, mewn gwirionedd. Bydd y Bil yn newid amseriad yr adroddiadau o'r dyddiad cyfredol, sef 31 Rhagfyr, i 28 Chwefror. Yn y bôn, mae Plaid Cymru am gadw'r terfyn amser ym mis Rhagfyr—er budd y cyfrifwyr, mae'n siŵr gen i, sy'n cynllunio gwariant cynghorau.

During the consultation on the Bill, we heard evidence that when it comes to the councils' financial planning, a February report is a little bit too close for comfort to the council tax setting and budgeting process, which usually takes place in February and March, ahead of the new financial year in April. I accept that councillors' allowances do not take up a large amount of a local authority's budget, although they do take up a large amount of their discussions, but the change from December to February does not really seem to have been justified, Minister. So, this amendment has been re-tabled, because we have not heard the reasons for the change. I hope that it will pass today.

Yn ystod yr ymgynghoriad ar y Bil, clywsom dystiolaeth bod cael adroddiad ym mis Chwefror, pan ddaw'n fater o gynllunio ariannol y cynghorau, braidd yn rhy agos at y broses o bennu'r dreth gyngor a chyllidebu, sydd fel arfer yn digwydd ym mis Chwefror a mis Mawrth, cyn y flwyddyn ariannol newydd ym mis Ebrill. Rwyf yn derbyn nad yw lwfansau cynghorwyr yn cymryd llawer iawn o gyllidebau awdurdodau lleol, er eu bod yn cymryd cyfran fawr o'u trafodaethau, ond nid yw'n ymddangos mewn gwirionedd fod cyfiawnhad dros newid o fis Rhagfyr i fis Chwefror, Weinidog. Felly, mae'r gwelliant hwn wedi ei ailgyflwyno, oherwydd nad ydym wedi clywed y rhesymau dros y newid. Rwyf yn gobeithio y bydd yn pasio heddiw.

Apart from trying to pass our amendment, we would also like some clarification on why the timing of the panel's annual reports has been changed in this way. What was the reasoning?

Ar wahân i geisio pasio ein gwelliant, byddem hefyd yn hoffi rhywfaint o eglurhad ynghylch pam mae amseriad adroddiadau blynyddol y panel wedi ei newid yn y modd hwn. Beth oedd y rheswm dros hynny?

16:43

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am happy to support this amendment; it is very much in line with one of the recommendations of the committee at Stage 1. I think that the committee itself was unclear as to why, exactly, this change had been brought in, and the evidence that we received indicated that there was some resistance to this and some practical problems arising from it. Like Lindsay Whittle, I accept that the amount of money that local councils spend on councillors' remuneration is not large in comparison to the budgets that they have at their disposal. However, when things are very tight, and given that we are talking about marginal changes in terms of council tax increases, it is important that every penny of expenditure is taken into account as part of the budget-planning round. By leaving it to the end of February, which is almost the date by which they have to set the council tax, local councils will be left with very little discretion indeed in terms of any changes to the total bill that they have to pay out for remuneration. I therefore think that it is reasonable to say the Minister that, at this stage, the case has not been made for the change from December, and that it is to everyone's advantage to leave it at December for the future.

Rwyf yn hapus i gefnogi'r gwelliant hwn; mae'n cyd-fynd yn dda iawn ag un o argymhellion y pwyllgor yng Nghyfnod 1. Ni chredaf fod y pwyllgor ei hun yn siŵr iawn pam, yn union, y cyflwynwyd y newid hwn, ac roedd y dystiolaeth a gawsom yn dangos bod rhywfaint o wrthwynebiad i hyn a rhai problemau ymarferol yn deillio ohono. Fel Lindsay Whittle, rwyf yn derbyn nad yw'r swm o arian y mae cynghorau lleol yn ei wario ar gydnabyddiaeth cynghorwyr yn fawr o'i gymharu â'r cyllidebau sydd ganddynt at eu defnydd. Fodd bynnag, pan fydd pethau'n dynn iawn, ac o gofio ein bod yn sôn am newidiadau ymylol o ran y cynnydd yn y dreth gyngor, mae'n bwysig bod pob ceiniog o wariant yn cael ei hystyried fel rhan o gylch cynllunio'r gyllideb. Drwy ei gadael tan ddiwedd mis Chwefror, sy'n agos iawn at y dyddiad pan mae'n rhaid iddynt osod y dreth gyngor, ychydig iawn o ddisgresiwn yn wir fydd i gynghorau lleol o ran unrhyw newidiadau i gyfanswm y bil y mae'n rhaid iddynt ei dalu ar gyfer cydnabyddiaeth. Felly, credaf ei bod yn rhesymol dweud wrth y Gweinidog nad yw'r achos, ar hyn o bryd, wedi ei wneud dros y newid o fis Rhagfyr, ac y bydd o fantais i bawb ei adael ym mis Rhagfyr ar gyfer y dyfodol.

16:44 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I should clarify that the independent remuneration panel requested this change of date in order to help local government, not to hinder it. The panel makes determinations in its annual reports that take effect at the start of the municipal year, to fit in with local government's convenience, and it takes about seven months to get this report to its final stages. However, panel members need to start drafting their annual report only a few weeks after the start of the municipal year, because it needs to be translated and then be consulted on for two months before it is then redrafted as the final report, formatted and translated again by Christmas.

Dylwn egluro bod y panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol wedi gofyn am y newid dyddiad hwn er mwyn helpu llywodraeth leol, nid er mwyn ei rhwystro. Mae'r panel yn gwneud penderfyniadau yn ei adroddiadau blynyddol sy'n dod i rym ar ddechrau blwyddyn y Cyngor, er hwylustod i lywodraeth leol, ac mae'n cymryd tua saith mis i gyrraedd camau terfynol yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae angen i aelodau'r panel ddechrau drafftio eu hadroddiad blynyddol ychydig wythnosau ar ôl dechrau blwyddyn y Cyngor, oherwydd mae angen iddo gael ei gyfieithu ac wedyn mae'n rhaid ymgynghori arno am ddau fis cyn y bydd yn cael ei ailddrafftio'n adroddiad terfynol, wedi ei fformatio a'i gyfieithu unwaith eto erbyn y Nadolig.

Some officers in local government have complained that the final report not being published until February could affect their budget planning. However, the idea that changes from the draft to the final report would be so extreme as to disturb budget planning is, I think, unrealistic, given that a small proportion of councils' budgets is spent on councillors' remuneration. Local authorities are, in any case, used to budgeting for staff pay raises, which are often decided in the summer and certainly are a large part of their budgets. Therefore, I ask Members to oppose the amendment.

Mae rhai swyddogion mewn llywodraeth leol wedi cwyno y gallai'r ffaith nad yw'r adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi tan fis Chwefror effeithio ar gynllunio'u cyllideb. Fodd bynnag, mae'r syniad y byddai newidiadau o'r drafft i'r adroddiad terfynol mor eithafol nes eu bod yn tarfu ar gynllunio'r gyllideb, yn fy marn i, yn afrealistig, o ystyried mai dim ond cyfran fach o gyllidebau cynghorau sy'n cael ei gwario ar gydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr. Mae awdurdodau lleol, beth bynnag, wedi arfer â chyllidebu ar gyfer codiadau cyflog staff, sy'n cael eu penderfynu yn yr haf yn aml ac sy'n sicr yn rhan fawr o'u cyllidebau. Felly, gofynnaf i'r Aelodau wrthwynebu'r gwelliant.

16:45 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am sorry that we are opposing this and that the independent remuneration panel does not like timing of this, but the question that I have to ask is: who voted for them? This is a democratic process; we are the decision makers and councillors are the decision makers. The independent remuneration panel has its own decisions to make on other issues, not on deciding on the timing of when the panel will bring out its report. With respect, that is our jurisdiction. This will be extremely unpopular in local government and not welcome. One of the reasons why I stood for election to this body was to bring my experience of local government to work together with national government. That is what I wanted to bring to the Assembly. This will do no good whatsoever. It will alienate councillors from the Assembly. If Wales is to recover, we all need to be working together, singing the same tune from the same hymn sheet. That is absolutely essential. If we are going to start arguing and bickering about dates like this, it is not going to be welcome and it is going to lead to some bitterness. I am sorry, Minister, that you have decided not to accept that, but I have to respect your wishes.

Mae'n ddrwg gennyf ein bod yn gwrthwynebu hyn ac nad yw'r panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol yn hoffi amseriad hyn, ond y cwestiwn sydd gennyf i'w ofyn yw: pwy bleidleisiodd drostynt? Proses ddemocrataidd yw hon; ni sy'n gwneud y penderfyniadau a'r cynghorwyr sy'n gwneud y penderfyniadau. Mae gan y panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol ei benderfyniadau ei hun i'w gwneud ar faterion eraill, ac nid ar benderfynu pryd y bydd y panel yn cyflwyno ei adroddiad. Gyda phob parch, ein cyfrifoldeb ni yw hynny. Bydd hyn yn hynod amhoblogaidd mewn llywodraeth leol ac ni fydd croeso iddo. Un o'r rhesymau pam y bu imi sefyll i gael fy ethol i'r corff hwn oedd i ddod â'm profiad o lywodraeth leol er mwyn cydweithio â llywodraeth genedlaethol. Dyna'r hyn yr oeddwn yn awyddus i ddod ag ef i'r Cynulliad. Ni fydd hyn yn gwneud dim lles o gwbl. Bydd yn dieithrio'r cynghorwyr oddi wrth y Cynulliad. Os ydym am weld adferiad yng Nghymru, mae angen inni i gyd weithio gyda'n gilydd, canu'r un dôn o'r un ddalen emynau. Mae hynny'n gwbl hanfodol. Os ydym yn mynd i ddechrau dadlau a checru am ddyddiadau fel hyn, ni fydd croeso iddo ac mae'n mynd i arwain at rywfaint o chwerwder. Mae'n ddrwg gennyf, Weinidog, eich bod wedi penderfynu peidio â derbyn hynny, ond mae'n rhaid imi barchu eich dymuniadau.

16:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The question is that amendment 16 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 16 . A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 16.

Result of the vote on amendment 16.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 27, Abstain 0.*

## Grŵp 11: Etholiadau Awdurdod Lleol (Gwelliannau 5, 6 a 7)

## Group 11: Local Authority Elections (Amendments 5, 6 and 7)

16:47

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in this group is amendment 5, and I call on Peter Black to move amendment 5 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 5, a galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 5 ac i siarad am y gwelliant hwnnw a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

16:47

### Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 5 in my name and with the name of Rhodri Glyn Thomas in support.

Cynigiaf welliant 5 yn fy enw i gydag enw Rhodri Glyn Thomas yn ei gefnogi.

It has always struck me as rather perverse that we are debating a Local Government (Democracy) (Wales) Bill and are not addressing the fundamental democratic deficit in local government, namely that the system by which councillors are elected does not lead to a representative outcome in relation to how people voted. It strikes me that there is a large number of arguments in favour of a single transferrable vote system. I am not going to rehearse all of them today, because we have had this debate on many occasions, and because I know that Lindsay Whittle is also going to be mentioning this.

Rwyf bob amser wedi meddwl ei bod yn groes i'r graen braidd ein bod yn trafod Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) ac nad ydym yn mynd i'r afael â'r diffyg democrataidd sylfaenol mewn llywodraeth leol, sef nad yw'r system lle mae cynghorwyr yn cael eu hethol yn arwain at ganlyniad cynrychioliadol mewn perthynas â'r ffordd y pleidleisiodd pobl. Mae'n fy nharo bod nifer fawr o ddadleuon o blaid system pleidlais sengl drosglwyddadwy. Nid wyf yn mynd i sôn am bob un ohonynt heddiw, oherwydd rydym wedi cael y ddadl hon ar sawl achlysur, a gwn y bydd Lindsay Whittle hefyd yn sôn am hyn.

In this particular instance, the outcome of an election reflecting the way in which people voted would mean that local authorities are not only more accountable and transparent, but more accountable to local people, simply because there are no in-built majorities unless the councils and parties themselves achieve that majority. It forces them to work with other councillors in the interests of the public, as opposed to the interests of the political party, no matter what political party that is. It strikes me that, if you have a council is more representative of the electorate, councillors are more able to listen to people's views, to represent those views and those of their wards, and to get things done for their local wards without party politics getting in the way. The reason, therefore, why the single transferrable vote has to be brought into the equation is so that we can introduce that form of democracy for local government in Wales.

Yn yr achos penodol hwn, byddai canlyniad etholiad sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn pleidleisio'n golygu bod awdurdodau lleol nid yn unig yn fwy atebol a thryloyw, ond hefyd yn fwy atebol i bobl leol, oherwydd nad oes mwyafrifoedd gosodedig oni bai bod y cynghorau a'r pleidiau eu hunain yn cyflawni'r mwyafrif hwnnw. Mae'n eu gorfodi i weithio gyda chynghorwyr eraill er budd y cyhoedd, yn hytrach nag er budd y blaid wleidyddol, waeth pa blaid wleidyddol yw honno. Mae'n fy nharo i, os oes gennych gyngor sy'n fwy cynrychioliadol o'r etholwyr, fod cynghorwyr yn fwy abl i wrando ar safbwyntiau pobl, i gynrychioli'r safbwyntiau hynny a rhai eu wardiau, ac i gyflawni pethau dros eu wardiau lleol heb i wleidyddiaeth plaid fynd yn y ffordd. Y rheswm, felly, pam y mae'n rhaid crybwyll y bleidlais sengl drosglwyddadwy yw er mwyn inni allu cyflwyno'r math hwnnw o ddemocratiaeth ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru.

As regards the other amendment tabled in my name, amendment 7, in relation to the payment of returning officers, it is one that Rhodri Glyn Thomas has largely championed himself and it is one that I think is very important. Some chief executives, in addition to their salary, are receivng payments for carrying out what other people would consider to be part of their duties—namely the management of elections—whereas some of their fellow chief executives have that built into their salaries and do not get those extra resources. Amendment 7 seeks to correct that and I hope that the Governemnt is prepared to listen and support that amendment. I am not expecting the Minister to support amendments 5 and 6, but I certainly ask that she listens. We have a Bill with 'democracy' in the title, and it is about time that we had democracy in reality in terms of the way that our councils are elected and the way that councils are required to conduct themselves, both in terms of listening to people and how representative they are of how people voted.

O ran y gwelliant arall a gyflwynwyd yn fy enw i, gwelliant 7, mewn perthynas â thalu swyddogion canlyniadau, mae'n un y mae Rhodri Glyn Thomas wedi ei hyrwyddo ei hun i raddau helaeth ac mae'n bwysig iawn, yn fy marn i. Mae rhai prif weithredwyr, yn ogystal â'u cyflog, yn derbyn taliadau am gyflawni'r hyn y byddai pobl eraill yn ei ystyried yn rhan o'u dyletswyddau—sef rheoli etholiadau—tra bo hynny wedi'i gynnwys yng nghyflog rhai o'u cyd brif weithredwyr ac nid ydynt yn cael yr adnoddau ychwanegol hynny. Mae gwelliant 7 yn ceisio unioni hynny ac rwyf yn gobeithio bod y Llywodraeth yn barod i wrando a chefnogi'r gwelliant hwnnw. Nid wyf yn disgwyl i'r Gweinidog gefnogi gwelliannau 5 a 6, ond rwyf yn sicr yn gofyn iddi wrando. Mae gennym Fil â 'democratiaeth' yn y teitl, ac mae'n hen bryd inni gael democratiaeth wirioneddol o ran y ffordd y mae ein cynghorau'n cael eu hethol a'r ffordd y mae'n ofynnol i gynghorau ymddwyn, o ran gwrando ar bobl ac o ran pa mor gynrychioliadol ydynt o'r ffordd y pleidleisiodd pobl.

16:50 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I certainly listened very carefully to what Peter Black said, but I cannot support these amendments. I have previously stated that I do not support STV in local government elections. It would, I think, lead to greater instability than the first-past-the-post system. It is an absolute myth that STV leads to a reduction in uncontested seats. That was achieved in Scotland by having fewer councillors and large, multi-member divisions, and we saw the same happen in Ynys Môn last month, where every seat was contested and all seats were well contested.

Gwrandewais yn astud iawn, yn sicr, ar yr hyn a ddywedodd Peter Black, ond ni allaf gefnogi'r gwelliannau hyn. Rwyf wedi dweud o'r blaen nad wyf yn cefnogi STV mewn etholiadau llywodraeth leol. Rwyf o'r farn y byddai'n arwain at fwy o ansefydlogrwydd na system y cyntaf i'r felin. Mae'n fyth llwyr fod STV yn arwain at ostyngiad mewn seddau un ymgeisydd. Cyflawnwyd hynny yn yr Alban drwy gael llai o gynghorwyr ac adrannau mawr, aml-aelod, a gwelsom yr un peth yn digwydd yn Ynys Môn y mis diwethaf, lle bu etholiad ar gyfer pob sedd a lle yr ymladdwyd yn dda ar gyfer yr holl seddi.

However, I have sympathy with the sentiments that lie behind amendment 7. There is a need to ensure that payments to returning officers and their staff are reasonable, and, in particular, that they do not allow for double payment for the same period of time by the local authority through salary and the returning officer fee procedures. We have powers over fees at Assembly elections, and I commit to review these well before the next Assembly elections. I urge Members to resist these amendments.

Fodd bynnag, mae gennyf gydymdeimlad â'r hyn sydd y tu ôl i welliant 7. Mae angen sicrhau bod taliadau i swyddogion canlyniadau a'u staff yn rhesymol, ac, yn arbennig, nad ydynt yn caniatáu i awdurdodau lleol dalu dwywaith am yr un cyfnod o amser drwy gyflogau a gweithdrefnau ffioedd swyddogion canlyniadau. Mae gennym rymoedd dros ffioedd yn etholiadau'r Cynulliad, ac rwyf yn ymrwymo i adolygu'r rhain yn dda cyn etholiadau nesaf y Cynulliad. Anogaf yr Aelodau i wrthod y gwelliannau hyn.

16:51 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In relation to the single transferrable vote, the Minister talks about Ynys Môn, where no seat was uncontested, but that is the exception that proves the rule. If you look at local council elections Wales-wide, there were a large number of seats that were not contested, and, if you compare that to Northern Ireland and Scotland, where the single transferrable vote applies, not a single seat was uncontested in either nation. People were given a choice by the system, and they knew that their choice would be reflected in the outcome of the election. That is a very important principle that addresses one of the major deficits that we have in elections in Wales. The point about instability in councils is not borne out by the outcome of elections in Scotland and Northern Ireland. Those councils work very well indeed in terms of the outcome of the single transferrable vote, and deliver services on behalf of local people, making compromises where necessary to deliver what the majority of councillors and people will support. That is a fundamental democratic principle, and any Bill that has 'democracy' in its title should reflect that.

O ran y bleidlais sengl drosglwyddadwy, mae'r Gweinidog yn sôn am Ynys Môn, lle nad oedd yr un sedd un ymgeisydd, ond dyna'r eithriad sy'n profi'r rheol. Os edrychwch ar etholiadau cynghorau lleol ledled Cymru, roedd nifer fawr o seddi nad oedd ond un ymgeisydd amdanynt, ac, os cymharwch hynny â Gogledd Iwerddon a'r Alban, lle mae'r bleidlais sengl drosglwyddadwy'n weithredol, nid oedd yr un sedd un ymgeisydd yn y naill genedl na'r llall. Roedd y system yn rhoi dewis i bobl, ac roeddent yn gwybod y byddai eu dewis yn cael ei adlewyrchu yng nghanlyniad yr etholiad. Mae honno'n egwyddor bwysig iawn sy'n mynd i'r afael ag un o'r prif ddiffygion sydd gennym mewn etholiadau yng Nghymru. Nid yw canlyniadau etholiadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ategu'r pwynt am ansefydlogrwydd mewn cynghorau. Mae'r cynghorau hynny'n gweithio'n dda iawn yn wir o ran canlyniad y bleidlais sengl drosglwyddadwy, ac yn darparu gwasanaethau ar ran pobl leol, gan gyfaddawdu lle bo angen i gyflawni'r hyn y bydd y rhan fwyaf o gynghorwyr a phobl yn ei gefnogi. Mae honno'n egwyddor ddemocrataidd sylfaenol, a dylai unrhyw Fil sydd â 'democratiaeth' yn ei deitl adlewyrchu hynny.

16:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 5 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will have an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 5. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly fe gawn bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5.

Result of the vote on amendment 5.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 14, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 14, Against 39, Abstain 0.*

16:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Peter Black to move amendment 6.

Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 6.

16:53 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

I move amendment 6 in my name and with the name of Rhodri Glyn Thomas in support.

Cynigiaf welliant 6 yn fy enw i gydag enw Rhodri Glyn Thomas yn ei gefnogi.

Senedd.tv Fideo Video

16:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 6 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 6. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.

Senedd.tv Fideo Video

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6.

Result of the vote on amendment 6.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 13, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 13, Against 39, Abstain 0.*

16:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on Peter Black to move amendment 7.

Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 7.

Senedd.tv Fideo Video

16:53 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

I move amendment 7 in my name and with the name of Rhodri Glyn Thomas in support.

Cynigiaf welliant 7 yn fy enw i gydag enw Rhodri Glyn Thomas yn ei gefnogi.

Senedd.tv Fideo Video

16:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 7 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will have an electronic vote.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 7. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly fe gawn bleidlais electronig.

Senedd.tv Fideo Video

Canlyniad y bleidlais ar welliant 7.

Result of the vote on amendment 7.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 27, Abstain 0.*

*Methodd gwelliant 8.*

*Amendment 8 fell.*

*Methodd gwelliant 17.*

*Amendment 17 fell.*

16:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to dispose of the remaining amendments. I call on the Minister to move amendment 59.

Symudwn yn awr at waredu gweddill y gwelliannau. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 59.

Senedd.tv Fideo Video

16:54 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I move amendment 59 in my name.

Cynigiaf welliant 59 yn fy enw i.

Senedd.tv Fideo Video

16:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 59 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 59 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 59. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 59 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Senedd.tv Fideo Video

*Derbyniwyd gwelliant 59.*

*Amendment 59 agreed.*

16:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Minister to move amendment 55.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 55.

Senedd.tv Fideo Video

16:54

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I move amendment 55 in my name.

Cynigiaf welliant 55 yn fy enw i.

Senedd.tv Fideo Video

16:54

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 55 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 55 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 55. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 55 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 55.*

*Amendment 55 agreed.*

Senedd.tv Fideo Video

16:54

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Minister to move amendment 56.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 56.

Senedd.tv Fideo Video

16:54

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I move amendment 56 in my name.

Cynigiaf welliant 56 yn fy enw i.

Senedd.tv Fideo Video

16:54

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 56 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 56 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 56. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 56 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 56.*

*Amendment 56 agreed.*

Senedd.tv Fideo Video

16:54

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Minister to move amendment 57.

Galwaf ar y Gweinidog i gynnig gwelliant 57.

Senedd.tv Fideo Video

16:54

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

I move amendment 57 in my name.

Cynigiaf welliant 57 yn fy enw i.

Senedd.tv Fideo Video

16:54

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 57 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 57 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 57. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 57 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 57.*

*Amendment 55 agreed.*

Senedd.tv Fideo Video

16:54

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We have now reached the end of Stage 3 consideration of the Local Government (Democracy) (Wales) Bill, and I declare that all sections of and Schedules to the Bill are deemed agreed. That concludes Stage 3 proceedings.

Rydym bellach wedi dod i ddiwedd ystyriaeth Cyfnod 3 Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru), ac rwyf yn datgan y bernir bod pob adran o'r Bil a phob Atodlen iddo wedi eu derbyn. Dyna ddiwedd trafodion Cyfnod 3.

Senedd.tv Fideo Video

## Cynnig Cyfnod 4 i Gymeradwyo Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) o dan Reol Sefydlog Rhif 26.47

Cynnig

## Stage 4 Standing Order No. 26.47 Motion to Approve the Local Government (Democracy) (Wales) Bill

Motion

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 26.47, yn cymeradwyo'r Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru).

The National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 26.47, approves the Local Government (Democracy) (Wales) Bill.

16:55

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I am very pleased that we have reached the final stage of the Local Government (Democracy) (Wales) Bill. It has been subject to robust scrutiny by this Assembly and by the Communities, Equality and Local Government Committee as well as the Constitutional and Legislative Affairs Committee. The Bill now provides a platform for the Local Government Boundary Commission for Wales, soon to be renamed the local democracy and boundary commission for Wales, to carry out its important work in ensuring democratic balance in local government. It has a new framework to operate within, which it has helped to develop through its own representations. I am hopeful that, with the work it has done itself to reinvigorate the organisation, it can put the troubles of the recent past behind it and go forward with confidence.

Rwyf yn falch iawn ein bod wedi cyrraedd cyfnod terfynol Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru). Mae wedi bod yn destun craffu cadarn gan y Cynulliad hwn a chan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn ogystal â'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Mae'r Bil bellach yn darparu llwyfan i'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, a fydd yn cael ei ailenwi cyn hir yn gomisiwn ffiniau a democratiaeth leol i Gymru, i gyflawni ei waith pwysig i sicrhau cydbwysedd democrataidd mewn llywodraeth leol. Mae ganddo fframwaith newydd i weithredu ynddo, y mae wedi helpu i'w ddatblygu drwy ei sylwadau ei hun. Rwyf yn gobeithio y gall, gyda'r gwaith y mae wedi ei wneud ei hun i adfywio'r sefydliad, roi'r trafferthion diweddar y tu ôl iddo a symud ymlaen yn hyderus.

The Bill also introduces reforms that I believe will assist and strengthen democratic processes in relation to local government. I would particularly like to thank the Chair and previous Chair, the members and the officials of the Communities, Equality and Local Government Committee for their professional scrutiny of the Bill. I also thank the Chair, members and officials of the Constitutional and Legislative Affairs Committee in the same spirit. My thanks also go to those who provided evidence to the committees or took part in the formal and informal consultations associated with the Bill. As far as possible, I have taken on board those proposals that have been in keeping with the aims of the Bill and I hope that they feel that their contributions have helped to make this a better piece of legislation. My final thanks go to the Bill team and the officials within my department. I look forward to its implementation and ask Members to approve this Bill.

Mae'r Bil hefyd yn cyflwyno diwygiadau y credaf y byddant yn cynorthwyo ac yn cryfhau prosesau democrataidd mewn perthynas â llywodraeth leol. Yn benodol, hoffwn ddiolch i Gadeirydd a Chadeirydd blaenorol, aelodau a swyddogion y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol am eu gwaith craffu proffesiynol ar y Bil. Rwyf hefyd yn diolch i Gadeirydd, aelodau a swyddogion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn yr un ysbryd. Hoffwn ddiolch hefyd i'r rheini a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgorau neu a gymerodd ran yn yr ymgynghoriadau ffurfiol ac anffurfiol sy'n gysylltiedig â'r Bil. Cyhyd ag y bo modd, rwyf wedi ystyried y cynigion hynny sy'n gydnaws ag amcanion y Bil ac rwyf yn gobeithio y byddant yn teimlo bod eu cyfraniadau wedi helpu i wneud hwn yn well darn o ddeddfwriaeth. Hoffwn ddiolch yn olaf i dîm y Bil a'r swyddogion yn fy adran. Edrychaf ymlaen at ei roi ar waith a gofynnaf i'r Aelodau gymeradwyo'r Bil hwn.

16:56

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I, too, would like to thank all the Chairs of the committee—we have had two now and we will stick at two, I think—as well as all the witnesses who gave their time to contribute to this particular debate and all the members of the committee; it has been quite an exciting time for us. We are now happy to support the Local Government (Democracy) (Wales) Bill.

Hoffwn innau, hefyd, ddiolch i holl Gadeiryddion y pwyllgor—rydym wedi cael dau yn awr a chadwn at ddau, rwyf yn meddwl—yn ogystal ag i'r holl dystion a roddodd o'u hamser i gyfrannu at y ddadl arbennig hon ac i holl aelodau'r pwyllgor; mae wedi bod yn gyfnod eithaf cyffrous inni. Rydym bellach yn hapus i gefnogi Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru).

When it was first introduced, we welcomed the general principles of the Bill, but warned that it was not strong enough to introduce really meaningful change into local democracy and that it ignored outstanding issues relating to senior pay and other matters, such as uncontested elections. As is now well known, the Welsh Government, in a u-turn, has agreed to change the Bill to address the concerns over senior pay. We recognise that its position shifted during the transit of the Bill through the Assembly. Plaid Cymru's focus is to see how senior pay now operates under the new arrangement, where there will be an extra layer of independent scrutiny. I think that the public will really welcome that. Certainly, people in Caerphilly will.

Pan gafodd ei gyflwyno gyntaf, roeddem yn croesawu egwyddorion cyffredinol y Bil, ond yn rhybuddio nad oedd yn ddigon cryf i gyflwyno newid gwirioneddol ystyrlon i ddemocratiaeth leol a'i fod yn anwybyddu materion heb eu datrys yn ymwneud â chyflogau uwch a materion eraill, megis etholiadau un ymgeisydd. Fel sy'n hysbys bellach, mae Llywodraeth Cymru, mewn tro pedol, wedi cytuno i newid y Bil i fynd i'r afael â'r pryderon ynghylch cyflogau uwch. Rydym yn cydnabod bod ei safbwynt wedi newid yn ystod taith y Bil drwy'r Cynulliad. Mae Plaid Cymru am roi sylw'n anad dim i'r ffordd y mae cyflogau uwch yn gweithredu yn awr o dan y trefniant newydd, lle bydd haen ychwanegol o graffu annibynnol. Credaf y bydd y cyhoedd yn croesawu hynny'n wirioneddol. Yn sicr, bydd pobl yng Nghaerffili'n ei groesawu.

If the problems we have seen are not cleared up and there continues to be significant competition within the market, we will have to bring forward further proposals. We would also encourage the commission on public services to look at the market in senior officer pay to see what an alternative system could look like. Until then, we hope that we will see more equity, and, in particular, we hope for the plight of the lower-paid council workers to be kept in mind. Local authorities are looking at their senior staff; I think that they should also look at their lower-paid staff. Some councils, to be fair, have done that, but it is not consistent across Wales. Today is the first time we have had any commitment from the Welsh Government to take action on this. We should welcome—I promise that this will be the last time that I mention him—Rhodri Glyn Thomas's work on this issue. We welcome today's Bill and the agreement reached with the Government.

Os na chaiff y problemau yr ydym wedi'u gweld eu datrys ac os bydd cryn dipyn o gystadleuaeth yn dal i fod yn y farchnad, bydd yn rhaid inni gyflwyno cynigion pellach. Byddem hefyd yn annog y comisiwn ar wasanaethau cyhoeddus i edrych ar farchnad tâl uwch swyddogion i weld sut y gallai system amgen edrych. Tan hynny, rydym yn gobeithio y byddwn yn gweld mwy o degwch, ac, yn benodol, rydym yn gobeithio y bydd sefyllfa gweithwyr y cynghorau sydd ar gyflogau is yn cael ei chadw mewn cof. Mae awdurdodau lleol yn edrych ar eu staff uwch; rwyf yn meddwl y dylent hefyd edrych ar eu staff ar gyflogau is. Mae rhai cynghorau, a bod yn deg, wedi gwneud hynny, ond nid yw hyn yn gyson ledled Cymru. Heddiw yw'r tro cyntaf inni gael unrhyw ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i weithredu ar hyn. Dylem groesawu gwaith—rwyf yn addo mai dyma fydd y tro olaf y byddaf yn sôn amdano—Rhodri Glyn Thomas ar y mater hwn. Rydym yn croesawu'r Bil heddiw a'r cytundeb a gafwyd â'r Llywodraeth.

16:59

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rhodri Glyn Thomas's absence has been a major feature in the discussion of this Bill. [Laughter.] Any Bill that requires two committee Chairs and two Ministers to bring it to fruition is obviously a very significant Bill. We are happy to support it in its current form, although, clearly, we felt it could have been improved further by some of the amendments that were not agreed. I think that the Bill has been improved during the process. It is a testament to the Stage 1 and Stage 2 processes we have in the Assembly that this Bill has changed and that the Minister has been able to listen. We possibly had to twist your arm a bit at times, Minister, but we certainly have a better Bill as a result. The most important part of this Bill for me is the way in which it opens up community councils and makes them more transparent in terms of the electronic availability of information. That will make a significant change to the way in which those community councils are run. The only thing that is missing now in terms of community councils is a proper electoral system to make sure that councillors are elected in a fair and democratic way.

Mae absenoldeb Rhodri Glyn Thomas wedi bod yn nodwedd amlwg wrth inni drafod y Bil hwn. [Chwerthin.] Mae unrhyw Fil y mae angen dau Gadeirydd pwyllgor a dau Weinidog er mwyn iddo ddwyn ffrwyth yn amlwg yn Fil pwysig iawn. Rydym yn hapus i'w gefnogi yn ei ffurf bresennol, er ein bod, yn amlwg, yn teimlo y gallai fod wedi ei wella ymhellach drwy rai o'r gwelliannau na chafodd eu derbyn. Credaf fod y Bil wedi ei wella yn ystod y broses. Mae'n glod i'r prosesau Cyfnod 1 a Chyfnod 2 sydd gennym yn y Cynulliad fod y Bil hwn wedi newid a bod y Gweinidog wedi gallu gwrando. Efallai y bu'n rhaid inni droi eich braich ychydig ar adegau, Weinidog, ond yn sicr mae gennym well Bil o ganlyniad. Y rhan bwysicaf o'r Bil hwn i mi yw'r ffordd y mae'n agor cynghorau cymuned ac yn eu gwneud yn fwy tryloyw o ran y wybodaeth sydd ar gael yn electronig. Bydd hynny'n newid yn sylweddol y ffordd y mae'r cynghorau cymuned hynny'n cael eu rhedeg. Yr unig beth sydd ar goll yn awr o ran y cynghorau cymuned yw system etholiadol briodol i sicrhau bod cynghorwyr yn cael eu hethol mewn ffordd deg a democrataidd.

17:00

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to reply to the debate. I see that you have no comments to make. That is fine. The question is that the Local Government (Democracy) (Wales) Bill be passed. Does any Member object? There are no objections, therefore the Bill is passed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl. Gwelaf nad oes gennych sylwadau i'w gwneud. Mae hynny'n iawn. Y cwestiwn yw a ddylid pasio Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru). A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae'r Bil wedi'i basio yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

## Cynnig i Ethol Aelod i Bwyllgor

## Motion to Elect a Member to a Committee

Cynnig NDM5270 Rosemary Butler

Motion NDM5270 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Ken Skates (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Craffu ar y Prif Weinidog yn lle Mark Drakeford (Labour).

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Ken Skates (Labour) as a member of the Scrutiny of the First Minister Committee in place of Mark Drakeford (Labour).

17:00

### Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

17:00

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is no objection, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig yw y dylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly, mae'r cynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

17:00

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

That brings today's proceedings to a close.

Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.00 p.m.*

*The meeting ended at 5.00 p.m.*